

# Tuag at 2030

Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg  
ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru

---

## **Adroddiad terfynol**

Adolygiad o oruchwylio addysg ôl-orfodol yng Nghymru, gan gyfeirio'n benodol at rôl a swyddogaeth Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn y dyfodol

**Yr Athro Ellen Hazelkorn**

# Cynnwys

<b>Talfyriadau</b>	<b>3</b>
<b>Cydnabyddiaethau</b>	<b>4</b>
<b>1. Beth mae Cymru yn ceisio ei gyflawni?</b>	<b>6</b>
<b>2. Crynodeb gweithredol</b>	<b>9</b>
2.1 Dyfodol Cymru	9
2.2 Statws system ôl-orfodol Cymru	9
2.3 Profiad rhyngwladol	11
2.4 Egwyddorion arweiniol	13
2.5 Argymhellion	13
<b>3. System ôl-orfodol Cymru</b>	<b>15</b>
3.1 Trefniadau llywodraethu presennol	15
3.2 Themâu a materion sy'n dod i'r amlwg	20
3.2.1 Statws ac ansawdd y system addysg	20
3.2.2 Cysylltedd rhwng systemau addysg uwch Cymru a'r DU	212
3.2.3 Statws a rôl addysg bellach	23
3.2.4 Y dirwedd ôl-uwchradd	24
3.2.5 Seilwaith a chymhwysedd addysg ac ymchwil	25
3.2.6 Rôl sefydliadau cyfryngol	26
3.2.7 Ymgysylltu â chymdeithas Cymru a'r economi	27
3.3 Y prif negeseuon	29
<b>4. Gwersi o brofiad rhyngwladol</b>	<b>30</b>
4.1 Profiadau rhyngwladol	30
4.2 Trefniadau rheoleiddio a llywodraethu: sefydliadau cyfryngol	37
4.3 Y dirwedd ôl-uwchradd	41
4.4 Dulliau cydlynu: cytundebau perfformiad, compactau a phroffilio	47
4.5 Crynodeb	51
<b>5. Casgliadau</b>	<b>52</b>
5.1 Yr achos dros ddiwygio	52
5.2 Egwyddorion arweiniol	54
<b>6. Argymhellion a materion eraill</b>	<b>55</b>
6.1 Argymhellion	55
6.2 Gweithredu materion y mae angen eu hystyried ymhellach	58
<b>7. Atodiad A: Cylch gorchwyl</b>	<b>60</b>
<b>8. Atodiad B: Awdurdod Addysg Drydyddol</b>	<b>61</b>
8.1 Rôl a chyfrifoldebau'r Awdurdod Addysg Drydyddol	61
8.2 Strwythur a threfniadaeth yr Awdurdod Addysg Drydyddol	62

8.2.1	Bwrdd Llywodraethu'r Awdurdod Addysg Drydyddol	62
8.2.2	Bwrdd Cynghori Academaidd yr Awdurdod Addysg Drydyddol	63
8.2.3	Bwrdd Gweithredol yr Awdurdod Addysg Drydyddol	64
<b>9.</b>	<b>Atodiad C: Profiadau rhyngwladol o awdurdodaethau cyfeirio</b>	<b>65</b>
9.1	Y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon	65
9.1.1	Lloegr	65
9.1.2	Gogledd Iwerddon	66
9.1.3	Yr Alban	68
9.1.4	Gweriniaeth Iwerddon	69
9.2	Awdurdodaethau eraill	71
9.2.1	Alberta, Canada	71
9.2.2	Awstralia	72
9.2.3	Y Ffindir	74
9.2.4	Rhanbarth Gweinyddol Arbennig Hong Kong	75
9.2.5	Israel	77
9.2.6	Seland Newydd	78
9.2.7	Ontario, Canada	79
<b>10.</b>	<b>Atodiad D: Rhaglen o gymryd tystiolaeth</b>	<b>82</b>
10.1	Fframwaith ar gyfer cymryd tystiolaeth	82
10.2	Amserlen cymryd tystiolaeth	83
<b>11.</b>	<b>Atodiad E: Sylwadau a gyflwynwyd</b>	<b>86</b>
11.1	Llythyr yn gofyn am sylwadau	86
11.2	Sylwadau a gyflwynwyd (yn nhrefn y wyddor)	87
	<b>Nodiadau</b>	<b>88</b>

## Tablau a ffigurau

Tabl 1:	Awdurdodaethau cyfeirio	30
Tabl 2:	Trosolwg o drefn lywodraethu systemau ymhlith awdurdodaethau cyfeirio	32
Tabl 3:	Modelau cydlynu yn ôl awdurdodaeth cyfeirio	38
Tabl 4:	Cyrff cyfryngol yn Ewrop	39
Tabl 5:	Trefnu a llywodraethu'r sector ôl-orfodol/ôl-uwchradd	45
Tabl 6:	Cyllido ar sail perfformiad a chytundebau perfformiad	48
Ffigur 1:	Fframwaith llywodraethu system addysg uwch Iwerddon	40

## Talfyriadau

AB – Addysg Bellach – fel arfer mae'n cynnwys addysg alwedigaeth, seiliedig ar waith a/neu addysg i oedolion gyda ffocws cadarn ar sgiliau cyflogaeth. Mae rhaglenni yn llai datblygedig na rhaglenni ar y lefel drydyddol a gellir eu darparu mewn amrywiaeth o leoliadau sefydliadol, yn hytrach na dim ond yn y rhai a ystyrir yn sefydliadau annhrydyddol ôl-uwchradd<sup>1</sup>

AHG – Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol

AU – Addysg Uwch

DSW – Dysgu Seiliedig ar Waith

Prifysgol – at ddiben yr adroddiad hwn, mae'n cyfeirio'n benodol at y sefydliadau hynny sy'n gwneud ymchwil ac yn dyfarnu graddau uwch, ac y rhoddir y statws hwn iddynt yn gyfreithiol

SAB – Sefydliad Addysg Bellach

SAU – Mae Sefydliad Addysg Uwch yn cyfeirio at bob sefydliad sy'n dyfarnu graddau uwch, waeth beth fo'i enw a'i statws o dan y gyfraith

## Cydnabyddiaethau

Wrth gynnal yr adolygiad hwn, rwyf wedi cyfarfod ac ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bobl, ac wedi cael llawer o sgysiau diddorol a oedd yn ysgogi meddwl ynglŷn ag addysg ôl-orfodol, cyflawniad a llwyddiant myfyrwyr a chymdeithas, rôl a chyfrifoldebau sefydliadau yn yr 21<sup>ain</sup> ganrif ac, yn y pen draw, ynglŷn â nodi'r systemau priodol i sicrhau y caiff amcanion a nodau cenedlaethol eu cyflawni tra'n cydnabod ac yn parchu pwysigrwydd strategol sefydliadau uchelgeisiol ac arweinyddiaeth sefydliadol. Rhoddodd llawer o bobl o'u hamser, gan gyfarfod â mi er mwyn trafod y sefyllfa bresennol a'i heriau, ac edrych i'r dyfodol; cyflwynodd eraill sylwadau. Y darlun a gefais yw system ôl-orfodol yng Nghymru, a'i phobl, sy'n ymrwymedig iawn i atgyfnerthu ei rôl a'i chyfraniad i gymdeithas a'r economi, i wella ansawdd a chyfranogiad, i geisio rhagoriaeth mewn economi genedlaethol a byd-eang gystadleuol a system addysg a marchnad lafur sydd wedi'u rhyngwladoli.

Wrth baratoi'r adroddiad hwn,

- Cynhaliwyd ymchwil desg i system ôl-orfodol Cymru, ac awdurdodaethau cyfeirio rhyngwladol;
- Cyfwelwyd â grwpiau rhanddeiliaid allweddol o bob rhan o'r Adran Addysg a Sgiliau, ysgolion uwchradd, sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch, dysgu seiliedig ar waith ac addysg oedolion a chymunedol, grwpiau busnes ac undebau llafur, CCAUC, ac asiantaethau eraill megis QAA ac Estyn (gweler Atodiad Ch);
- Cyfwelwyd â chyrff y llywodraeth a chyrff cyfryngol yng ngwledydd eraill y DU a Gweriniaeth Iwerddon (gweler Atodiad Ch);
- Cynhaliwyd trafodaethau â Syr Ian Diamond, cadeirydd yr *Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru*;
- Lanswyd Cais am Dystiolaeth ym mis Hydref 2015 gyda dyddiad cau ffurfiol ar 26 Tachwedd 2015, er i'r holl ymatebion ar ôl y dyddiad hwn gael eu derbyn (gweler Atodiad D).

Hoffwn ddiolch i bawb y cyfarfûm â hwy ac i bawb a gyflwynodd sylwadau. Rwy'n ddiolchgar hefyd i'm cydweithwyr: Bahram Bekhradnia, Ewart Keep, John Goddard, Michael Shattock a Peter Scott a fu cystal â rhoi cyngor da a sylwadau imi, ac i gydweithwyr mewn gwahanol awdurdodaethau ledled y byd a roddodd gymorth imi o ran materion llywodraethu: Vin Massaro (Awstralia), Harvey P. Weingarten ac Alex Usher (Canada), Richard Armour (Hong Kong), Jouni Kekäle (y Ffindir), a Clare Sinnott and John McCormick (Seland Newydd), ac i Andrew Gibson a roddodd gymorth ymchwil – ond fi sy'n gyfrifol am unrhyw wallau a hepgoriadau. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i bawb yn

Llywodraeth Cymru y cyfarfûm â hwy ac y siaredais â hwy, yn enwedig Huw Morris a'i dîm, a fu'n hynod barod eu cymwynas drwy gydol y broses.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, a'i dîm, am ofyn imi gynnal yr adolygiad hwn. Bu hon, yn sicr, yn un o'r tasgau mwyaf diddorol y gofynnwyd imi ymgymryd â hi, yn bennaf am fod yr holl faterion sydd wrth wraidd yr adolygiad hwn mor bwysig a pherthnasol i bob cymdeithas wrth inni symud o ddarparu addysg elit i sicrhau darpariaeth cyfranogiad mawr, o ansawdd uchel, sy'n briodol ac yn hygyrch i ddinasyddion byd-eang yr 21<sup>ain</sup> ganrif.

# 1. Beth mae Cymru yn ceisio ei gyflawni?

Mae'r adroddiad hwn yn cael ei baratoi ar adeg bwysig ac amserol yn natblygiad addysg yng Nghymru, y DU, ac yn rhyngwladol. Ledled y byd, cydnabyddir yn eang bod addysg yn cynnig "significant benefits to society, not only through higher employment opportunities and income but also via enhanced skills, improved social status and access to networks."<sup>2</sup> Ond eto, heddiw, mae globaleiddio, newid technolegol a demograffig, ac effeithiau cyfun natur estynedig y Dirwasgiad Mawr, heriau sy'n gysylltiedig ag adnoddau, a chystadleurwydd economaidd cynyddol yn rhoi cryn bwysau ar addysg i sicrhau a dangos ei bod yn rhoi gwell gwerth a budd i ddinasyddion a chymdeithas.<sup>3</sup> Mae Cymru yn wynebu heriau demograffig, cymdeithasol ac economaidd ynghyd â chyfuniad o ddatblygiad rhanbarthol anwastad, sgiliau addysg a chyflogadwyedd gwan, cymysgedd marchnad lafur sy'n newid, a dim canolfannau mawr ac eithrio Caerdydd.<sup>4</sup> Ar yr un pryd, mae'r cydberthnasau rhwng gwledydd y DU, a rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd, yn newid o hyd. Mae'r papur ymgynghori, *Fulfilling our Potential: Teaching Excellence, Social Mobility and Student Choice*, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn ddiweddar yn cynnig pensaerniaeth lywodraethu newydd i addysg uwch (AU) yn Lloegr, gyda goblygiadau canlyniadol. Mae'r holl ddatblygiadau hyn yn newid yr amgylchedd polisi y mae Cymru yn gweithredu ynddo a hefyd yn cynnig cyfleoedd newydd.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd nifer o gamau i ddatblygu a gwella ei system addysg ymhellach fel y gall fodloni gofynion a diwallu anghenion yr 21<sup>ain</sup> ganrif yn well. Mae'r *Datganiad Polisi ar Addysg Uwch* (2013) yn nodi ei huchelgais am gael "system addysg uwch o ansawdd byd-eang yng Nghymru sy'n gwasanaethu buddiannau dysgwyr a'r genedl yn yr unfed ganrif ar hugain." Roedd y datganiad yn cynnwys blaenoriaethau polisi ar gyfer AU hyd at 2020. Yna cyhoeddodd *Cymwys am Oes* (2014) a ymhelaethodd ar weledigaeth a chynllun gweithredu ar gyfer dysgwyr 3-19 oed lle mae "pob plentyn a pherson ifanc yn gallu mwynhau profiadau addysgu a dysgu rhagorol" "mewn ffordd sy'n eu hysbrydoli i lwyddo". Fe'i dilynwyd gan adroddiadau eraill, a oedd dadlau o blaid diwygio'r cwricwlwm ysgol (*Dyfodol Llwyddiannus*, 2015), gwasanaethau cerddoriaeth (*Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Wasanaethau Cerddoriaeth yng Nghymru*, 2015), hyfforddiant athrawon (*Addysgu Athrawon Yfory*, 2015) a llywodraethu AU (*Llwyddiant ac Atebolrwydd*, 2011). Ar ôl cyhoeddi *Datganiad Polisi am Sgiliau* (2014) cafwyd *Cynllun Gweithredu Sgiliau*. Mae Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, a gaiff ei gweithredu yn 2017, yn rhoi pwerau a swyddogaethau rheoleiddio newydd sylweddol i CCAUC. Cyhoeddwyd *Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru* (2013)<sup>5</sup>, a chyhoeddwyd

adroddiad interim, *Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru* ar ddiwedd 2015.<sup>6</sup>

Er ei bod yn cydnabod y cyflawniadau hyn, nododd Llywodraeth Cymru heriau o hyd i'r system sy'n deillio o gymhlethdod y dirwedd addysg ôl-uwchradd a threfniadau llywodraethu ym maes addysg bellach (AB) ac AU, dysgu seiliedig ar waith ac addysg oedolion a chymunedol, heriau o hyd o ran cyllid cyhoeddus, a gofynion i ehangu'r ystod o wasanaethau i ddiwallu anghenion dinasyddion a chymdeithas yn yr 21<sup>ain</sup> ganrif. Dros y blynyddoedd mae rhannau gwahanol o'r system wedi ymateb i'r heriau hyn ac wedi ceisio eu hateb mewn ffyrdd gwahanol, gan sefydlu "gwahanol drefniadau ar gyfer gwahanol fathau o ymgysylltu ynghyd â gwahanol lefelau o effeithiolrwydd wrth i nifer o swyddogaethau trosolwg gael eu cyflawni:

- rhoi cyfeiriad strategol, cymorth a chydlynu;
- monitro perfformiad ariannol; asesu, rheoli a lliniaru risg;
- sicrhau ansawdd addysg a ddarperir i fyfyrwyr ac ymchwil ac arloesedd a ddarperir i'r cyhoedd;
- rhoi hyfforddiant a datblygiad arwain, rheoli a llywodraethu; dosbarthu cyllid refeniw ar sail fformiwla a/neu dargedau;
- cynllunio buddsoddi a dadfuddsoddi cyfalaf;
- ymyrryd i ddiogelu lles myfyrwyr a chynaliadwyedd sefydliadol pan fo angen."

Felly, mae addysg ôl-orfodol yng Nghymru yn cael ei goruchwyllo gan gymysgedd o Lywodraeth Cymru a chyrrff a noddir gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Gan edrych ymlaen barnodd Llywodraeth Cymru "ei bod hi'n amser priodol i adolygu'r cwmpas ar gyfer cysoni'n well y trefniadau ar gyfer cynnal trosolwg rhwng ac o fewn y sefydliadau sydd ynghlwm wrth ddarparu addysg a hyfforddiant ôl-orfodol." (gweler y Cylch Gorchwyl yn Atodiad A).

Mae addysg yn chwarae rôl hollbwysig yn yr ecosystem genedlaethol sy'n ategu ac yn sicrhau llwyddiant, iechyd a boddhad personol, ac sy'n cyfrannu at ganlyniadau economaidd a chymdeithasol i wledydd yn ogystal â buddiannau byd-eang. Oherwydd y cydberthnasau uniongyrchol rhwng systemau gwerthoedd cymdeithas a dewisiadau polisi, mae'r ffordd y mae Cymru yn cydbwysu ei hamcanion ar gyfer gweithlu medrus, mwy o gydraddoldeb cymdeithasol, twf rhanbarthol cytbwys, dinasyddion gweithredol ac ymgysylltiol, sefydliadau cystadleuol, cadarn, sy'n denu ac yn cadw talent, a chystadleurwydd byd-eang, yn bwysig. Mae hyn yn golygu sicrhau bod y system ôl-orfodol yn cynnwys y nodweddion canlynol: addysg agored a chystadleuol, sy'n cynnig y cyfle a'r dewis ehangaf i'r nifer fwyaf o fyfyrwyr; portffolio cydlynol o sefydliadau sy'n wahanol i'w gilydd, sy'n perfformio'n dda



ac sy'n ymgysylltu'n weithredol, gan roi ystod o brofiadau addysg, profiadau ymchwil a phrofiadau i fyfyrwyr o 16 oed drwy gydol eu bywyd gweithredol; datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar ddinasyddion Cymru i gyfrannu at gymdeithas drwy gydol eu bywyd, tra'n denu talent ryngwladol; gall graddedigion lwyddo yn y farchnad lafur, ysgogi a chynnal datblygiad personol, cymdeithasol ac economaidd sy'n ategu cymdeithas sifil; a gweithredu'n llwyddiannus yn y farchnad fyd-eang, yn rhyngwladol ei phersbectif ac yn ymatebol i newid.

*Mae Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer Datblygu System Addysg Ôl-orfodol i Gymru* yn cynnig agenda gyda chyfres o amcanion a mentrau ar gyfer addysg ôl-orfodol, gan gynnwys 6<sup>ed</sup> dosbarth, AB ac AU, dysgu seiliedig ar waith, ac addysg oedolion a chymunedol. Mae'r adroddiad yn uchelgeisiol ac yn edrych tuag at y dyfodol, gan ystyried senarios yn y dyfodol ar gyfer tirwedd cymdeithas Cymru a'r economi tuag at 2030, a sefyllfa Cymru yn y Deyrnas Unedig ac o fewn economi gynyddol gystadleuol Ewropeaidd a byd-eang. Yn hytrach na gweld agendau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol fel agweddau ar ymdrech addysgol sy'n tynnu'n groes i'w gilydd, mae'r adroddiad hwn yn eu gweld yn gweithredu o fewn portffolio cytbwys, cyflenwol a synergistig o weithgareddau.

Mae'r adroddiad hwn yn ystyriol o'r weledigaeth ddatganedig ar gyfer addysg yng Nghymru, gwerthoedd cadarn ei chymdeithas, yr awydd am fwy o gydraddoldeb cymdeithasol a system o ansawdd da sydd â chyrhaeddiad byd-eang, a phwysigrwydd addysg ar gyfer datblygu cyfalaf dynol ac fel budd cyhoeddus. Mae derbyn yr egwyddorion a'r nodau hyn yn gosod cyfrifoldebau ar y llywodraeth ac ar sefydliadau fel ei gilydd. Mae *Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer Datblygu System Addysg Ôl-orfodol o'r Radd Flaenaf i Gymru* yn nodi fframwaith ar gyfer y dyfodol, ac yn gwneud argymhellion ynglŷn â'r trefniadau llywodraethu ôl-orfodol gorau i ddiwallu anghenion Cymru yn yr 21<sup>ain</sup> ganrif.

Yr Athro Ellen Hazelkorn

Dydd Mawrth, 1 Mawrth 2016

## 2. Crynodeb gweithredol

### 2.1 Dyfodol Cymru

Mae addysg ôl-orfodol Cymru wedi cyrraedd croesffordd. Mae cyfuniad o ffactorau cymdeithasol, economaidd a chystadleuol ehangach, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, yn herio tybiaethau, strwythurau a threfniadau llywodraethu traddodiadol addysg. Mae newidiadau polisi ledled y DU, ochr yn ochr â newidiadau posibl yn y berthynas rhwng y DU ac Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd, yn cynnig heriau ychwanegol. Mae gwahaniaethau economaidd ledled Cymru, a rhwng Cymru a gweddill y DU, yn hoelio sylw llunwyr polisi a'r cyhoedd ar yr angen am addysg ac ymchwil sy'n gwasanaethu cymdeithas yn well yn ogystal ag ategu cyflawniad personol. Mae datblygu sylfaen economaidd gadarn sydd â chyflogaeth o safon uchel, sy'n gallu denu a chadw talent yng Nghymru, yn hanfodol. Wrth i bobl fyw bywydau hirach ac iachach, mae'r cysyniad o "swydd am oes" yn mynd mor afraid ag "addysg am oes", ac felly mae dysgu gydol oes yn anghenraid yn yr 21ain ganrif.

Mae'r datblygiadau hyn yn dod â heriau sylweddol yn eu sgil. Ond, mae gan Gymru gyfle unigryw i fanteisio ar newidiadau ledled y DU, Ewrop ac yn rhyngwladol, i lunio ei dyfodol ei hun. Mae *Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer Datblygu System Addysg Ôl-orfodol o'r Radd Flaenaf i Gymru* yn amlinellu llwybr uchelgeisiol ond realistig. Mae'n cynnig ffordd fwy soffistigedig o lywodraethu addysg ôl-orfodol na chynt, gan sicrhau cyd-drefnu mwy effeithiol ymhlith sefydliadau cyhoeddus a nodau cymdeithas Cymru, er mwyn gwneud y canlynol:

- Gwella cyfleoedd addysgol a gyrfaol ac ansawdd, dros yr holl sbectrwm ôl-orfodol, ac ar hyd bywydau pobl;
- Angori ac ategu datblygiad cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd rhanbarthol;
- Hyrwyddo cystadleurwydd byd-eang sefydliadol a chenedlaethol.

### 2.2 Statws system ôl-orfodol Cymru

Mae sector ôl-orfodol Cymru yn cynnwys set amlweddog ac amrywiol o sefydliadau, sy'n diwallu anghenion dysgwyr o 16 oed ymlaen. Gan adlewyrchu'r cymhlethdod hwn, caiff llywodraethu, rheoleiddio, sicrwydd ansawdd a pherfformiad eu goruchwylio a'u monitro gan fyrdd o sefydliadau, y mae rhai ohonynt wedi'u lleoli yng Nghymru, ac eraill yn gweithredu o fewn system ôl-orfodol ehangach Lloegr neu'r DU. Caiff y system addysg uwch ei goruchwylio gan CCAUC, ond mae newidiadau diweddar i'r ffordd y caiff

addysg uwch ei hariannu wedi arwain at newidiadau yng nghyfrifoldebau CCAUC, gyda mwy o bwyslais ar ei rôl fel rheoleiddiwr o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015. Mae'r awydd am fwy o gydlyniaeth mewn darpariaeth addysgol, gwell ansawdd a mwy o fas critigol wedi arwain at newidiadau strwythurol, sefydliadol a chyfreithiol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Gan ddefnyddio cyfweiliadau â rhanddeiliaid allweddol o bob rhan o lywodraeth Cymru, y system addysg ôl-orfodol, a chymdeithas a chymuned fusnes ehangach Cymru, nodwyd nifer o faterion:

- Mae sefydliadau ôl-orfodol wedi chwarae rôl bwysig yn hanes Cymru ond mae angen newid sylweddol;
- Mae cystadleuaeth gynyddol yn y DU ac yn rhyngwladol, ochr yn ochr â newidiadau yn nhrefniadau llywodraethu Addysg Uwch yn Lloegr, yn cynnig heriau ond hefyd gyfleoedd i Gymru;
- Diffyg meddwl strategol gan y llywodraeth neu gan y sefydliadau, ar bob lefel, gan arwain at ddiffyg cydweithredu, diffyg màs critigol, a gormod o gystadleuaeth am adnoddau prin heb fawr ddim budd i Gymru;
- Diffyg gweledigaeth gyffredinol ar gyfer y system ôl-orfodol wedi'i chysoni ag anghenion cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, yn awr ac yn y dyfodol.
- Amryfusedd ynglŷn â'r rolau sy'n gorgyffwrdd a dyblygu adnoddau, rhwng ac ar draws gwahanol sefydliadau, rhwng addysg bellach ac addysg uwch a rhwng gwahanol asiantaethau;
- Diffyg llwybrau dysgu cydlynol a chyfleoedd addysgol i fyfyrwyr, o bob oedran, rhyw a thalent, o'r ysgol, i/drwy addysg bellach ac addysg uwch, ac yn enwedig drwy gydol eu bywydau gwaith;
- Yr anallu i ddenu a chadw talent yng Nghymru oherwydd cyfleoedd addysgol (gan gynnwys lefel ôl-raddedig) a chyflogaeth annigonol.
- Cyfeirnodau cyffredin pwysig o ran prifysgolion Cymru sy'n gweithredu yn y DU, sef fframwaith cymwysterau, sicrwydd ansawdd, ymchwil, rhyngwladoli a brandio, ymhlith pethau eraill;
- Gall sefydliadau cyfryngol helpu i sicrhau prosesau gwneud penderfyniadau hirdymor strategol a gwrthrychol;
- Diffyg gallu strategol a meddwl cydgysylltiedig yn gyffredinol yn y llywodraeth a sefydliadau a rhyngddynt.

## 2.3 Profiad rhyngwladol

Er mwyn llywio syniadaeth ynglŷn â llywodraethu addysg Cymru yn y dyfodol, archwiliwyd 11 o awdurdodaethau. Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried y llenyddiaeth academaidd a phrofiadau perthnasol eraill er mwyn trafod dulliau gwahanol o drefnu a llywodraethu systemau addysg ôl-orfodol ym mhob un. Yna, mae'n tynnu sylw at y prif wersi a allai lywio penderfyniadau polisi ynglŷn â rheoleiddio a goruchwyllo addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru.

Cafodd tair prif nodwedd eu hadolygu a'u trafod: trefniadau rheoleiddio a llywodraethu; y dirwedd ôl-uwchradd a dulliau cydlynu. Nodwyd hefyd fanteision ac anfanteision y dulliau gweithredu gwahanol, a'r gwersi i Gymru. Y prif ganfyddiadau sy'n berthnasol i Gymru yw'r canlynol, ymhlith pethau eraill:

- Mae sefydliadau cyfryngol yn chwarae rhan bwysig o ran gweithredu polisi, dyrannu adnoddau, monitro a gwerthuso perfformiad, a rheoleiddio'r system, yn ogystal â rhoi cyngor gwrthrychol i'r llywodraeth a sefydliadau;
- Mae sefydliadau cyfryngol yn meddu ar y gallu i weithredu, goruchwyllo a chynnal polisiâu a newid polisi dros gyfnodau hwy o amser;
- Drwy ddull gweithredu "system" gellir datblygu dull strategol, cydgysylltiedig a chydlynol o ddarparu addysg gan sicrhau "effaith ar y cyd" i gymdeithas;
- mae dull gweithredu "system" yn helpu i gydbwysu anghenion a gofynion cymdeithas, a'r system addysg yn gyffredinol, gyda'r manteision sy'n gysylltiedig â sefydliadau cadarn, amrywiol, uchelgeisiol ac ymreolaethol;
- Mae cytundebau neu gompactau wedi'u negodi ynglŷn â pherfformiad yn fodd i helpu i lunio'r system mewn ffyrdd sy'n cyflawni amcanion cenedlaethol a chenhadaeth sefydliadol;
- Gall proffilio sefydliadol helpu i wahaniaethu rhwng cenadaethau sefydliadol er budd y llywodraeth, sefydliadau, myfyrwyr a rhanddeiliaid, a dathlu'r amrywiaeth hon.

Gyda'i gilydd, mae'r profiadau a'r gwersi hyn yn arwain at ystyried y cyfeiriadau diwygio canlynol:

- Mabwysiadu safbwynt system ôl-orfodol a all sicrhau dull strategol a chydlynol o ddarparu addysg i bob dysgwr a chymdeithas;
- Sefydlu corff cyfryngol ôl-orfodol newydd gyda'r awdurdod deddfwriaethol i ymgymryd â swyddogaethau cynllunio a chydgylltu system a'u gweithredu;

- Mwy o gysondeb rhwng blaenoriaethau polisi cenedlaethol, cyllido a chenhadaeth sefydliadol, a pherfformiad a chynhyrchiant tra'n parchu ymreolaeth sefydliadol.

## 2.4 Egwyddorion arweiniol

Gan ystyried profiad Cymru a'r dyheadau iddi, a gwersi a ddysgwyd o awdurdodaethau cyfeirio rhyngwladol, mae'r egwyddorion allweddol canlynol yn ategu'r dull gweithredu a fabwysiadwyd, yr achos dros ddiwygio, a'r argymhellion:

- Safbwynt system – creu ecosystem addysg gydlynol i Gymru sy'n diwallu anghenion cymdeithas ac economi Cymru, yn awr ac yn y dyfodol;
- Dysgu am Oes – yn seiliedig ar y ffaith bod pobl yn byw bywydau hirach ac iachach, a bod cymdeithas ddemocrataidd yn dibynnu ar ddinasyddion gweithredol, ymgysylltiol a chyfrifol.
- Cyfraniad Cymdeithas – mae addysg yn cyfrannu at gymdeithas a'r economi drwy ei graddedigion, gwybodaeth newydd ac arloesedd, y mae pob un ohonynt yn hollbwysig i lwyddiant personol a chymdeithasol a chynaliadwyedd;
- Cystadleuaeth ac Amrywiaeth – sefydliadau cadarn, cystadleuol ac amrywiol, sy'n gweithio mewn ffordd gydweithredol a chyfrifol, er mwyn sicrhau mwy o ragoriaeth, atgyfnerthu cystadleurwydd a datblygu màs critigol mewn amgylchedd byd-eang;
- Canolbwyntio ar Ddysgwyr – rhoi anghenion dysgwyr o bob oedran, rhyw a thalent, drwy gydol eu bywydau gwaith, wrth wraidd y system addysg, gan alluogi a hwyluso cyfleoedd ac amgylchiadau bywyd sy'n newid dros amser;
- Ymreolaeth Sefydliadol – parch tuag at ymreolaeth sefydliadol o fewn fframwaith cyffredinol o ddull system o ddarparu addysg a chyflawni, a threfniadau llywodraethu, cyfrifoldeb ac atebolrwydd sefydliadol cryfach.

## 2.5 Argymhellion

*Mae Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer Datblygu System Addysg Ôl-orfodol o'r Radd Flaenaf i Gymru yn nodi chwe argymhelliad lefel uchel, ac is-argymhellion cysylltiedig – a all, gyda'i gilydd, helpu i wneud y newidiadau systemig sydd eu hangen er mwyn datblygu system addysg ôl-orfodol sy'n addas ar gyfer y 21ain ganrif. (Ceir manylion llawn yn Adran 6.)*

Bydd angen deddfwriaeth newydd. Dylid ymgymryd â hyn mor gyflym ac effeithlon â phosibl er mwyn osgoi unrhyw oedi diangen, cyfyngau polisi, ac aflonyddu a gwrthdynnu sylw yn y system ôl-orfodol;

1. Datblygu gweledigaeth gyffredin ar gyfer y system addysg ôl-orfodol i Gymru sy'n seiliedig ar gysylltiadau cryfach rhwng polisi addysg,

darparwyr a darpariaeth, a nodau cymdeithasol ac economaidd er mwyn sicrhau y caiff anghenion Cymru eu diogelu at y dyfodol hyd y gellir.

2. Sefydlu un awdurdod newydd – a gaiff ei alw'n *Awdurdod Addysg Drydyddol* – fel un awdurdod rheoleiddio, goruchwyllo a chydgyssylltu i'r sector ôl-orfodol.
3. Rhoi anghenion dysgwyr wrth wraidd y system addysg, drwy sefydlu llwybrau dysgu a gyrfa clir a hyblyg.
4. Dylai ymgysylltu dinesig fod yn rhan ganolog o genhadaeth greiddiol a dod yn ymrwymiad sefydliad cyfan **ym mhob** sefydliad ôl-orfodol.
5. Sicrhau gwell cydbwysedd rhwng darpariaeth addysg ac ymchwil a arweinir gan gyflenwad a darpariaeth addysg ac ymchwil a arweinir gan y galw gan symud i ffwrdd oddi wrth system a ysgogir gan alw yn y farchnad i gyfuniad o reoleiddio a chyllid sy'n seiliedig ar gystadleuaeth.
6. Creu'r polisiau, y prosesau a'r arferion priodol i annog syniadaeth hirdymor a chydgyssylltiedig well ynglŷn ag anghenion a gofynion addysgol Cymru, yn awr ac yn y dyfodol.

Materion eraill y mae angen eu hystyried wrth weithredu argymhellion:

- *Y drefn orau i'r Awdurdod Addysg Drydyddol newydd*: Bydd angen rhoi sylw pellach ynglŷn â sut y gellir symud o'r trefniadau llywodraethu presennol i system lle mae'r sector Addysg Bellach a'r sector Addysg Uwch wedi'u hintegreiddio'n un sefydliad cyfryngol rheoleiddio.
- *Cynnwys y 6<sup>ed</sup> Dosbarth*: Dylid ystyried a ddylai addysg 6<sup>ed</sup> dosbarth, sydd ar hyn o bryd o fewn cylch gwaith addysg ôl-uwchradd, gael ei chynnwys yn yr Awdurdod Addysg Drydyddol neu'r Adran Addysg a Sgiliau fel rhan o'r agenda ysgolion.
- *Adolygiad Strategol o Ymchwil*: O ystyried pwysigrwydd strategol ymchwil, mae angen dybryd am werthusiad wedi'i dargedu o allu ac adnoddau ymchwil nag y bu'n bosibl yn yr adolygiad hwn;
- *Y gydberthynas rhwng y Llywodraeth a'r Sefydliad Cyfryngol*: Dylid sefydlu Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) rhwng Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Addysg Drydyddol er mwyn darparu fframwaith ffurfiol y berthynas rhwng y llywodraeth a'r asiantaeth gyfryngol, a nodi cyfrifoldebau'r Awdurdod Addysg Drydyddol o ran rhaglen waith gytûn a deilliannau disgwylidig, ac atebolrwydd i'r Gweinidog.

### 3. System ôl-orfodol Cymru

#### 3.1 Trefniadau llywodraethu presennol

Mae sector ôl-orfodol Cymru yn chwarae rhan hollbwysig ym mywyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru, ac ym mywydau ei dinasyddion. Mae'r sector, sy'n rhychwantu 6<sup>ed</sup> dosbarth, AB ac AU, dysgu seiliedig ar waith, ac addysg oedolion a chymunedol, yn amlweddol ac amrywiol, gan ddiwallu anghenion dysgwyr o 16 oed ymlaen. Gwnaeth Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 newidiadau i gyllido a gweinyddiaeth addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru. Dros y blynyddoedd, mae'r sector wedi newid gryn dipyn o ran strwythur a threfniadaeth, llywodraethu a chyllid – ochr yn ochr â chynnydd sylweddol yn nifer y myfyrwyr, darparwyr, darpariaeth rhaglenni ac ymchwil. Mae mathau newydd o ddarparwyr wedi ymuno â'r farchnad yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae nifer sylweddol o gyrsgiau AU bellach yn cael eu haddysgu mewn colegau AB, gan arwain at ryw faint o orgyffwrdd o ran darpariaeth. Mae hyn wedi datblygu ochr yn ochr â newidiadau cyfreithiol.<sup>7</sup>

Mae lefelau cyfranogi myfyrwyr wedi bod yn anwadal dros y blynyddoedd diwethaf, gyda nifer y bobl ifanc sy'n huanu o Gymru o dan 20 oed sy'n mynd yn fyfyrwyr AB ac aeddfed a rhan-amser yn lleihau<sup>8</sup> a nifer y rhai sy'n mynd yn fyfyrwyr AU yn cynyddu'n gyson. Fodd bynnag, o bwys arbennig y mae "decline in the number and proportion of Welsh-domiciled undergraduate entrants studying in Wales."<sup>9</sup> Dros y degawd nesaf, amcangyfrifir y bydd poblogaeth Cymru yn cynyddu 3.1 y cant, gan gynyddu 6.1 y cant i 3.38 erbyn 2039. Fodd bynnag, mae amcanestyniadau proffil yn awgrymu y bydd dosbarthiad gwydr awr yn datblygu rhwng nawr a 2039: plant o dan 16 oed yn cynyddu 2.3% a'r rhai dros 65 oed yn cynyddu 44%, tra bod y rhai 16-64 yn debygol o ostwng 5.0%.<sup>10</sup> Mae'r ffactorau hyn yn cael eu dwysáu gan symudedd trawsffiniol sy'n dylanwadu ac yn effeithio ar ddewisiadau a chyfleoedd i fyfyrwyr a dewisiadau a chyfleoedd cyflogaeth a gyrfa.<sup>11</sup>

Un nodwedd bwysig o'r dirwedd hon sy'n newid fu'r duedd tuag at fwy o gydgrynhoi drwy uno er mwyn creu mwy o fas critigol, atgyfnerthu trefniadau rheoli strategol, gwella effeithlonrwydd ac ansawdd.<sup>12</sup> Nododd *Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru: Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* (2008) fod angen i ysgolion uwchradd, sefydliadau addysg bellach (SABau) a sefydliadau addysg uwch (SAUau) weithio mewn ffordd fwy cydweithredol a lleihau aneffeithlonrwydd er mwyn gwella'r cyfleoedd dysgu ôl-16 a gynigir.<sup>13</sup> O'r 13 achos o uno ers 2006, roedd naw yn cynnwys colegau AB yn unig, roedd tri yn cynnwys SABau a SAUau, ac roedd un yn cynnwys uno dau gorff AB dynodedig. Ar yr un pryd, mae'r sector AU hefyd wedi newid yn sylweddol, gyda sawl achos o gydgrynhoi a oedd yn cynnwys uno lluosog,



yn bennaf ffurfio Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a ffurfiodd ei hun o uno, a greodd y sefydliad sector deuol cyntaf.<sup>14</sup> Ers 2005, mae deddfwriaeth wedi caniatáu i sefydliadau sydd â phwerau dyfarnu graddau a ddysgir, ac o leiaf 4,000 o fyfyrwyr sy'n gyfwerth ag amser llawn, y mae o leiaf 3,000 wedi'u cofrestru ar gyrsiau lefel gradd (gan gynnwys rhaglenni gradd sylfaen) ac sy'n gallu dangos eu bod yn ystyried egwyddorion llywodraethu da fel sy'n berthnasol i'w sector, wneud cais i ddefnyddio'r teitl "prifysgol".<sup>15</sup>

Mae'r newidiadau hyn wedi arwain at dirwedd addysgol fwy amrywiol, gydag o leiaf chwe math gwahanol o sefydliadau.

- SABau sy'n darparu addysg 16-19;
- SABau sy'n darparu addysg 16-19, dysgu seiliedig ar waith ac addysg oedolion a chymunedol;
- Awdurdodau lleol sy'n darparu addysg oedolion a chymunedol;
- SAUau sy'n darparu addysg bellach;
- SAUau sy'n canolbwyntio ar addysg uwch;
- Darparwyr preifat dysgu seiliedig ar waith, a chymwysterau technegol a phroffesiynol, y mae rhai ohonynt yn cael arian cyhoeddus.

Heddiw, mae 14 o SABau sy'n cynnig cymysgedd o raglenni galwedigaethol ac academaidd, a naw prifysgol yng Nghymru, gan gynnwys Y Brifysgol Agored yng Nghymru, sy'n cynnig amrywiaeth o ddarpariaeth i israddedigion ac ôl-raddedigion.<sup>16</sup>

Gan adlewyrchu'r cymhlethdod hwn, caiff llywodraethu, rheoleiddio, sicrhau ansawdd a pherfformiad eu goruchwylio a'u monitro gan fyrdd o sefydliadau, y mae rhai ohonynt wedi'u lleoli yng Nghymru, ac eraill yn gweithredu o fewn system ôl-orfodol ehangach Lloegr neu'r DU. Mae'r bensaernïaeth greiddiol yn cynnwys Llywodraeth Cymru, CCAUC ac ESTYN; mae awdurdodau lleol hefyd yn chwarae rôl o ran addysg uwchradd a 6<sup>ed</sup> dosbarth.<sup>17</sup>

- Mae'r *Adran Addysg a Sgiliau (AdAS)*, ymhlith pethau eraill, yn gyfrifol yn gyffredinol am bolisi, strategaeth a chyllido addysg ôl-orfodol, gan gynnwys noddi CCAUC, ac am drefniadau rheoleiddio a chymeradwyo statudol ar gyfer pob cymhwyster, ac eithrio AU.
- Daw addysg chweched dosbarth o dan gylch gwaith Llywodraeth Cymru; fe'i darperir mewn amrywiaeth o leoliadau sefydliadol, gan gynnwys fel rhan integredig o ysgolion uwchradd, neu ar wahân mewn colegau 6ed dosbarth neu mewn colegau AB.
- Cafodd AB ei llywodraethau a'i chyllido'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, drwy'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS), ers 2006. Cyn hynny, awdurdodau lleol fu'n gyfrifol am SABau, ac yna Cyngor Cyllido Addysg

Bellach Cymru (CCABC) o 1992, a Chyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (ELWa), 2001-2006.

- Mae *Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)* yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, a sefydlwyd gan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, ac mae'n gyfrifol am AU, ymchwil a gweithgareddau cysylltiedig, ac ansawdd mewn wyth prifysgol, a gweithgareddau dysgu'r Brifysgol Agored yng Nghymru. Mae hefyd yn ariannu AU, a chyrsgiau AU mewn SABau.
- Mae *Estyn* (Arolygiaeth EM dros ysgolion a cholegau yng Nghymru) yn gyfrifol am arolygu ansawdd a safonau mewn darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru, sy'n cynnwys AB, dysgu seiliedig ar waith, ac addysg oedolion a chymunedol;
- *Sêr Cymru* yw menter Llywodraeth Cymru i ehangu gallu ymchwil prifysgolion ymchwil-ddwys yng Nghymru. Fe'i hariennir ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a CCAUC gyda chyfraniadau gan y prifysgolion unigol sy'n derbyn arian a'i nod yw cyflawni yn unol â strategaeth *Gwyddoniaeth i Gymru* Llywodraeth Cymru a luniwyd gan Brif Gynghorydd Gwyddonol Cymru ac a gyhoeddwyd yn 2012. Mae *Gwyddoniaeth i Gymru* yn diffinio tri maes Her Fawr o bwys i Gymru ac mae'r broses o ehangu ymchwil yn y meysydd hyn wedi'i hariannu ar lefel dactegol drwy raglen *Sêr Cymru*.

Yn ogystal, mae gan QAA, HEA, HESA, UCAS a HEFCE a gwahanol Gynghorau Ymchwil y DU oll gyfrifoldebau sylweddol sy'n gorgyffwrdd o fewn tirwedd AU ac ymchwil Cymru. Mae'r REF (sy'n disodli'r RAE) yn broses i'r DU gyfan, a oruchwylir gan HEFCE ar hyn o bryd. Fel rhan o system y DU ac er mwyn hwyluso mwy o gydlyniaeth a rhannu gwybodaeth/dysgu, mae'r swyddfeydd gweinidogol gwahanol yn cyfarfod â'i gilydd o dan drefniadau gwahanol, ac mae aelodau o'r cyrff cyfryngol (CCAUC, SFC a HEFCE yn ogystal â DELFNI) yn aelodau o fyrddau ei gilydd.

Mae'r dirwedd sicrhau ansawdd yn gymhleth iawn, gyda threfniadau arolygu gwahanol sydd â chyfrifoldebau gwahanol; er enghraifft, mae gan Estyn gyfrifoldeb fel y'i disgrifir uchod tra bod y QAA, gan weithredu o dan gytundeb lefel gwasanaeth â CCAUC yn goruchwyllo rhaglenni AU a ddarperir mewn SABau yn ogystal ag o fewn prifysgolion. Mae hyn yn golygu bod rhai sefydliadau yn dod o dan gylch gwaith Estyn a QAA. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rheoleiddiwr statudol cymwysterau i ysgolion a cholegau, dysgu seiliedig ar waith ac addysg i oedolion, gyda chyfrifoldeb am bolisi cymwysterau. Ym mis Medi 2015, trosglwyddwyd y swyddogaeth rheoleiddio hon i Cymwysterau Cymru, sy'n gweithio yn unol â'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (NQF) i'r DU gyfan a'r Fframwaith Credydau a Chymwysterau (QCF).

Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol fuddiannau a chyfrifoldebau mewn perthynas ag addysg. Ceir hefyd nifer o sefydliadau pwysig yn y sector gwirfoddoli, yn ogystal â sefydliadau crefft a phroffesiynol, gan gynnwys, ymhlith eraill, Colegau Cymru a Phrifysgolion Cymru, Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (CUC), a Chymdeithas Ddysgedig Cymru.

O fewn cyd-destun ehangach y DU, mae Cymru yn cysylltu'n rheolaidd â sefydliadau cyfatebol yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Mae i newidiadau a wneir yn yr awdurdodaethau hynny oblygiadau i Gymru, p'un a ydynt yn cael eu gweithredu yng Nghymru ai peidio. Felly, yn dibynnu ar y ffordd y caiff newidiadau i bensaernïaeth AU Lloegr eu cymhwyso – fel y'u cynigir yn y Papur Gwyrdd, *Fulfilling our Potential: Teaching Excellence, Social Mobility and Student Choice* (2015)<sup>18</sup> – bydd i'r Swyddfa Myfyrwyr (OfS) newydd a'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (TEF), ymhlith pethau eraill, oblygiadau i dirwedd addysg Cymru. Yn yr un modd, bydd i'r newidiadau a gynigir o dan *Ensuring a successful UK research endeavour*<sup>19</sup> oblygidau o ran ymchwil mewn prifysgolion.

O dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, roedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi sefydlu Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant, a elwid yn ELWa, fel Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad gyda'r cylch gwaith o gynllunio ac ariannu sector ôl-16 cydlynol yn 2001. Fe'i crëwyd i bontio rhwng CCABC a CCAUC er mwyn hwyluso dealltwriaeth ar draws y sectorau a datblygu rhwng y ddau sefydliad. Roedd yn cynnwys dimensiwn rhanbarthol, cydweithredol a thrawsasiaentaethol cadarn, o dan ddylanwad *Cymru'n Ennill – Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol* (2002).<sup>20</sup> Ar ôl rhai blynyddoedd anodd, cafodd ELWa, ac eithrio CCAUC, ei uno â Llywodraeth Cymru yn 2006.<sup>21</sup>

Mae newidiadau diweddar i'r ffordd y caiff AU ei hariannu wedi arwain at newidiadau yng nghyfrifoldebau CCAUC, gyda mwy o bwyslais ar ei rôl fel rheoleiddiwr o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015. Mae CCAUC wedi newid o ymwneud â chyllido'n bennaf i fod yn gorff rheoleiddio i'r system, gydag awdurdod statudol i gymeradwyo cynlluniau ffioedd a mynediad a luniwyd ar gyfer SAUau a darparwyr AU eraill yng Nghymru sy'n paratoi cynllun ffioedd a mynediad. Mae dogfen fframwaith rhwng Llywodraeth Cymru a CCAUC yn nodi'r cyd-destun y mae CCAUC yn gweithredu oddi mewn iddo ac mae'n amlinellu'r telerau ac amodau y mae CCAUC yn cael arian gan Lywodraeth Cymru yn unol â hwy. Canolbwyntiodd adolygiad cynharach o CCAUC, ymhlith pethau eraill, ar ei lwyddiant fel corff cyfryngol rhwng y llywodraeth a'r sefydliadau; yn unol â hynny, cynigiodd *Llywyddiant ac Atebolrwydd* (2011) y dylid creu sefydliad "hyd braich" newydd o'r enw Prifysgolion Cymru.<sup>22</sup>

Bu ehangu mynediad yn rhan allweddol o agenda Llywodraeth Cymru. Cyflwynwyd y *Fframwaith Llwybrau Dysgu* yn 2010 gan Fesur Dysgu a Sgiliau

(Cymru) 2009, gyda'r nod o gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n mynd ymlaen at ddysgu pellach ar ôl diwedd addysg orfodol yn 16 oed.<sup>23</sup> Fodd bynnag, mae llawer o'r anawsterau a welir ym maes addysg bellach ac uwch yn deillio o ddiffygion yn gynharach yn y cylch addysgol. Nododd *Cymwys am Oes* (2014)<sup>24</sup> broblemau a oedd yn gysylltiedig ag amrywioldeb safonau, llythrennedd a rhifedd, datrys problemau a deilliannau dysgu, a nododd *Dyfodol Llwyddiannus* (2015) ddiffygion yn y cwricwlwm ac atebolrwydd o ran deilliannau dysgu.<sup>25</sup> Fodd bynnag, nid yw system addysg ondystal â'i hathrawon, sef pwynt a bwysleisiwyd yn yr adroddiad uchod ac unwaith eto yn *Addysgu Athrawon Yfory* (2015).<sup>26</sup> Galwodd yr olaf am godi safon addysg i athrawon drwy ymgorffori hyfforddi athrawon mewn amgylchedd llawn ymchwil, a gwneud y proffesiwn yn fwy atyniadol. Dylai sicrhau cysylltiadau cryfach rhwng lefelau addysg a rhaglenni gwahanol, a chyflogaeth gael eu nodi'n fwy penodol er mwyn unioni problemau diffyg cydlyniant y system.

Mae'r system addysg wedi cael ei ffurfio gan dorfoleiddio a'r awydd am fwy o ad-drefnu i atgyfnerthu ansawdd a màs critigol er mwyn sicrhau mwy o gydlyniant mewn darpariaeth addysgol, yn ogystal â'r heriau sy'n gysylltiedig â datblygu economaidd anwastad. Gyda phoblogaeth o ychydig dros 3m o bobl, neu 5% o gyfanswm y DU, mae Cymru wedi'i rhannu'n fras yn ddau brif ranbarth – dwyrain Cymru, a gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Adlewyrchir y dirwedd ffisegol mewn gwahaniaethau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd.<sup>27</sup> Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd yw'r prif ganolfannau economaidd, tra bod y Canolbarth yn wledig yn bennaf. Mae'r economi yn newid o ddiwydiant trwm i un a arweinir gan wasanaethau gyda'r dinasoedd a grybwyllir isod "far ahead of their coalfield hinterlands in terms of the density of jobs in banking, finance and business services, in distribution (including retailing) and in public services."<sup>28</sup> Serch hynny, mae gweithgynhyrchu yn bwysicach yng Nghymru o'i chymharu â gweddill y DU, a cheir ymchwil a datblygu busnes cymharol isel a diffyg màs critigol. Mae GYG y pen yng Nghymru, sef 75.2% o gyfartaledd y DU, yn is nag unrhyw ranbarth arall yn y DU.<sup>29</sup> Mae sefyllfa Caerdydd yn ei dinas-ranbarth ehangach yn amlygu'r heriau sy'n gysylltiedig â diffyg cydbwysedd economaidd, a'r goblygiadau canlyniadol i wasanaethau, e.e. addysg ac iechyd, mewn cymunedau gwannach â pherfformiad isel sy'n bell o drafnidiaeth a marchnadoedd mawr.<sup>30</sup> I'r gwrthwyneb, mae adroddiad gan Brifysgol Caerdydd yn dangos manteision posibl sefydliad angori cadarn.<sup>31</sup> Felly mae cynaliadwyedd economaidd yn y tymor hwy yn dibynnu ar y gallu i ddatblygu cyflogaeth gystadleuol o ansawdd uchel/gwerth uchel sydd â chyflogau atyniadol yng Nghaerdydd a thu hwnt.<sup>32</sup>

Mae blynyddoedd sylfaen datganoli<sup>33</sup> hefyd wedi chwarae rhan bwysig i lunio system sydd â dyheadau cymdeithasol unigryw<sup>34</sup> ochr yn ochr â newidiadau parhaus o fewn system ehangach y DU ac yn enwedig Lloegr a'i ffocws ar y farchnad.<sup>35</sup> Mae newidiadau strwythurol, sefydliadol a chyfreithiol wedi dod yn

eu sgil. Mae'r dirwedd gymhleth sydd wedi datblygu wedi mynd hyd yn oed yn fwy cymhleth oherwydd y ffordd y mae rhannau unigol o'r system wedi ymateb i heriau yn unol â'u hanghenion a'u blaenoriaethau eu hunain, ac o ystyried y niferoedd is o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio yng Nghymru (ar lefel AB neu AU) mae hyn wedi cynyddu'r gystadleuaeth rhwng sefydliadau. Oherwydd y tueddiadau demograffig bydd angen i Gymru nodi ffyrdd o ddatblygu ei phoblogaeth a'i gweithlu ymhellach, a'u cadw yn ogystal â denu eraill, gan gynnwys y rhai sydd wedi gadael. Mae hyn yn dod â heriau polisi a llywodraethu penodol yn ei sgil o ran llunio amcanion a thargedau ar lefel system, a chydbwysio anghenion ac uchelgeisiau cenedlaethol Cymru â'r rhai sydd gan sectorau a sefydliadau unigol.

## **3.2 Themâu a materion sy'n dod i'r amlwg**

Casglwyd tystiolaeth oddi wrth amrywiaeth eang o randdeiliaid allweddol o bob rhan o'r system ôl-orfodol yng Nghymru a hefyd yn y DU yn fwy cyffredinol. Darparwyd dogfen fframwaith frifio i ysgogi trafodaeth. Drwy gydol y broses, trafodwyd llawer o faterion a heriau sy'n gysylltiedig â'r fframwaith llywodraethu presennol yn ogystal â materion a oedd yn ymwneud yn fwy cyffredinol â'r system ôl-orfodol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn cyflwyno rhai o'r themâu a'r materion cyffredin a godwyd drwy gydol y broses hon; mae hefyd yn ystyried materion a godwyd yn ystod yr adolygiad o drefniadau cyllido AU a chyllid myfyrwyr lle maent yn berthnasol i gylch gorchwyl yr adolygiad hwn.<sup>36</sup> Ni fwriedir i hwn roi cyfrif cynhwysfawr o'r cyfweiliadau na'r sylwadau a gyflwynwyd ond, yn hytrach, mae'n ddangosol, gan nodi rhai o'r materion allweddol a godwyd. Ni lunnir barn ynglŷn â gwerth, arwyddocâd na chywirdeb unrhyw un o'r sylwadau a safbwyntiau gwahanol sydd, yn aml, yn amrywiol. Trefnir materion gyda'i gilydd o dan themâu cyffredin, ac ni chânt eu cyflwyno mewn unrhyw drefn flaenoriaeth benodol (gweler Atodiad Ch).

### **3.2.1 Statws ac ansawdd y system addysg**

Mae barn gyffredinol bod ansawdd a pherfformiad cyffredinol y sector AB a'r sector AU yn dda, a'u bod yn diwallu anghenion myfyrwyr a chymdeithas ar y cyfan. Mae pob rhan o'r system ôl-orfodol wedi mynd drwy newid strwythurol sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan arwain at fwy o gydlyniant rhwng ac o fewn darpariaeth 6<sup>ed</sup> dosbarth, AB ac AU, a phartneriaethau newydd rhwng sefydliadau a chyflogwyr. Fodd bynnag, nodwyd llawer o heriau hefyd.

Awgrymodd rhai pobl fod y sefydliadau liaws, gyda llawer ohonynt yn cynnig cymwysterau a chyrsgiau tebyg, a nifer yr asiantaethau gwahanol, wedi creu tirwedd gymhleth a oedd yn ddryslyd yn ddiangen i ddysgwyr a rhanddeiliaid eraill. Er bod ehangu ar ôl 1992 wedi cynyddu cyfran y myfyrwyr sy'n astudio'n

lleol, cafwyd canfyddiad bod y lleihad yng nghyfanswm y myfyrwyr aeddfed a'r myfyrwyr sy'n hynu o Gymru sy'n dymuno astudio yng Nghymru – a ysgogir yn rhannol gan y trefniadau cyllido myfyrwyr – yn dwysáu'r gystadleuaeth rhwng sectorau'n ddiangen.

Gwnaeth eraill sylwadau ar y nifer gymharol isel o fyfyrwyr sy'n mynd drwy'r system. Ni roddwyd digon o sylw i fyfyrwyr nad aethant ymlaen i'r brifysgol nac i fyfyrwyr aeddfed a myfyrwyr sy'n ferched y nodwyd bod eu cyfleoedd addysgol yn gyfyngedig ac yn draddodiadol iawn yn yr achos olaf. Roedd gan fyfyrwyr 6ed dosbarth traddodiadol a oedd yn sefyll arholiadau Safon Uwch lwybr dysgu llawer cliriach na myfyrwyr eraill. Yn hyn o beth, mynegwyd rhai amheuan a oedd yr agenda ehangu mynediad yn cael ei chyflawni neu y gellid ei chyflawni. Cafwyd sylwadau beirniadol hefyd gan wahanol rannau o'r system ynglŷn ag ansawdd addysg a'r graddau yr oedd myfyrwyr yn barod i fynd yn eu blaen. Mynegwyd pryder hefyd ynglŷn â myfyrwyr hŷn ac addysg ran amser. Ac eithrio'r Brifysgol Agored, i ddysgwyr 16-22 oed y rhoddwyd y sylw mwyaf.

Yn unol â hynny, codwyd pryderon ynglŷn â chyfleoedd i raddedigion, gan SABau a SAUau, ac atyniad Cymru fel lleoliad cyflogaeth a gyrfa, yn enwedig i fyfyrwyr â chymwysterau uwch. Roedd y graddau yr oedd cyfatebiaeth ddigonol rhwng darpariaeth addysgol a gofynion cymdeithasol ac economaidd Cymru yn thema a gododd dro ar ôl tro. Cafodd pryderon o'r fath eu hadlewyrchu hefyd mewn heriau a oedd yn gysylltiedig â sicrhau gweithlu dwyieithog.

Gwnaeth llawer o bobl sylwadau ar y rhyngysylltedd rhwng marchnadoedd addysg a chyflogaeth Cymru a Lloegr, gan nodi bod hynny o fudd enfawr i fyfyrwyr, SABau a SAUau, a Chymru. Fodd bynnag, roedd rhai yn gresynu at y ffaith bod y Gymru ddatganoledig fel petai'n adweithio i'r hyn a oedd yn digwydd yn Lloegr, ac nad oedd eto wedi gosod ei marc ei hun ar bolisi AB ac AU. Roedd teimlad bod angen i'r ddadl yng Nghymru ym mhob sector ganolbwyntio ar greu math gwahanol o weithlu ar gyfer y dyfodol, sy'n ddwyieithog. Nid yw hyn yn golygu y dylai Cymru fod wedi'i hynysu ond, yn hytrach, mae angen iddi ystyried ei hun o fewn cyd-destun ehangach.

Yn olaf, mynegwyd pryderon hefyd ynglŷn â'r ansicrwydd o fewn y system a achosir gan yr adolygiadau liaws dros y blynyddoedd diwethaf, cynaliadwyedd hirdymor y system a chyllid myfyrwyr, yr amgylchedd cynyddol gystadleuol, a'r newidiadau posibl sy'n digwydd yn Lloegr ynghyd â'r goblygiadau canlyniadol i Gymru. Trafodir y materion hyn a materion eraill isod.

### **3.2.2 Cysylltedd rhwng systemau addysg uwch Cymru a'r DU**

Mae prifysgolion Cymru yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r economi, gyda sgil-ffeithiau sylweddol i rannau o Gymru lle nad oes prifysgol.<sup>37</sup> Roedd eu perfformiad ym maes ymchwil, a oedd yn amlwg iawn yn y REF diweddar, wedi

parhau i wella, gan dynnu sylw at y ffaith, er gwaethaf eu cyfran gymharol fach o arian, fod prifysgolion Cymru yn cynhyrchu cyfran o gyhoeddiadau, cyfeiriadau ac erthyglau a ddyfynnir yn aml na'r cyfartaledd. Roedd y prifysgolion yn chwarae rhan weithredol mewn gweithgarwch masnacheiddio ac arloesedd, gyda pharciau gwyddoniaeth newydd a chlystyrau technoleg yn unol â strategaethau arbenigo deallus. Er y bydd yn cymryd amser i sicrhau canlyniadau, y disgwyl oedd y dylai'r datblygiadau hyn arwain at gyfleoedd swyddi da.

Roedd bod yn rhan o system AU ac ymchwil ehangach y DU yn bwysig iawn. Pa newidiadau bynnag a gynigir gan yr adolygiad hwn, yn ogystal â'r adolygiad cyfocrog o gyllid, roedd yn hanfodol bod y berthynas hon rhwng y DU a Chymru yn cael ei chynnal. Cyfeiriwyd at bwysigrwydd sicrhau cydlyniaeth y system Sicrhau Ansawdd at ddibenion cymharu a meincnodi yn ogystal â'r ffordd y caiff AU Cymru ei marchnata fel rhan o frand y DU. Gwnaed sylwadau ynglŷn â materion ansawdd academiaidd ac ymchwil, a phryder y gallai unrhyw wyro oddi wrth y cyswllt hwn gael ei gamddeall gan fyfyrwyr a chynulleidfaoedd rhyngwladol. I'r un perwyl, mynegwyd pryderon ynglŷn â'r graddau y gallai newidiadau arfaethedig yn statws SAUau effeithio ar statws prifysgolion o ran cyllido a ph'un a ydynt yn sefydliadau o fewn y llywodraeth (nad ydynt).

Roedd pawb yn unfrydol bod y REF yn feincnod ymchwil pwysig, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Fodd bynnag, mwy cymysg fu'r farn ynglŷn â'r TEF arfaethedig. Er bod rhai yn bendant y dylai Cymru gymryd rhan yn y TEF, roedd eraill yn llai sicr, gan awgrymu y dylai prifysgolion Cymru edrych ar yr hyn sy'n deillio o'r broses TEF a phenderfynu a ddylai ei mabwysiadu, ei haddasu neu fynd ei ffordd ei hun.

Nododd llawer o bobl natur fylchog y ffin o ran symudedd myfyrwyr, graddedigion a llafur. Roedd bod yn rhan o'r DU ehangach yn esgor ar fanteision o ran "dosbarthu doniau" ond roedd goblygiadau llai ffafriol. Mae hyn yn cynnwys lefel y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n symud allan o Gymru ac i'r gwrthwyneb gorddibyniaeth rhai prifysgolion ar fyfyrwyr yn dod i mewn o Loegr, gyda rhai pobl yn holi ynglŷn â gwerth am arian i drethdalwyr Cymru. Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod myfyrwyr yn dychwelyd yn y byrdymor, neu'n ddiweddarach yn eu bywydau, oherwydd dewisiadau ffordd o fyw, yr oedd busnesau yn teimlo eu bod yn cael budd o hynny.<sup>38</sup> Serch hynny, awgrymodd gwahanol bobl, o ystyried y prinder cyfleoedd cyflogaeth a thuedd graddedigion â chymwysterau uwch i ymfudo, y gallai ehangu darpariaeth ôl-orfodol/AU ond ychwanegu at y llif o raddedigion o'r fath sy'n ymfudo oni bai bod mwy o gysondeb rhwng y system addysg a datblygiad cymdeithasol, diwylliannol a pholisi economaidd.

### 3.2.3 Statws a rôl addysg bellach

Nodwyd bod AB yn cynnwys set amrywiol o sefydliadau a grwpiau sefydliadol, gyda rhai SABau yn uniongyrchol gysylltiedig â SAUau drwy bartneriaethau a chysylltiadau ffurfiol a/neu anffurfiol. Mae'r mwyafrif helaeth o fyfyrwyr rhwng 16 a 19 oed, sydd wedyn yn ceisio cyflogaeth; mae grŵp llai o ddysgwyr seiliedig ar waith hŷn yn ymgymryd â phrentisiaethau. Fodd bynnag, roedd ymdeimlad nad oedd y sector AB yn cael ei werthfawrogi'n llawn ac felly na allai weithredu i'w lawn botensial. Cyflwynwyd amrywiol resymau, gan gynnwys yr amrywiaeth o heriau y mae'r sector yn eu hwynebu sy'n deillio o dangyflawniad cronig mewn polisi economaidd a chymdeithasol, a daearyddiaeth. Roedd yr olaf wedi arwain at sefyllfa lle roedd y ddarpariaeth o nifer o wasanaethau yn ymgymysgu â chysylltiadau ac arferion traddodiadol, a oedd yn rhwystro partneriaethau eraill, mwy priodol o bosibl, rhag cael eu ffurfio, a chyfyngu ar ddewis myfyrwyr. Roedd elitiaeth hefyd yn ffactor a oedd yn dylanwadu ar ganfyddiadau ac agweddau poblogaidd.

Felly, cafwyd safbwyntiau croes o fewn cymdeithas ac yn y system addysg ynglŷn â rôl a diben AB. Dadleuwyd bod rhai pobl fel petaent yn gweld AB fel darpariaeth sy'n dysgu sgiliau i bobl i fynd eu blaen, ar ffurf rhyw fath o gludfelt. Yn y farn hon, nid oedd cymhwyster AB yn cael ei werthfawrogi yn ei rinwedd ei hun. Awgrymodd barn ychydig yn wahanol y dylai AB fod yn fwy ymatebol i'r farchnad lafur; fodd bynnag, gallai fod yn anodd pennu'r cydbwysedd priodol rhwng cyflenwad a galw oherwydd y graddau yr oedd y farchnad lafur yn troi ac yn newid. O ystyried diffyg llwybrau addysgol cydlynol a methiannau'r farchnad lafur, teimlwyd ei bod yn hanfodol bod cymaint o "gymwyseddau" â phosibl yn cael eu dysgu i fyfyrwyr er mwyn cynnal uchelgeisiau yn y dyfodol, ac ategu anghenion sgilio/ailhyfforddi parhaus. Fodd bynnag, cyflwynwyd senario a oedd yn achos gofid – sef un lle roedd graddedigion â chyrhaeddiad is yn tueddu i aros yng Nghymru, tra bod myfyrwyr lefel uwch yn tueddu i adael; mae hyn yn taro tant yn enwedig o ran sut y canfyddir AB o'i chymharu ag AU.

Er y rhoddir llawer o bwyslais ar rôl AB i ategu sgiliau cyflogaeth, dadleuodd eraill fod gan AB rôl ehangach a oedd yn cynnwys trechu tlodi, rhoi gwell cyfleoedd o ran rhywedd, ategu cynaliadwyedd cymdeithasol ac economaidd, ac ati.<sup>39</sup>

Roedd barn gyffredinol bod y sector AB yn fwy agored i drafod ei sefyllfa o fewn cymdeithas Cymru oherwydd y ffordd yr oedd yn canfod ei hun fel rhan o'r sector cyhoeddus yn cyflawni rôl gwasanaeth cyhoeddus. Mynegodd llawer o bobl y farn bod yr adolygiad penodol hwn yn amserol oherwydd newidiadau sy'n digwydd yn Lloegr. Yn yr un modd, roedd ymatebwyr o'r farn ei bod yn bwysig mabwysiadu safbwynt cyfannol tuag at y sector AB ac AU oherwydd byddai newidiadau yn y naill ran yn anochel yn effeithio ar y llall.



### 3.2.4 Y dirwedd Ôl-uwchradd

Mae sector ôl-uwchradd Cymru yn amrywiol, gan gwmpasu dysgwyr o 16 oed i oedolion, gan roi llu o gyfleoedd addysgol o 6<sup>ed</sup> dosbarth, rhaglenni galwedigaethol ac academaidd o fewn AB ac AU, dysgu seiliedig ar waith ac addysg oedolion a chymunedol. Ceir enghreifftiau o gysylltiadau da i ragorol rhwng SABau a SAUau, gyda chysylltiadau rhwng sefydliadau unigol ar gyfer mentrau penodol, y mae rhai ohonynt wedi arwain at gynghreirio agosach ac uno. Teimlai rhai pobl fod y trefniadau grŵp, rhwng SABau a SAUau, yn fodel da.

Fodd bynnag, mynegwyd y farn hefyd fod yr enghreifftiau hyn o “arfer da” yn gyfnodol ac yn unigolyddol. Yn gyffredinol, y farn oedd bod y dirwedd ôl-uwchradd yn rhy gymhleth, gyda sefydliadau’n gorgyffwrdd a dyblygu adnoddau a rhaglenni. Roedd SABau a SAUau yn canolbwyntio gormod ar eu hagendâu eu hunain, heb fawr ddim tystiolaeth o gydberthnasau gwaith gwirioneddol rhyngddynt. Nid oedd digon o drafodaeth ynglŷn ag anghenion dysgwyr na llwybrau dysgu na phontio rhwng rhannau o’r system. Roedd y pryder hwn hefyd yn amlwg yn y ffaith na fu fawr ddim cyfeiriadau at ddysgu seiliedig ar waith nac addysg oedolion a chymunedol.

Cyflwynwyd safbwyntiau gwahanol ar y materion hyn. Gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â pham bod y berthynas rhwng AB ac AU wedi’i chynnwys yng nghylch gorchwyl yr adolygiad hwn. Cododd y cwestiwn hwn o’r sylw nad yw’r mater hwnnw yn denu llawer o drafodaeth; yn yr un modd, anaml iawn y trafodwyd pontio rhwng y ddau sector. Mewn gwrthgyferbyniad, roedd y ffaith bod darpariaeth a oedd yn gorgyffwrdd yn golygu y gallai myfyrwyr ddewis beth roeddent am ei astudio a ble.

Mynegodd eraill fod angen gwell cydlynu a chydweithredu drwy’r system gyfan. Codwyd rhai pryderon hefyd ynglŷn ag ansawdd y rhaglenni a ddarperir, gyda rhai yn addysg uwch yn teimlo nad oedd myfyrwyr yn cael eu paratoi’n ddigonol gan arwain at SAUau yn cynnig rhaglenni yn SABau. I’r gwrthwyneb, roedd SABau yn anfodlon ar y ffordd yr oedd sefydliadau AU yn tueddu i’w bychanu. Roedd cred bod y system yn canolbwyntio gormod ar y byrdymor a’r tymor canolig yn hytrach na’r weledigaeth yn y tymor hwy i fyfyrwyr; roedd hyn yn berthnasol i sicrhau bod gan raddedigion y galluoedd priodol o ran llythrennedd a mathemateg, yn ogystal â sgiliau cyflogadwyedd. Roedd diffyg dyletswydd gofal o ran pontio rhwng rhannau o’r system. Felly, roedd ymdeimlad cryf nad oedd y system bresennol yn gweithio cystal ag y gallai, ac nad oedd yn ddymunol (neu ddim yn ddymunol mwyach) cael ffiniau caeth rhwng rhannau o’r sectorau ôl-orfodol.

Ystyriwyd sgiliau cyflogadwyedd i ryw raddau ond ni thrafodwyd y mathau gwahanol neu fwy hyblyg o nodweddion, megis cymhwysedd neu gymwysterau y gellir eu pentyrru ac y gellid eu cynnig i ddiwallu anghenion dysgwyr aeddfed

neu ddysgwyr sy'n weithwyr sy'n ennill cyflog. Ni roddwyd fawr ddim ystyriaeth i'r llwybrau dysgu o'r 6<sup>ed</sup> dosbarth drwy AB ac AU, ac nid oedd neb yn ystyried mewn gwirionedd ble mae myfyrwyr yn mynd ar ôl gorffen. Yn rhy aml, rhoddwyd pwyslais ar y swydd gyntaf yn hytrach na'r ail neu'r drydedd swydd, yn enwedig gan fod pobl yn byw'n hirach. Nid oedd neb yn ystyried y dysgwr ar ôl 22 oed – naill ai'r myfyrwyr Meistr neu'r myfyrwyr doethurol na dysgwyr aeddfed eraill, gan gynnwys y rhai sy'n ceisio ymuno neu ailymuno â'r system addysg. Roedd rhai sefydliadau'n fwy parod nag eraill, ond roedd arweiniad, gwaith paratoi a rhagolwg yn amrywio, yn dibynnu ar y sefydliad.

Gwaethygyd y sefyllfa hon gan y ffaith bod gallu ac adnoddau addysg a chynllunio economaidd-gymdeithasol yn gyfyngedig, ac nad yw deallusrwydd economaidd wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Roedd llawer o ddata yn cael eu casglu, ond nid oeddent yn cael eu hystyried mewn ffordd gydlynol na thrawslywodraethol. Yn yr un modd, nid oedd unrhyw le ffurfiol i drafod materion o'r fath; i'r graddau yr oedd trafodaethau yn cael eu cynnal, roeddent yn digwydd fel arfer ar gyrion digwyddiadau neu gyfarfodydd eraill. Roedd y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol<sup>40</sup> newydd yn dechrau hwyluso trafodaethau o'r fath rhwng SABau a SAUau ynglŷn â sgiliau a chyflogadwyedd, ond megis cychwyn yr oedd y broses honno.

Ystyriwyd bod amrywiaeth dewis a darpariaeth addysgol yn hanfodol i unrhyw gymdeithas ddatblygedig, ond teimlai llawer yn y sector AB nad oedd parch cydradd, gyda'r sector AU yn cael ei ystyried fel y prif lais. Roedd eraill yn cwestiynu i ba raddau yr oedd SABau a SAUau yn ystyried eu hunain yn rhan o system gydlynol yn hytrach na sectorau unigol.

### **3.2.5 Seilwaith a chymhwysedd addysg ac ymchwil**

Gwnaed sylwadau amrywiol ynglŷn â maint cymharol fach system addysg ac ymchwil Cymru. Cafwyd safbwyntiau cadarnhaol ynglŷn â dosbarthiad sefydliadau addysgol ledled Cymru, ond awgrymodd eraill fod hyn wedi annog sefyllfa wedi'i dadgyfuno heb fawr ddim cydlyniaeth. Dywedodd rhai pobl mai daearyddiaeth oedd yn cyfrif am yr anawsterau hyn ond awgrymodd eraill fod diffyg meddwl cydgysylltiedig ar lefel y llywodraeth. Mynegodd sawl un y farn nad oedd digon o feddwl strategol gan y llywodraeth na chan y sefydliadau a arweiniodd at gystadleuaeth ddiangen am adnoddau prin nad oedd fawr ddim budd i Gymru.

Mae'r problemau hyn yn amlwg iawn ym maes ymchwil. Er bod perfformiad ymchwil wedi gwella, cyfyngedig yw'r gallu o hyd; mae nifer yr ymchwilwyr, yn enwedig ym meysydd STEM dipyn yn is na'r hyn a fyddai'n briodol mewn gwlad o faint Cymru. Mae prifysgolion unigol yn ceisio gwella eu perfformiad eu hunain, ac wedi dechrau canolbwyntio eu hymdrechion ar ddatblygu cymhwyseddau craidd ac arbenigedd mewn meysydd strategol penodol. Yn yr

un modd, canolbwyntiodd cryn ymdrech yn ddiweddar ar ddatblygu parciau gwyddoniaeth ac arloesedd.

Er bod yr holl ddatblygiadau hyn i'w croesawu, roedd rhai pobl yn pryderu bod buddiannau strategol sefydliadol unigol yn arwain at gydweithredu annigonol ac felly ddiffyg màs critigol. Cafwyd rhywfaint o bryder hefyd ynglŷn â'r diffyg cyswllt rhwng blaenoriaethau cenedlaethol Cymru a gweithgarwch ymchwil a chyllid sy'n deillio o drefniadau llywodraethu a deialog lefel uchel annigonol, diffyg eglurder ynglŷn â blaenoriaethau a pholisïau priodol, a diffyg ffocws ar ganlyniadau ac effaith. Teimlwyd y byddai'r ffactorau hyn yn tanseilio gallu strategol Cymru ac yn cynnig heriau sylweddol i Gymru mewn amgylchedd cynyddol gystadleuol yn y DU gyfan ac yn rhyngwladol.

Mynegwyd pryder hefyd ynglŷn â'r effaith debygol y bydd newidiadau sy'n deillio o Adolygiad Nurse o seilwaith cyllido ymchwil (2015) yn eu cael ar Gymru.<sup>41</sup> Ynghyd â materion eraill, roedd barn bod angen ei strategaeth, ei threfniadau llywodraethu a'i seilwaith ymchwil ei hun a oedd yn diwallu ei hanghenion orau.

### **3.2.6 Rôl sefydliadau cyfryngol**

Cydnabuwyd bod trefniadau llywodraethu gwahanol wedi datblygu dros yr 20 mlynedd diwethaf i'r sector AB a'r sector AU fel ei gilydd. Ymhlith y rhanddeiliaid, roedd safbwyntiau gwahanol a chroes ynghylch a oedd y system bresennol yn gweithio'n dda, a ddylai barhau neu a ddylid cyflwyno trefniadau newydd.

Mynegodd rhai pobl y farn nad oedd y trefniadau gwahanol yn fuddiol o ran hyrwyddo gwell dealltwriaeth a chydlyniaeth, ond roedd eraill o'r farn bod y ddau sector ar wahân i'w gilydd, gyda rolau a chyfrifoldebau gwahanol ac felly fod angen trefniadau gwahanol. Roedd pryder pe bai AB a AU yn cael eu cyfuno, y byddai AB yn cael ei ystyried yn "Sinderela" – er i'r Alban gael ei chrybwyll fel gwlad a oedd wedi gwneud hyn yn llwyddiannus. Mynegwyd ychydig o bryder ynglŷn â difodiad ELWa a oedd wedi creu fframwaith cyffredinol lle y gallai AB ac AU gydweithio â'i gilydd.

Pwnc arall a drafodwyd oedd rôl CCAUC. Roedd cydnabyddiaeth gyffredinol gan y sector AB a'r sector AU fod bodolaeth CCAUC fel corff cyfryngol wedi bod o fudd i Gymru ac i'r sefydliadau, fel llais annibynnol i brifysgolion tra'n gweithio gyda hwy i gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth, a'u galluogi i weithio ar draws adrannau gwahanol y llywodraeth yn effeithiol heb fod yn "rhy wleidyddol". Roedd rôl gyfatebol o ran diogelu ymreolaeth a rhyddid academaidd sefydliadau. Roedd cydnabyddiaeth hefyd bod CCAUC wedi cael ei sefydlu ar sail model cyllido traddodiadol, ac nad oedd y rôl honno yn ddaliadwy mwyach o ystyried datblygiadau polisi eraill. Byddai angen ystyried

newidiadau mewn deddfwriaeth ddiweddar ynglŷn â chyfrifoldebau rheoleiddio CCAUC mewn unrhyw drefniadau llywodraethu yn y dyfodol.<sup>42</sup> Soniodd rhai pobl AB yn gadarnhaol am y rôl yr oedd CCAUC yn ei chwarae o ran y sector AU, tra bod eraill yn teimlo os oedd llywodraethu uniongyrchol yn ddigon da i addysg bellach, yna dylai'r un trefniadau fod yn gymwys i addysg uwch.

Gellir crynhoi'r safbwyntiau gwahanol fel a ganlyn:

- Dylai AB ac AU barhau i gael eu trin yn wahanol fel dau sector ar wahân, am fod eu rôl a'u hanghenion yn eithaf gwahanol, ac felly dylai'r trefniadau llywodraethu adlewyrchu'r gwahaniaethau hyn;
- Dylai AB ac AU gael eu trin yn yr un modd, fel un sector ôl-orfodol i bob diben, gan adlewyrchu'r rhyngysylltedd cynyddol rhwng y ddau sector, ac felly:
  - Dylai AB ac AU ddod o fewn cylch gwaith yr Adran Addysg a Sgiliau yn uniongyrchol;
  - Dylai AB ac AU gael eu goruchwyllo gan gorff cyfryngol ar wahân.

Gan edrych i'r dyfodol, roedd ymdeimlad cryf nad oedd y model presennol yn sicrhau polisi cyhoeddus effeithlon ac effeithiol ac nad oedd yn gallu gwneud penderfyniadau da. Er gwaethaf y pryderon a godwyd uchod, roedd cefnogaeth gyffredinol i ddod â'r sectorau AB ac AU yn nes at ei gilydd, gyda llawer o leisiau yn argymhell bod angen asiantaeth newydd unigol fel rhan o'r ateb. Cefnogwyd y farn hon yn aml drwy gyfeirio at faint Cymru, gan awgrymu y gallai corff unigol oresgyn problemau sefydliadau'n gorgyffwrdd a dyblygu adnoddau yn haws ac yn fwy effeithiol tra'n manteisio i'r eithaf ar ei maint i fod yn fwy cydweithredol a chryfhau'r gallu i wella ansawdd a chystadleurwydd. Dylai corff o'r fath ei gwneud yn bosibl i weledigaeth gael ei chyflwyno a fyddai'n mynd y tu hwnt i fentrau unigol neu raglenni gweithgarwch ar lefel sefydliad. Fodd bynnag, roedd angen iddo barchu rolau gwahanol a chyflenwol pob rhan o'r system, gan gynnig llwybrau dysgu mwy effeithiol o'r 6<sup>ed</sup> dosbarth, AB ac AU, dysgu seiliedig ar waith ac addysg oedolion a chymunedol. Dylai'r strwythur llywodraethu oruchwyllo, hyrwyddo ac arwain y newidiadau sydd eu hangen, a chynnig dull cyfannol o weithredu, tra'n parchu ymreolaeth sefydliadau.

### **3.2.7 Ymgysylltu â chymdeithas Cymru a'r economi**

Dros y blynyddoedd, mae sefydliadau addysgol Cymru wedi chwarae rôl bwysig o ran datblygu cymdeithas ac economi Cymru. Yn ddiweddar, rhoddir mwy o sylw i sgiliau a chyflogadwyedd ar bob lefel, ac anghenion ehangach Cymru. Cyfeiriodd llawer o'r sefydliadau at bartneriaethau strwythuredig cadarn â chyflogwyr. Roedd y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn cael eu canmol ar

y cyfan fel datblygiad cadarnhaol. Ond erys yr her yn un ddwyochrog o hyd: datblygu economi gwerth uchel atyniadol gyda graddedigion â chymwysterau da ar bob lefel o'r dirwedd ôl-orfodol.

Economi micro-BBChau sydd gan Gymru yn y bôn, sy'n cynnwys cyflogaethau gweithgynhyrchu a gwasanaethau lefel isel, ond ceir rhai cyflogwyr mawr iawn hefyd. Mae dibyniaeth fawr ar y sector cyhoeddus. Er bod pobl yn nodi gofai cymdeithasol fel maes sy'n tyfu oherwydd demograffeg roedd cydnabyddiaeth nad oedd lefel y ddibyniaeth yn gyson â'r newidiadau tebygol mewn cyllid cyhoeddus. Mae Caerdydd yn eithriad gan fod ganddi sylfaen economaidd ehangach a dyfnach, a'i bod yn fwy integredig ag economi'r DU – ac mae i hynny oblygiadau hefyd o ran ei sefydliadau. Yn y dyfodol, dadleuwyd, bydd angen rhoi mwy o sylw ar ddatblygu haen ganol gadarn o gwmnïau sy'n hanu o Gymru, yn seiliedig ar gysylltiadau agosach rhwng anghenion economaidd a sefydliadau addysgol, yn enwedig er mwyn gwneud yr economi yn fwy atyniadol i gadw myfyrwyr a graddedigion yng Nghymru.<sup>43</sup> Yn y pen draw, dylai unrhyw fyfyrwr/myfyrwraig fod yn gallu ymgymryd â'i holl astudiaethau addysgol yng Nghymru a dod o hyd i gyflogaeth addas – nad yw'n digwydd ar hyn o bryd. Ac er nad oedd dim byd yn atal pobl rhag mynd i'r brifysgol, cyfyngedig yw'r cyfleoedd (wedi'u hariannu) i ymgymryd â chymwysterau uwch/ôl-raddedig yng Nghymru, ac yna symud i gyflogaeth.

Bu gwahanaieth barn ynglŷn â'r cwestiwn o gydbwysedd rhwng gwasanaethu Cymru o gymharu â gwasanaethu eu sefydliad. Mynegodd llawer y farn nad oedd digon o gysylltedd rhwng rhaglenni addysgol a datblygiad cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru yn y dyfodol. Nid oedd unrhyw gysylltiad dwfn â Chymru fel rhanbarth am fod y sefydliadau wedi'u sbarduno gan y galw ymhlith myfyrwyr; felly roeddent yn tueddu i gael eu harwain gan gyflenwad yn erbyn galw. Yn achos y prifysgolion, roedd llawer o'r myfyrwyr yn dod o Loegr, ac yn dychwelyd i Loegr. Awgrymodd eraill fod angen lleddfu'r berthynas yn y fath fodd fel nad oedd yn ymwneud â'r hyn yr oedd cyflogwyr am ei gael – gan y gallai hyn amrywio – oherwydd bod gan addysg gylch gwaith ehangach.

Mynegodd llawer o bobl bryder fod diffyg cynllunio at y dyfodol, ar wahân i ymateb i anghenion cyflogwyr. Nid oedd neb yn ystyried y diffyg cydbwysedd mewn darpariaeth na chyfleoedd symudedd na chyfyngiadau i fyfyrwyr. Roedd diffyg cydlynol strategol rhwng addysg a datblygiad cymdeithasol ac economaidd yn Llywodraeth Cymru, ac o fewn y system addysg yn gyffredinol neu rhwng rhannau o'r system. Daeth pobl at ei gilydd ar faterion penodol, ond nid oedd yr un corff unigol yn gyfrifol am gydlyn.

O ganlyniad, roedd angen fframwaith cynllunio mwy cydlynol a oedd yn cynnwys trosglwyddo gwybodaeth, darpariaeth yn Gymraeg, a rhannu arfer da a chamau gweithredu i lenwi bylchau mewn sgiliau lefel uwch a hyrwyddo datblygu busnes. O ystyried yr heriau cymdeithasol ac economaidd, i ba

raddau y mae'r sector ôl-orfodol yng Nghymru wedi'u trefnu'n dda i ymateb iddynt? Beth sydd angen ei newid?

### 3.3 Y prif negeseuon

Yn seiliedig ar ymgynghoriad â rhanddeiliaid, gellir crynhoi'r prif negeseuon fel a ganlyn:

- Mae sefydliadau ôl-orfodol wedi chwarae rôl bwysig yn hanes Cymru ond mae angen newid sylweddol;
- Mae cystadleuaeth gynyddol yn y DU ac yn rhyngwladol, ochr yn ochr â newidiadau yn nhrefniadau llywodraethu Addysg Uwch yn Lloegr, yn cynnig heriau ond hefyd gyfleoedd i Gymru;
- Diffyg meddwl strategol gan y llywodraeth neu gan y sefydliadau, ar bob lefel, gan arwain at ddiffyg cydweithredu, diffyg màs critigol, a gormod o gystadleuaeth am adnoddau prin heb fawr ddim budd i Gymru;
- Diffyg gweledigaeth gyffredinol ar gyfer y system ôl-orfodol wedi'i chysoni ag anghenion cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, yn awr ac yn y dyfodol.
- Amryfusedd ynglŷn â'r rolau sy'n gorgyffwrdd a dyblygu adnoddau, rhwng ac ar draws gwahanol sefydliadau, rhwng addysg bellach ac addysg uwch a rhwng gwahanol asiantaethau;
- Diffyg llwybrau dysgu cydlynol a chyfleoedd addysgol i fyfyrwyr, o bob oedran, rhyw a thalent, o'r ysgol, i/drwy addysg bellach ac addysg uwch, ac yn enwedig drwy gydol eu bywydau gwaith;
- Yr anallu i ddenu a chadw talent yng Nghymru oherwydd cyfleoedd addysgol (gan gynnwys lefel ôl-raddedig) a chyflogaeth annigonol.
- Cyfeirnodau cyffredin pwysig o ran prifysgolion Cymru sy'n gweithredu yn y DU, sef fframwaith cymwysterau, sicrwydd ansawdd, ymchwil, rhyngwladoli a brandio, ymhlith pethau eraill;
- Gall sefydliadau cyfryngol helpu i sicrhau prosesau gwneud penderfyniadau hirdymor strategol a gwrthrychol;
- Diffyg gallu strategol a meddwl cydgysylltiedig yn gyffredinol yn y llywodraeth a sefydliadau a rhyngddynt.

## 4. Gwersi o brofiad rhyngwladol

### 4.1 Profiadau rhyngwladol

Mae'r adran hon yn trafod yn fras ddulliau gwahanol o drefnu a llywodraethu systemau addysg ôl-orfodol. Mae'r drafodaeth sy'n dilyn yn tynnu sylw at y prif wersi a allai Cymru eu dysgu er mwyn llywio penderfyniadau yn y dyfodol ynglŷn â rheoleiddio a goruchwylio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru.

Dewiswyd yr awdurdodaethau canlynol:

**Tabl 1: Awdurdodaethau cyfeirio**

GWLEDYDD Y DU A GWERINIAETH IWERDDON
LLOEGR
GOGLEDD IWERDDON
YR ALBAN
GWERINIAETH IWERDDON
AWDURDODAETHAU ERAILL
ALBERTA
AWSTRALIA
Y FFINDIR
HONG KONG
ISRAEL
SELAND NEWYDD
ONTARIO

Cafodd yr awdurdodaethau eu dewis ar y sail ganlynol:

- Mae gwledydd eraill y DU a Gweriniaeth Iwerddon rhyngddynt yn cynnig set unigryw o fodelau a phrofiadau gwahanol o fewn cyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd eithaf tebyg;
- Awdurdodaethau eraill, o wahanol rannau o'r byd, sy'n rhannu amgylchiadau a disgwyliadau addysgol tebyg fel cymdeithasau ac economïau datblygedig.

Mae rhai o'r olaf, megis Ontario ac Alberta, yn gweithredu o fewn system ffederal, sy'n cynnig rhai cyffelybiaethau diddorol â gwledydd y DU sy'n rhannu rhai nodweddion cyffredin, er enghraifft, polisïau sy'n gorgyffwrdd o ran

gweithrediad RAE/REF a QAA. Mae Tabl 1 isod yn crynhoi prif nodweddion pob awdurdodaeth; trafodir manylion llawnach pob awdurdodaeth yn Atodiad C.

Dengys y profiad ymhlith yr awdurdodaethau cyfeirio fod gwahaniaethau yn y ffordd y caiff y systemau eu trefnu a'u llywodraethu. Ceir amrywiad rhwng y rhai sydd â chyfrifoldeb gweinidogol uniongyrchol a'r rhai sydd â sefydliad cyfryngol neu glustog. Ceir rhywfaint o densiwn ym mhob system rhwng llunio polisi, cyngor polisi a gweithredu polisi, gyda'r rôl gyntaf yn eiddo i'r llywodraeth fel arfer, a'r rôl cyngor a gweithredu yn eiddo i'r sefydliadau cyfryngol. Mae rhai awdurdodaethau yn cyfuno AB ac AU o fewn yr un model rheoleiddio, tra bod gan eraill dulliau gweithredu gwahanol ar gyfer pob rhan o'r system ôl-orfodol/ôl-uwchradd. Nid oes yr un enghraifft yn cynnwys yr hyn sy'n cyfateb i ddarpariaeth 6<sup>ed</sup> dosbarth (dysgwyr 16-18 oed), sydd fel arfer yn cael ei chynnwys o fewn y portffolio addysgol/ysgolion ehangach.

Bydd hefyd yn amlwg, er bod gan bob system ei nodweddion unigryw, fod pob amrywiad ar y model llywodraethu yn arwain at system addysg sefydlog. Mae cyd-destun yn bwysig o ran deall y dewisiadau polisi gwahanol, a'r strwythurau a'r trefniadau llywodraethu sy'n deillio o hynny. Felly, dylid bod yn ofalus bob amser o ran efelychu sefyllfaoedd eraill yn unig. Serch hynny, mae globaleiddio a rhyngwladoli AU wedi arwain at gryn gyffredinrwydd rhwng gwahanol awdurdodaethau sydd bellach yn wynebu heriau tebyg, ac mae llawer i'w ddysgu o'r ffordd y mae systemau gwahanol yn gweithredu, a chryfderau a gwendidau trefniadau llywodraethu mewn mannau eraill. Yn y pen draw, mae dewis y model gorau yn golygu dewis un sy'n fwyaf cyson â gwerthoedd cyffredinol cymdeithas ac amcanion ar gyfer cymdeithas a'r system addysgu yng Nghymru.

Trafodir tair prif nodwedd isod: trefniadau rheoleiddio a llywodraethu; y dirwedd ôl-uwchradd a dulliau cydlynu. Mae'r adran hon hefyd yn disgrifio rhai o fanteision ac anfanteision y dulliau gweithredu gwahanol, ac yn nodi rhai gwersi i Gymru.



Tabl 2: Trosolwg o drefn lywodraethu systemau ymhlith awdurdodaethau cyfeirio <sup>44</sup>

AWDURDODAETH	CYFANSWM Y BOBLOGAETH	POBLOGAETH ÔL-ORFODOL / UWCHRADD <sup>** 45</sup>	MATHAU O SEFYDLIADAU	NODWEDDION ALLWEDDOL
<b>CYMRU</b>	3.063	306,265 <sup>46</sup>	Prifysgolion a Cholegau AB	<ul style="list-style-type: none"> <li>• 6<sup>ed</sup> dosbarth, AB, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned a weinyddir yn uniongyrchol gan yr Adran Addysg a Sgiliau, sy'n gyfrifol am gyllido, staffio, ac ati.</li> <li>• CCAUC yw'r adran anllywodraethol sy'n goruchwyllo AU, ac yn dyrannu cyllid cyhoeddus, ac yn gyfrifol am ansawdd; CCAUC yw'r prif reoleiddiwr;</li> <li>• Estyn a'r QAA sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd sy'n briodol i'r lefel briodol;</li> <li>• Mae llawer o agweddau ar y bensaerniaeth addysg yn debyg i'r hyn a geir yn Lloegr.</li> </ul>
<b>LLOEGR</b>	54.3m	4,488,720	Prifysgolion a Cholegau AB ac AU	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae HEFCE, sy'n gorff cyhoeddus anadrannol, yn dyrannu arian cyhoeddus i brifysgolion a cholegau yn Lloegr; mae'n datblygu ac yn gweithredu polisi; mae'n gyfrifol am "asesu ansawdd"; HEFCE yw'r prif reoleiddiwr.</li> <li>• Mae QAA yn asiantaeth annibynnol sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd AU yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn unol â'r Fframwaith Cymwysterau AU.</li> <li>• Mae HEFCE yn contractio QAA i gynnal adolygiadau ac ymgymryd â swyddogaethau gwahanol eraill.</li> <li>• Mae'r sector/system colegau AB sy'n cynnwys colegau, darparwyr hyfforddiant a chynlluniau seiliedig ar waith, yn cael ei ariannu gan dri phrif gorff cyllido: EFA, SFA a chan HEFCE</li> </ul>

<sup>\*\*</sup> Nid yw'r data ar AB ac AU yn gwbl gyfaradwy ymhlith yr awdurdodaethau gwahanol, hyd yn oed yn y DU, oherwydd rheolau cyfrif gwahanol.

				<p>ar gyfer AU uniongyrchol ac anuniongyrchol (wedi'i masnachfreinio).</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau (Ofqual) yw adran anweinidogol y llywodraeth sy'n rheoleiddio cymwysterau, arholiadau a phrofion yn Lloegr.</li> <li>• Mae'r bensaerniaeth lywodraethu yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd.</li> </ul>
<b>GOGLEDD IWERDDON</b>	1.7m	229,213	Prifysgolion a Cholegau AB Rhanbarthol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae gan DELNI gyfrifoldeb uniongyrchol am AB (dysgwyr 16-19 oed) ac AU, gan weithredu fel rheoleiddiwr a chyllidwr.</li> <li>• Mae darpariaeth 6<sup>ed</sup> dosbarth, sy'n gweithredu o fewn Ysgolion Gramadeg yn bennaf, yn cael ei goruchwylion gan yr Adran Addysg.</li> <li>• Mae QAA yn gyfrifol am sicrhau ansawdd, ac mae Ofqual yn rheoleiddio cymwysterau galwedigaethol.</li> </ul>
<b>YR ALBAN</b>	5.1m	299,828	Prifysgolion a Cholegau AB	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae SFC, sef corff cyhoeddus anadrannol, yn goruchwylion AB ac AU, ac yn gweithredu fel corff cyfryngol rhwng y weinyddiaeth a sefydliadau sy'n goruchwylion ac yn cydlynu'r system gyfan.</li> <li>• Mae SFC yn gweithredu Cytundebau Deilliannau yn AB ac AU.</li> <li>• Awdurdod Cymwysterau'r Alban yw'r corff anadrannol gweithredol sy'n gyfrifol am achredu dyfarniadau addysgol.</li> </ul>

<p><b>GWERINIAETH IWERDDON</b></p>	<p>4.6m</p>	<p>255,022</p>	<p>Prifysgolion, Sefydliadau Technoleg a Chanolfannau Byrddau Hyfforddiant Addysg</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Awdurdod Addysg Uwch, sy'n sefydliad cyfryngol, yn gyfrifol am ddyrannu cyllid, rhoi cyngor polisi ac arfer y prif swyddogaethau rheoleiddio mewn perthynas â bron pob SAU a ariennir drwy arian cyhoeddus.</li> <li>• Mae'n gweithredu proses Deialog Strategol (cytundebau deilliannau wedi'u cyd-drafod) â SAUau yn unol â'r fframwaith perfformiad cenedlaethol.</li> <li>• AB a dysgu seiliedig ar waith/prentisiaethau a weinyddir yn uniongyrchol gan Fyrddau Hyfforddiant Addysg a SOLAS, sef yr Awdurdod AB a Hyfforddiant.</li> <li>• QQI yw asiantaeth ansawdd a chymwysterau genedlaethol y wladwriaeth, sy'n gyfrifol am gymwysterau, safonau, dyfarniadau, a chydabod pob rhaglen a sefydliad AB ac AU, ac am gynnal y Fframwaith Cymwysterau.</li> </ul>
------------------------------------	-------------	----------------	---	--

<p><b>ALBERTA</b></p>	<p>4.1m</p>	<p>186,720</p>	<p>Sefydliadau Academaidd ac Ymchwil Cyfun, Sefydliadau Bagloriaeth ac Astudiaethau Cymhwysol, Sefydliadau Polytechnig, Sefydliadau Cymunedol Cyfun, Sefydliadau Academaidd Annibynnol, a Sefydliadau Celfyddydau a Diwylliant Arbenigol</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gorchwylir addysg ôl-uwchradd, prifysgolion a cholegau gan y Weinyddiaeth Efrydiau Addysg.</li> <li>• Goruchwylir AU drwy Campus Alberta sy'n sefydlu dull cydweithredol ar sail system; mae'n rhoi cyngor i'r llywodraeth ond nid oes ganddo unrhyw bwerau rheoleiddio.</li> <li>• Y Bwrdd Hyfforddiant a Phrentisiaethau Dwydiant sy'n goruchwyllo addysg alwedigaethol.</li> </ul>
-----------------------	-------------	----------------	--	--

<b>Y FFINDIR</b>	5.4m	333,197	Prifysgolion, Prifysgolion Gwyddorau Cymhwysol, Sefydliadau Addysg Bellach a Pharhaus	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Weinyddiaeth Addysg a Diwylliant yn goruchwylio AB ac AU ac yn llywio'r system drwy gytundebau perfformiad â sefydliadau bob pedair blynedd.</li> <li>• FINEEC yw'r asiantaeth sicrhau ansawdd genedlaethol unigol ar gyfer pob darpariaeth addysgol, gan ddisodli asiantaethau unigol ar gyfer lefelau addysg gwahanol.</li> </ul>
<b>HONG KONG</b>	7.2m	325,201	Sefydliadau a Gyllidir drwy Arian Cyhoeddus, Sefydliadau Hunangyllidol, Sefydliadau sy'n Darparu Rhaglenni Gradd Anlleol a Achredir yn Lleol, Sefydliadau Hunangyllidol (Rhaglenni Is-radd a Achredir yn Lleol), Sefydliadau Hyfforddiant Galwedigaethol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Swyddfa Addysg yn gyfrifol am bob lefel o addysg, ac fe'i cynghorir gan yr UGC o ran AU a ariennir drwy arian cyhoeddus.</li> <li>• Mae UGC yn bwyllgor cynghorol anstatudol sy'n gyfrifol am ddefnyddio cyllid i ddatblygu'r sector AU yn strategol, ac mae'n rhoi cyngor i'r llywodraeth ac i sefydliadau.</li> <li>• Mae'r Cyngor Hyfforddiant Galwedigaethol yn cynnig Hyfforddiant Addysg Galwedigaethol cyn cyflogaeth ac mewn swydd.</li> <li>• HKCAAVQ yw'r Awdurdod Achredu statudol.</li> <li>• Argymhelliad i sefydlu Cyngor AB heb ei wneud eto.</li> </ul>
<b>ISRAEL</b>	8m	325,201	Prifysgolion, Colegau Hyfforddi Athrawon, Colegau Academiaidd, Colegau (AB) Rhanbarthol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Goruchwyli'r AU gan Gyngor Addysg Uwch, sy'n gorff cyfryngol annibynnol statudol, sy'n gyfrifol am bob mater sy'n gysylltiedig ag AU.</li> <li>• Mae AB yn gweithredu o dan TVET ac fe'i llywodraethir yn uniongyrchol gan y Weinyddiaeth.</li> <li>• Mae CHE yn gweithredu'r system sicrhau ansawdd i brifysgolion.</li> </ul>
<b>SELAND NEWYDD</b>	4.4m	304,466	Prifysgolion, Sefydliadau Technoleg a Cholegau Polytechnig, Colegau Addysg, Wānanga	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y Comisiwn Addysg Drydyddol yw endid y Goron sy'n gyfrifol am gyllido pob sefydliad addysg drydyddol.</li> <li>• Mae'n gweithredu blaenoriaethau polisi fel y'u pennir gan y Strategaeth Addysg Drydyddol.</li> <li>• Mae'r cyfrifoldeb am sicrhau ansawdd wedi'i rannu rhwng sawl corff gwahanol yn ôl math o sefydliad a lefel, ac yn unol â Fframwaith</li> </ul>

				Cymwysterau Seland Newydd.
<b>ONTARIO</b>	13.7m	814,506	Prifysgolion a Cholegau	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Goruchwylir AB ac AU, ar lefel daleithiol, gan y Weinyddiaeth Hyfforddiant, Colegau a Phrifysgolion.</li> <li>• Gweinyddir AB a phrentisiaethau gan Employment Ontario, sy'n rhan o'r Weinyddiaeth.</li> <li>• Mae HEQCO, sef un o asiantaethau'r llywodraeth, yn darparu ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ategu gwelliant a pholisi, a gwerthuso'r sector ôl-uwchradd yn ôl fframwaith perfformiad/Cytundebau Mandad Strategol.</li> </ul>

## 4.2 Trefniadau rheoleiddio a llywodraethu: sefydliadau cyfryngol

Mae'r llenyddiaeth ryngwladol yn cyfeirio at y cysyniad o "gydlynu" fel y ffordd y mae systemau gwahanol yn cael eu rheoli drwy drefniadau llywodraethol, lled-lywodraethol neu ryngsefydliadol. Disgrifiodd Van Vught drefniadau llywodraethu a rheoleiddio fel "the efforts of government to steer the decisions and actions of specific societal actors according to the objectives the government has set and by using instruments the government has at its disposal".<sup>47</sup> Yn ôl Meek, mae dulliau cydlynu yn cynnwys systemau cynllunio a dyrannu adnoddau, fframweithiau rheoleiddio cyffredinol neu set o syniadau.<sup>48</sup> Fel arfer rhoddir y prif gyfrifoldeb i'r weinyddiaeth briodol neu asiantaeth benodol y cyfeirir ato'n aml fel corff clustogi. Drwy gydol y 1990au ac ers hynny, bu newid amlwg i systemau a arweinir gan y farchnad a systemau cystadleuol a hunareoleiddio fel y dewis ffordd o reoleiddio SAUau, gyda'r gweinyddiaethau neu'r asiantaethau uchod yn gweithredu neu lywio o bell. Fodd bynnag, yn fwy diweddar, o ystyried pwysigrwydd AU yn yr ecosystem genedlaethol sy'n gysylltiedig ag ategu a chynnal cymdeithasau ac economïau gwybodaeth-ddwys cystadleuol, bu newid amlwg o blaid mwy o gydlynu. Yn sgil yr argyfwng ariannol yn 2008, bu trafodaeth ehangach ynglŷn â therfynau rôl y farchnad mewn sawl maes arall, megis bancio a gwasanaethau ariannol – gyda goblygiadau hefyd i addysg ôl-uwchradd.

Mae'n bwysig nodi nad yw nodweddion systemau a arweinir gan y farchnad a nodweddion systemau a arweinir gan y wladwriaeth yn benodol i'r system honno'n unig. Dadleuodd Clark fod pob system wedi'i llunio gan "driongl o gydlynu" sy'n cynnwys ac yn cydbwysio anghenion a buddiannau'r wladwriaeth (y llywodraeth ac asiantaethau cysylltiedig), y farchnad (cystadleuaeth ymhlith sefydliadau), a'r oligarchiaeth academaidd (llais yr academi ar y cyd).<sup>49</sup> Erbyn hyn, mae'r "triongl" wedi dod yn "bentagon", er mwyn cydnabod y rôl bwysig a chwaraeir gan fyfyrwyr, a ddisgrifir weithiau fel partneriaid neu gwsmeriaid<sup>50</sup>, a chymdeithas yn fwy cyffredinol, a ddisgrifir weithiau fel rhanddeiliaid, fel prif chwaraewyr yn y system addysg. Yn yr un modd, mae cysyniadau o ymreolaeth sefydliadol, sy'n ystyried sefydliadu yn chwaraewyr strategol pwysig, yn ogystal â rhyddid academaidd, sy'n hyrwyddo ac yn dathlu academi annibynnol sy'n meddwl yn feirniadol, yn dal i fod yn nodweddion ac yn egwyddorion pwysig yn y ddau fodel.<sup>51</sup>

Mae dau fodel llywodraethu sylfaenol yn gweithredu ar draws yr awdurdodaethau cyfeirio (gweler Tabl 1), a'r defnydd o asiantaethau cyfryngol lled-lywodraethol, neu gyrff clustogi, yw'r un mwyaf cyffredin.

**Tabl 3: Modelau cydlynu yn ôl awdurdodaeth cyfeirio**

Model Cydlynu	Awdurdodaethau Cyfeirio
Llywodraethol (Rheoleiddio Uniongyrchol gan y Wladwriaeth)	Gogledd Iwerddon, Awstralia, Y Ffindir, Alberta, Ontario
Lled-lywodraethol (Llywio drwy Sefydliadau Clustogi/Cyfyngol)	Lloegr, Yr Alban, Cymru, Gweriniaeth Iwerddon, Hong Kong, Israel, Seland Newydd
Trefniadau Rhyngsefydliadol	Dim

Oherwydd egwyddor ymreolaeth, caiff cyrff cyfyngol eu ffafrio'n fawr. Mae sefydliadau o'r fath fel arfer yn "agency of government that occupies a zone of relative independence between the government and the higher education institutions"; maent yn wahanol i weinyddiaethau ac adrannau llywodraethau ac i sefydliadau a byrddau llywodraethu'r olaf. Maent hefyd yn wahanol i sefydliadau hunanreoleiddio neu gynrychioliadol a ffurfir yn aml gan y sefydliadau eu hunain (Locke, 2007). Yn dibynnu ar yr awdurdodaeth, gall rôl corff cyfyngol fod yn gynghorol neu'n rheoleiddiol neu'r ddwy (Trick, 2015, 6):

- Mae corff cyfyngol cynghorol yn rhoi cyngor i'r llywodraeth ar nodau polisi ac offerynnau polisi o ran cydlynu'r system a materion cynllunio (megis cyllido ac ansawdd academaidd) fel y byddant yn ymwneud ag amcanion y llywodraeth ac anghenion cymdeithas.
- Mae gan gorff cyfyngol rheoleiddiol yr awdurdod i ymgymryd â swyddogaethau cynllunio a chydlynu'r system a'u gweithredu megis pennu cenadaethau sefydliadol, pennu lefelau cofrestru, dyrannu cyllid y llywodraeth a chymeradwyo rhaglenni academaidd.

Awgryma profiad rhyngwladol mai'r rolau mwyaf nodweddiadol a gyflawnir gan sefydliadau cyfyngol yw'r canlynol, ond gall yr union gyfuniad o gyfrifoldebau amrywio'n sylweddol.<sup>52</sup>

- Cynllunio, cydlynu a llywio strategol;
- Parhau i adolygu'r system o safbwynt y darlun mawr;
- Dyrannu adnoddau;
- Monitro, gwerthuso a rheoli perfformiad;
- Rheoleiddio'r system ac achredu sefydliadau (cyhoeddus a phreifat);
- Sicrhau ac asesu ansawdd addysgu a dysgu a/neu ymchwil;
- Mesurau atebolrwydd;
- Monitro risg, yn enwedig risg ariannol;
- Gweithredu polisi'r llywodraeth;
- Rhoi cyngor ffurfiol a chyfrinachol i'r llywodraeth;

- Rôl annibynnol o ran y llywodraeth a'r sefydliadau.

Y rôl olaf sydd wedi rhoi'r enw "corff clustogi" i sefydliadau cyfryngol. Er bod yr enw hwn yn cael ei ystyried yn ddifriol weithiau, mae sefydliadau o'r fath yn helpu i ddiogelu rhag ymyrraeth wleidyddol yn ogystal â helpu i gynnal parhad mewn prosesau gwneud penderfyniadau ac wynebu newid pan fydd chwaraewyr eraill yn llusgo eu traed wrth wneud hynny.<sup>53</sup> Mae hyn yn helpu gallu'r Gweinidog i ddatblygu polisi a'i roi ar waith tra'n lleihau'r risg o wleidyddoli newidiadau polisi. Mae manteision i ddysgwyr hefyd; gan fod eu cylch addysgol yn ymestyn y tu hwnt i gylchoedd gwleidyddol, mae'n helpu i warantu cysondeb yn y system. Fel y noda Trick, "the role of an intermediary body comes to the fore when there is a need to make judgments based on qualitative and non-standardized information".<sup>54</sup>

Gan edrych ar Ewrop yn unig, nododd Estermann bod gan gyrrff cyfryngol amrywiaeth eang o gyfrifoldebau gwahanol a rhai sy'n gorgyffwrdd:<sup>55</sup>


**Tabl 4: Cyrrff cyfryngol yn Ewrop**

Cyfrifoldebau	Gwledydd
Cyrrff cyfryngol sydd â chyfrifoldebau eang o ran cyllido, atebolrwydd, ansawdd, polisi a dadansoddi.	Iwerddon, y Deyrnas Unedig, Romania
Cyrrff cyfryngol sydd â chyfrifoldebau penodol naill ai o ran cyllido, pennu meini prawf neu gyngor strategol	Gwlad Belg, Denmarc, Yr Eidal, Latfia
Cyrrff cyfryngol ar gyfer cyllido ymchwil	Bron pob gwlad Ewropeaidd ac eithrio Gwlad Groeg a Malta

Mae Iwerddon yn cynnig enghraifft ddefnyddiol o lywodraethu o fewn amgylchedd o aml-randdeiliaid, gyda'r Adran Addysg a Sgiliau yr Awdurdod Addysg Uwch, y SAUau, a Swyddfa'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Cafodd rolau a chyfrifoldebau eu nodi'n glir unwaith eto yn y *National Strategy for Higher Education to 2030*, a wnaeth hefyd atgyfnerthu rôl yr Awdurdod Addysg Uwch fel asiantaeth gyfryngol ag awdurdod dirprwyedig.<sup>56</sup> Nodir trosolwg o briod rolau a chyfrifoldebau'r prif chwaraewyr hyn yn Ffigur 1 isod.<sup>57</sup>



**Ffigur 1: Fframwaith llywodraethu system addysg uwch Iwerddon**



Ffynhonnell: Yr Awdurdod Addysg Uwch (2015) "Governance Framework for the Higher Education System, t2

Mae gan yr Awdurdod Addysg Uwch gyfrifoldeb am y canlynol:

- Rhoi arbenigedd i'r Adran Addysg a Sgiliau a rhanddeiliaid eraill, a gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar arbenigedd;
- Cynghori'r Lywodraeth ar anghenion ariannol ac anghenion eraill y sector;
- Gwneud penderfyniadau sydd yn amlwg yn wrthrychol;
- Gwneud penderfyniadau hirdymor, yn amodol ar bolisi'r llywodraeth, sydd y tu hwnt i'r cylch gwleidyddol a chynnig rhywfaint o wrthrychedd o ganlyniad i hynny, yn enwedig yn achos penderfyniadau a all fod yn ddadleuol.

Mae'r berthynas â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn seiliedig ar y broses o gyflawni amcanion polisi cenedlaethol, cytundeb lefel gwasanaeth sy'n amlinellu gweithgareddau gofynnol penodol, ac atebolrwydd a risg ariannol. Mae'r Awdurdod Addysg Uwch yn monitro ac yn gwerthuso cynnydd SAUau o ran amcanion cenedlaethol.<sup>58</sup>

Yn olaf, dylid nodi y gall y system benodol o reoleiddio a llywodraethu gael ei newid neu ei haddasu, yn dibynnu ar amgylchiadau a phrosesau gwneud penderfyniadau'r llywodraeth. Er enghraifft, roedd gan Awstralia gyrff cyfryngol ar gyfer y sectorau AU ac AB ond fe'u disodlwyd yn 1988 gan reolaeth uniongyrchol gan y llywodraeth. Mae rôl HEFCE yn Lloegr yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd a gall gael ei disodli gan Swyddfa newydd i Fyfyrywyr.<sup>59</sup> Ar adegau gwahanol, bu gan bob talaith yng Nghanada un neu fwy o gyrff cydlynneu neu reoleiddio ar gyfer AU; mae cyrff cyfryngol yn dal i fodoli yn Newfoundland a Labrador, Quebec a Nova Scotia.<sup>60</sup>

O brofiad awdurdodaethau sydd â sefydliadau cyfryngol, rydym wedi dysgu'r canlynol:

- Mae gan y mwyafrif o'r awdurdodaethau cyfeirio sefydliad cyfryngol sy'n gweithredu polisi, yn dyrannu adnoddau, yn monitro ac yn gwerthuso perfformiad, ac yn rheoleiddio'r system, yn ogystal â rhoi cyngor i'r llywodraeth a sefydliadau;
- Manteision y gallu i weithredu, goruchwyllo a chynnal polisiâu a newid polisi dros gyfnodau hwy, a gwrthsefyll heriau sy'n gysylltiedig â'r canfyddiad o fod yn rhy agos i unrhyw blaid wleidyddol neu lywodraeth benodol;
- Y manteision sy'n gysylltiedig â staff arbenigol, sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd a'r gallu sydd ei angen i lunio barn yn seiliedig ar wybodaeth ansoddol na ellir ei throï'n fformiwlâu yn unig a helpu'r llywodraeth i ddatblygu polisiâu ar gyfer llywio'r system AU.

### 4.3 Y dirwedd ôl-uwchradd

Yn ystod y degawdau diwethaf gwelwyd rôl, maint a disgwyliadau AU yn trawsnewid. Yn hytrach na sefydliadau a fynychir gan elit cymdeithasol bach, mae addysg ôl-uwchradd (neu ôl-orfodol) yn cael ei hystyried yn rhywbeth hanfodol gan y mwyafrif o bobl ac i gymdeithas. Er bod hyd a lled y ddarpariaeth, yn enwedig 16-18 oed, yn amrywio yn ôl awdurdodaeth, mae addysg ôl-orfodol/ôl-uwchradd bellach yn cael ei hystyried yn rhywbeth arferol os nad hanfodol i'w wneud. Mae gofynion hyn o ran demograffeg a'r farchnad lafur a datblygiadau byd-eang yn ail-lunio systemau addysg. Er mwyn bodloni gofynion yr 21<sup>ain</sup> ganrif, mae llywodraethau ledled y byd, mewn ffyrdd gwahanol, yn ystyried gallu ac adnoddau eu gwahanol sefydliadau, a'r system gyfan, er mwyn diwallu anghenion cymdeithas a'r economi yn y dyfodol.

Felly mae'r broses o dorfoleiddio yn gofyn am ymateb llawer mwy soffistigedig i ddarpariaeth wedi'i hehangu na chynt. Mae tybiaethau y byddai ehangu *ar ei ben ei hun* yn cynnig systemau ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol a symudedd yn cael eu hamau'n fawr, ac mae llwybrau mynediad fel y'u gelwir bellach yr un mor debygol o atal cyfleoedd addysgol a gyrfa â'u cynnig. "This suggests that responsibility for the levels of participation of different social groups does not lie with the universities (and associated organisations) alone, but rather is shared across the educational system as a whole."<sup>61</sup> Yn unol â hynny, mae pensaernïaeth a threfniadau llywodraethu'r system wedi dod yn faterion sy'n tynnu sylw penodol.

Mae hyrwyddo amrywiaeth sefydliadol neu genhadaeth wedi cael ei ystyried yn rhan arferol o agenda polisi AU dros y degawdau diwethaf. Ystyrir mai drwy gyfres amrywiol o SABau a SAUau, gyda phob un yn cyflawni swyddogaeth wahanol yn unol â'u cenhadaeth yn y system, y mae amrywiaeth yn bodloni gofynion addysgol a gofynion cymdeithas orau. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i'r system gyffredinol ddiwallu anghenion myfyrwyr; rhoi cyfleoedd ar gyfer symudedd cymdeithasol; bodloni disgwyliadau marchnadoedd llafur gwahanol; gwasanaethau anghenion

gwleidyddol grwpiau â diddordeb; galluogi cyfuniad o AU elit a thorfol; codi lefelau effeithiolrwydd SAUau; cynnig cyfleoedd i arbrofi ac arloesi.<sup>62</sup> Un o'r enghreifftiau gorau yw'r hyn a elwir yn Brif Gynllun Califfornia, sy'n gwahanu rhwng colegau cymunedol, prifysgolion talaith/rhanbarthol a phrifysgolion ymchwil-ddwys fel ffordd o helpu i sicrhau'r rhychwant cynyddol o swyddogaethau yn y ffordd orau a mwyaf costeffeithol bosibl.<sup>63</sup>

Defnyddir gwahanol dermau i ddisgrifio neu ddiffinio "addysg ôl-uwchradd", gan gynnwys "trydedd lefel" ac addysg "drydyddol" neu "addysg uwch" ac "addysg bellach"; mae Cymru yn cyfeirio at y sector "ôl-orfodol". Yn y 1970au, datblygodd UNESCO y Dosbarthiad Safonol Rhyngwladol o Addysg (ISCED) fel fframwaith i wahanu rhwng rhaglenni byrrach, ymarferol, technegol neu alwedigaethol a ganolbwyntiodd ar sgiliau a rhaglenni damcaniaethol hwy, a gafodd ei ddiwygio yn 1997 ac yna unwaith eto yn 2011. Gan fod systemau cenedlaethol yn amrywio o ran strwythur a therminoleg, mae hyn wedi dod yn fframwaith rhyngwladol i feincnodi perfformiad yn ei erbyn neu fonitro cynnydd yn erbyn amcanion cenedlaethol a rhyngwladol.<sup>64</sup> Mae sefydliadau wedi tueddu i gael eu categoreiddio yn unol â hynny; yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o awdurdodaethau wedi datblygu eu fframwaith cymwysterau eu hunain.

Cyn hyn, roedd llywodraethau naill ai'n gadael i'w marchnad rydd neu eu systemau deuol cydgysylltiedig greu llwybrau addysgu penodol gyda phob rhan o'r system yn paratoi graddedigion ar gyfer cyrchfannau galwedigaethol gwahanol, yr oedd ganddynt, yn eu tro, sylfeini gwybodaeth gwahanol, a oedd yn cael eu hadlewyrchu yn y cwricwlwm gwahanol o fewn pob sector.<sup>65</sup> Fodd bynnag, erbyn hyn, wrth i bobl fyw'n hirach a chan eu bod yn debygol o newid gyrfaedd, nid dim ond swyddi, sawl gwaith yn ystod eu bywyd, mae dealltwriaeth gynyddol bod angen i bobl mewn cymdeithasau â chyfranogiad uchel gael eu paratoi llawer mwy ar gyfer amrywiaeth eang o gymwyseddau, a bod angen ymgorffori'r hyn a elwir yn llednais yn "sgiliau meddal" yn llawer dyfnach. Nid yw datblygu cymwyseddau ar gyfer datrys problemau ac arloesi, yn ogystal â meddwl dadansoddiadol a beirniadol, yn dechrau ym maes AU ac nid yw'r gwahaniaethau rhwng cymwysterau galwedigaethol, proffesiynol ac academaidd cymaint ag y byddent yn cael eu llunio a'u trefnu gynt. Mae cysyniad dysgu gydol oes yn pwysleisio bod dysgu drwy gydol oes yn gontinwmm.<sup>66</sup> Mae hyn yn gofyn am fwy o gydlyniant dros y cylch addysg a bywyd cyfan, o oedran cyn ysgol i ddinasyddiaeth weithredol, yn hytrach na chodi bai lle mae gwahanol sectorau yn cyhuddo ei gilydd o fethiannau o fewn y system yn gyffredinol.

Yn unol â hynny, mae ffocws polisi, ac addysgol, cynyddol wedi cael ei roi i "bontio" o addysg uwchradd i addysg ôl-uwchradd, gyda mwy o sylw yn cael ei roi i ddatblygu *llwybrau cydlynol ac integredig* rhwng y rhannau hyn o'r system<sup>67</sup> – sydd hefyd yn ategu'r gydnabyddiaeth nad yw cwblhau addysg uwchradd yn ddigonol mwyach i baratoi a chynnal pobl mewn cymdeithasau ac economïau yn yr 21<sup>ain</sup> ganrif. Mewn geiriau eraill, "students need more general post-compulsory education and greater mobility between vocational and higher education to match their education with

employment opportunities.”<sup>68</sup> Dadleua Wheelahan et al. “the sharp distinctions between the vocational education and training (AHG) and higher education sectors and between publicly funded and privately funded institutions are giving way to a more differentiated single tertiary education sector with greater institutional diversity.”<sup>69</sup>

Mae strategaeth “system fyd-eang” yn tynnu sylw at yr angen am bolisiâu sy’n ceisio dull gweithredu cyfannol gyda gwahanol sefydliadau sy’n arbenigol yn ôl angen, perthnasedd a chymwyseddau. Tra bod gwahanu fertigol yn dibynnu ar statws ac enw da, mae gwahanu llorweddol yn canolbwyntio ar “broffil” ac yn dathlu amrywiaeth.<sup>70</sup> Mae Salmi wedi dadlau yn yr un modd, fel hyn

At the end of the day, world-class systems are not those that can boast the largest number of highly ranked universities. They are, instead, those that manage to develop and sustain a wide range of good quality and well-articulated tertiary education institutions with distinctive missions, able to meet collectively the great variety of individual, community and national needs that characterize dynamic economies and healthy societies.<sup>71</sup>

Mae fframwaith ôl-uwchradd, o leiaf, yn bwysig er mwyn goresgyn bylchau addysgol a chydabod amrywiaeth cyfleoedd ôl-uwchradd yn ffurfiol, a chydabod y rolau cyflenwol y gall addysg academaidd a galwedigaethol, a sefydliadau AB ac AU, ei chwarae o fewn system fwy cydlynol ac integredig.<sup>72</sup> Fel rhan o’r dull gweithredu hwn, gallai mabwysiadu polisi “addysg gyfan” a sefydlu Fforwm Addysgol helpu i ddwyn ynghyd chwaraewyr allweddol o ddarpariaeth cyn ysgol i ddysgu gydol oes, a chynnig budd hanfodol ychwanegol o ran canlyniadau llwyddiannus i gymdeithas.

Ceir rhai enghreifftiau diddorol o’r ffordd y mae gwahanol awdurdodaethau yn cydnabod ac yn dechrau ymateb i’r heriau newydd hyn. Mae Meek yn nodi tuedd i newid “[the] balance between state regulation and the free market back towards the state” fel “rational response to a degree of market failure”<sup>73</sup>. Yn yr un modd, mae Ontario wedi nodi’r newidiadau hyn yn nhermau “[the] post-secondary system as a whole...taking on broader responsibilities in terms of whom it educates and for what purposes, while individual institutions have increasingly specific mandates”.<sup>74</sup> Mae’r OECD hefyd wedi cydnabod pwysigrwydd mabwysiadu dull “systemau” o ddeall pa mor dda y mae sefydliadau yn cyflawni nodau ac amcanion cenedlaethol.<sup>75</sup> At hynny, mewn oes o atebolrwydd cynyddol, galwadau am fwy o gynhyrchiant a phryderon ynglŷn ag effeithlonrwydd sy’n dwysáu, mae dull systemau yn hwyluso gwell cydlynu ac yn dileu cystadleuaeth ddiangen a dyblygu adnoddau.

Mae Tabl 5 yn nodi pedwar math gwahanol o drefniadau sefydliadol a llywodraethu o ran y system ôl-uwchradd/ôl-orfodol ymhlith yr awdurdodaethau cyfeirio a enwir yn yr adroddiad hwn: trefniadau llywodraethu ar wahân, cydlynu’r system AU, llywodraethu gan un awdurdod, ac offerynnau polisi. Efallai fod rhywfaint o

orgyffwrdd yn y categorïau a nodir yn Nhabl 5; er enghraifft, mae gan Iwerddon drefniadau llywodraethu ar wahân gyfer AB ac AU ond mae'n cydlynu ei system AU.

**Tabl 5: Trefnu a llywodraethu'r sector ôl-orfodol/ôl-uwchradd**

Trefnu a Llywodraethu	Awdurdodaethau Cyfeirio
Un Awdurdod Cyfryngol ar gyfer Rheoli a Llywodraethu AB ac AU	Yr Alban, Seland Newydd.
Offerynnau Polisi ar gyfer Rheoli a Llywodraethu AB/AU drwy'r Weinyddiaeth	Alberta, Ontario, Y Ffindir
Cydlynu'r System AU	Iwerddon, Hong Kong, Awstralia
Trefniadau Llywodraethu ar wahân ar gyfer AB ac AU, dim cydlynu ffurfiol	Lloegr, Gogledd Iwerddon, Israel, Cymru

O blith yr awdurdodaethau cyfeirio, mae gan yr Alban a Seland Newydd un asiantaeth gyfryngol sy'n gyfrifol am orchwyllo'r sector ôl-uwchradd cyfan yn ffurfiol – nad yw'n cynnwys addysg 6<sup>ed</sup> dosbarth. mae Alberta, Ontario a'r Ffindir yn gwneud hyn drwy'r weinyddiaeth; Mae Alberta wedi sefydlu Campus Alberta ond nid oes ganddo unrhyw swyddogaeth na phwerau rheoleiddio. Mae gan Iwerddon, Awstralia a Hong Kong broses o gydlynu'r system AU yn ffurfiol, sy'n cynnwys cydlynu addysgu a dysgu, ymgysylltu rhanbarthol a/neu ymchwil. Mae Pwyllgor Grantiau Prifysgolion Hong Kong yn mynd ati mewn ffordd strategol “by developing an interlocking system where the whole higher education sector is viewed as one force, with each institution fulfilling a unique role, based on its strengths.”<sup>76</sup> Mae cydlynu'r system hefyd yn nodwedd gryf o systemau talaith yr UD.<sup>77</sup> Mae SUNY, sef Prifysgol Talaith Efrog Newydd, yn system amlgampws o fwy na 60 o sefydliadau gwahanol sy'n amrywio o golegau cymunedol i brifysgolion ymchwil-ddwys, sydd wedi bathu'r cysyniad o “systemness” fel modd i sicrhau'r buddiannau mwyaf “[in a] more powerful and impactful way than what can be achieved by individual campuses acting alone.”<sup>78</sup>

Yn 2005, gwnaeth yr Alban ddwyn y rhannau AB ac AU o'i system ynghyd i ffurfio Cyngor Cyllido'r Alban (SFC), gan roi cyfle i ymdrin â darpariaeth addysg mewn ffordd fwy strategol a chydlynol gyda ffocws cadarn ar genhadaeth sefydliadol i gyflawn dros yr Alban. Mae hyn yn golygu y gall yr SFC fabwysiadu dull macro ac integredig o ymdrin â dysgu ac ymchwil, astudiaethau galwedigaethol ac academiaidd ac ati. Roedd colegau wedi bod yn rhan o awdurdodau lleol yn ystod y 1990au ac wedyn y gwasanaeth sifil. Yn sgil cylch gwaith yr SFC mae hyn wedi newid o ymwneud â phrifysgolion, ac yna SABau a SAUau, i ymwneud â datblygu system addysg yr Alban yn ei chyfanrwydd. Yn unol Keep, mae'r dull gweithredu hwn yn gwneud synnwyr, gan gynnig dull mwy rhesymegol o gynllunio ac ymgysylltu ar y cyd rhwng y sefydliadau yn ogystal â'u rhanddeiliaid lu.<sup>79</sup>

Mae Seland Newydd yn cyflwyno achos defnyddiol iawn i'w astudiaeth oherwydd maint cymharol ei phoblogaeth â Chymru (mae gan Seland Newydd boblogaeth o 4.4m o gymharu â 3.0m yng Nghymru). Sefydlodd Gomisiwn Cyngori Addysg Drydyddol (TEAC) yn 2000 “[to] develop a strategic direction for tertiary education in New Zealand...[a] to produce a high-level strategic direction which has

wide acceptance that will endure over the medium to longer term.” Cyhoeddwyd pedwar adroddiad i gyd rhwng 2000 a 2001. Yn ei adroddiad cyntaf, mabwysiadodd y TEAC ddiffiniad eang iawn o addysg drydyddol, gan esbonio ei benderfyniad fel a ganlyn:

Across the world there are many different approaches to defining the nature and scope of tertiary education. Differences include where the boundaries should be drawn between the secondary and tertiary systems, distinctions between the formal and non-formal sectors, and between “higher education” and other parts of the tertiary system. Plainly, there are difficulties in setting precise limits to the tertiary system and any particular boundary is likely to generate objections.

The Commission has chosen...to take the view that tertiary education should be broadly defined. This definition includes learning at all levels within public tertiary institutions (i.e. polytechnics, universities, colleges of education and wananga), programmes provided by private and government training establishments, business-based education, industry training, and all lifelong learning beyond the compulsory school system. It thus includes both formal and non-formal education, and what is often termed “second-chance” education. Embracing these diverse forms of education and training is particularly important if the challenges of promoting lifelong learning and designing a tertiary education system that contributes to the knowledge society are to be taken seriously.<sup>80</sup>

Argymhellodd ail adroddiad TEAC (2001) y dylai'r Comisiwn Addysg Drydyddol (TEC) – a sefydlwyd gan Ddeddf Addysg 1989 – gael y canlynol:

responsibility for policy advice and funding allocation for the whole tertiary education system, including community education, second-chance education and industry training....The Commission's view is that a single coherent and comprehensive central structure would better facilitate the desired differentiation and complementarity of the tertiary education system, because its scope of coverage would mean that it would be able to steer all forms of provision.<sup>81</sup>

O brofiad yr awdurdodaethau cyfeirio o lunio cydsyniad o'r dirwedd ôl-uwchradd/ôl-fodol, rydym yn dysgu'r canlynol:

- Mae amrywiaeth o fodolau, gyda phwyslais cynyddol yn cael ei roi ar ddeall sefydliadau fel rhan o “system” yn hytrach na chwaraewyr unigol sy'n gweithredu'n annibynnol ar ei gilydd;



- Yr hyn sy'n fanteisiol o ran dull gweithredu "system" yw bod modd datblygu dull gweithredu strategol a chydlynol o ddarparu addysg, gyda ffocws cadarn ar genhadaeth sefydliadol, sy'n sicrhau "effaith gyfunol" i gymdeithas;
- Yr hyn sy'n fanteisiol o ran dull gweithredu system yw ei bod yn hwyluso gwell cydlynu ac yn dileu cystadleuaeth ddiangen a dyblygu adnoddau.
- Mae gwersi pwysig i'w dysgu o ran cydbwysio anghenion a gofynion cymdeithas, a'r system addysg yn gyffredinol, â'r manteision sy'n gysylltiedig â sefydliadau cadarn, uchelgeisiol ac ymreolaethol.

#### **4.4 Dulliau cydlynu: cytundebau perfformiad, compactau a phroffilio**

Mae'r ffocws ar ddeilliannau addysgol, a deilliannau dysgu yn benodol, wedi bod yn nodwedd bwysig o bolisi AU dros y degawdau diwethaf wrth i'r sylw newid i fesur a chymharu ansawdd. Heddiw, ochr yn ochr â'r ymgais i sicrhau mwy o atebolrwydd ac effeithlonrwydd, mae ansawdd a rhagoriaeth yn fater pwysig i bob rhanddeiliad: mae ansawdd yn effeithio ar safle a balchder cenedlaethol a geowleidyddol; mae wedi dod yn fodd i ddenu buddsoddiad a thalent symudol; mae'n sail i enw da a statws sefydliad, ac asesu perfformiad ymchwil wyddonol-ysgolheigaid; mae cymhwysedd graddedigion a chyfleoedd i raddedigion yn dibynnu arni; ac mae trethdalwyr am wybod eu bod yn cael gwerth am arian ac elw da o fuddsoddiad (cyhoeddus). Yn draddodiadol, mae ansawdd addysg (uwch) wedi cael ei fesur yn ôl ffactorau mewnbyn: nifer y myfyrwyr sy'n cofrestru a'u cymwysterau, oriau credyd, y gymhareb rhwng staff a myfyrwyr, cymwysterau academaidd, cyllideb/incwm ac ati. Heddiw, ceir ffocws cynyddol ar ddeilliannau, effaith a budd.<sup>82</sup>

Ond mae mesur ansawdd yn fater cymhleth a dadleuol yn aml. Llwyddodd Proses Bologna i osod ystyried ansawdd o fewn fframwaith addysgol ehangach yn y ffordd y mae'n ffurfioli'r cysyniad o ddeilliannau dysgu.<sup>83</sup> Llwyddodd trefn safle fyd-eang i gysylltu ansawdd â phrifysgolion elit â llawer o adnoddau ond mae angen ymagwedd fwy soffistigedig. Yn y pen draw, mae'n bwysig bod y system addysg yn sicrhau'r deilliannau priodol sydd eu hangen ar ddysgwyr a chymdeithas ac y maent yn eu disgwyl, yn awr ac yn y dyfodol.

Er mwyn ategu'r amcanion hyn, mae cydnabyddiaeth gynyddol bod angen gwaith blaengynllunio a chydlynu'r system; cael barn facro o batrymau demograffig a daearyddol yn ogystal â newidiadau cymdeithasol ac economaidd a newidiadau yn y farchnad lafur, o fewn cyd-destun persbectif cenedlaethol a byd-eang cystadleuol, ac mae'r gallu i annog neu lywio sefydliadau o ddiwallu'r anghenion hynny mewn gwirionedd yn hollbwysig. Gan fod ein systemau addysg yn rhan hollbwysig o'n seilwaith cenedlaethol, mae hyn yn gofyn am "long-term, coherent and focused system-wide attention to achieve improvement".<sup>84</sup>



Er mwyn helpu i gyflawni hyn, mae llawer o wledydd wedi cyflwyno modelau cyllido sy'n seiliedig ar berfformiad neu gytundebau i annog sefydliadau addysg i ganolbwyntio ar ddeilliannau penodol a'u gwobrwyo'n ariannol am berfformiad sy'n unol â blaenoriaethau'r llywodraeth. Mae cyllido ar sail perfformiad hefyd wedi bod yn nodwedd gryf o sawl system talaith yn yr UD.<sup>85</sup> Mae'r newid hwn yn disodli'r dull mwy traddodiadol o gyllid blynyddol ar sail ffactorau mewnbwn neu ryw gyfrifiad hanesyddol, a oedd yn cael ei gynyddu (neu ei ostwng) yn unol â chwyddiant, adnoddau trysorlys neu benderfyniadau gwleidyddol/dewisol.

- Mae *cyllido ar sail perfformiad* yn derm cyffredinol, sydd fel arfer yn gysylltiedig â math o gyllid sy'n gwobrwyo sefydliadau ar sail perfformiad disgwylid yn hytrach na pherfformiad gwirioneddol. Ledled y byd, ceir llawer o enghreifftiau o fformiwlâu cyllido neu ymarferion asesu lle mae sefydliadau yn cael arian cyhoeddus yn seiliedig ar ganlyniadau a gyflawnwyd yn y gorffennol (diweddar); mae RAE a REF, a QR, yn enghreifftiau o'r fath.
- Mae *cytundebau perfformiad* – neu *gontractau perfformiad* – yn ystyried perfformiad yn y dyfodol, ac maent yn aml yn cynnwys trafodaeth neu “gyddrafod” rhwng y cyllidwr (y weinyddiaeth neu'i hasiantaeth) a'r sefydliad ynglŷn â chywres o amcanion a thargedau perfformiad.<sup>86</sup>

Yn fras, mae'r dull cyntaf yn tueddu i weithredu o'r brig i'r bôn, tra bod yr olaf yn dibynnu ar broses ddiplomataidd sy'n cydnabod ac yn parhau ymreolaeth sefydliadol a rôl bwysig gallu ac adnoddau arweinyddiaeth strategol sefydliadol. O blith yr awdurdodaethau cyfeirio, mae sawl un wedi cyflwyno un o'r dulliau hyn fel y'i nodir yn Nhabl 6 isod.

**Tabl 6: Cyllido ar sail perfformiad a chytundebau perfformiad**

Cyllido ar sail Perfformiad a Chytundebau Perfformiad	Awdurdodaethau Cyfeirio
Cyllid ar sail Perfformiad	Israel, Gogledd Iwerddon
Cytundebau Perfformiad	Awstralia, y Ffindir, Hong Kong, Yr Alban, Ontario, Seland Newydd,
Cyllido Mewnbwn neu Flynyddol	Lloegr, Alberta, Cymru

Gan ystyried y gwahanol brofiadau, ymddengys yn ddarbwyllol bod rhyw fath o gytundeb perfformiad yn debygol o fod yn nodwedd barhaus o systemau ôl-uwchradd yn y dyfodol. Fodd bynnag, dengys y dystiolaeth fod y gyfres o ddangosyddion neu ddulliau a ddefnyddir yn amrywio'n sylweddol o awdurdodaeth i awdurdodaeth; Mewn sawl achos, mae dulliau wedi newid yn rheolaidd mewn ymateb i ganfyddiadau o'r hyn sy'n gweithio orau. Fel y dadleua de Boer et al. , “There is no compelling evidence on what works well under which conditions. The reality is that ‘context matters’...given the uniqueness of each higher education system...”<sup>87</sup> Felly, ni fwriedir i'r drafodaeth sy'n dilyn fod yn rhagnodol na thrafod

manyllion ynglŷn â pha berfformiad y dylid ei fesur a sut. Yn hytrach, cyflwynir yr enghreifftiau er mwyn dangos sut y caiff systemau gwahanol eu cydlynu er mwyn sicrhau bod amcanion cenedlaethol cymdeithas yn cael eu cyflawni.<sup>88</sup>

Mae proffilio sefydliadol wedi dod yn ddull pwysig arall ym maes rheoli perfformiad ac i helpu i ffurfio amrywiaeth sefydliadol. Wrth i systemau ehangu, mae methodolegau wedi datblygu sy'n ceisio gwneud synnwyr ohonynt. Roedd Prif Gynllun Califfornia (1960)<sup>89</sup> wedi sefydlu system tair haen: colegau cymunedol, prifysgolion talaith (BA a MA) a phrifysgolion ymchwil (BA, MA, PhD),<sup>90</sup> tra bod y system ddeuol yn fwy cyffredin mewn manau eraill nes i'r DU ac Awstralia fabwysiadu model unedol ar ddechrau 1989 ac yn 1992, yn y drefn honno. Erbyn hyn, er mwyn cydnabod tirwedd genedlaethol a byd-eang fwy cymhleth a chystadleuol o ran cymdeithas a dysgwyr, mae llawer o wledydd wedi symud i dderbyn y cysyniad o broffilio sefydliadol fel ffordd o annog sefydliadau i wahaniaethu yn ogystal â dathlu cryfderau gwahanol sefydliadau gwahanol. O safbwynt cenedlaethol a sefydliadol, mae'r data a gesglir, yn rhoi ffordd o fonitro a meincnodi tueddiadau mewn darpariaeth addysgol, meysydd astudiaeth, cyfranogiad myfyrwyr, a'r sylfaen ariannol ac adnoddau dynol.<sup>91</sup>

Mae *Carnegie Classification of Institutions of Higher Education* (CCEIHE) yr UD, a luniwyd yn 1973 ac a ddiwygiwyd yn sylweddol yn 2005 gyda mân newidiadau yn 2015, yn cynnig typoleg neu fframwaith "[to] describe, characterize, and categorize colleges and universities" yn ôl cenhadaeth sefydliadol.<sup>92</sup> Datblygwyd U-Map fel dosbarthiad Ewropeaidd neu brosiect proffilio i dynnu sylw at amrywiaeth y dirwedd addysg uwch Ewropeaidd yn ôl addysgu a dysgu, cohort myfyrwyr, ymchwil, cyfnewid gwybodaeth, rhyngwladoli, ac ymgysylltu rhanbarthol.<sup>93</sup> Mae proffilio wedi cael ei fabwysiadu a'i ddatblygu mewn sawl awdurdodaeth, gan gynnwys Iwerddon<sup>94</sup>, Denmarc, y Ffindir, yr Almaen, Hong Kong, Seland Newydd, Norwy, yr Iseldiroedd, ac Awstralia.<sup>95</sup>

Rôl Pwyllgor Grantiau Prifysgolion (UGC) Hong Kong yw helpu i ddatblygu system AU "blethedig", lle mae'r sector AU cyfan yn cael ei ystyried yn un llw, gyda phob sefydliad yn cyflawni rôl unigryw, yn seiliedig ar ei gryfderau. Mae'n chwarae rôl ragweithiol mewn gwaith cynllunio strategol datblygu polisi er mwyn cynghori a llywio'r sector AU i ddiwallu anghenion amrywiol rhanddeiliaid. Gweithredwyd y *Performance and Role Related Funding Scheme* (PRFS) i annog mwy o wahanu rhwng rolau, er mwyn helpu sefydliadau i ddod o hyd i ffyrdd o wella ac annog perfformiad ymhellach, ac atgyfnerthu atebolrwydd. Mae'n clymu ynghyd ddyrannu cyllid, perfformiad, a pherfformiad yn erbyn rôl.

Mae gan Iwerddon a'r Alban ill dwy gytundebau perfformiad wedi'u cyd-drafod sy'n cynnwys sgwrs rhwng yr asiantaeth (HEA a SFC yn y drefn honno) â'r sefydliadau ynglŷn ag amcanion cenedlaethol a thargedau sefydliadol yn yr hyn a elwir yn "ddeialog strategol". Yn achos Iwerddon, mae'r llywodraeth wedi amlinellu amcanion cenedlaethol i'r system, y mae'n disgwyl i'r HEA a sefydliadau unigol eu cyflawni; yna mae pob sefydliad yn ymrwymo i gompact â'r HEA.<sup>96</sup> Mae'r compactau

perfformiad ar sail cenhadaeth yn rhoi'r sail dros fesur perfformiad, fel y bo'n briodol i genhadaeth y sefydliad, a bydd cyfran o gyllid, yn y dyfodol, yn dibynnu ar berfformiad.<sup>97</sup> Cyhoeddir adroddiad perfformiad bob dwy flynedd yn seiliedig ar ganlyniadau'r broses ddeialog strategol, lle y trafodir perfformiad yn nhermau amcanion cenedlaethol.<sup>98</sup> Mae gan Seland Newydd broses debyg; mae'r Comisiwn Addysg Drydyddol (TEC) yn amlinellu'r hyn y mae'n disgwyl ei gyllido mewn dogfen Canllaw Cynllun, ac yna mae'n cytuno â sefydliadau addysg drydyddol unigol ar yr hyn y byddant yn ei gyflawni dros gyfnod tair blynedd y Cynllun. Yna mae'n rhaid i bob sefydliad ddatblygu cynllun tair blynedd sy'n dangos sut y bydd yn canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth y TEC, a rhaid i'r TEC gymeradwyo'r cynllun hwn. Cyflwynodd Awstralia gompactau ar sail cenhadaeth yn 2012.

Mae Ontario yn enghraifft ddiddorol arall. Mandad Cyngor Ansawdd Addysg Uwch Ontario (HEQCO) mewn deddfwriaeth yw gwerthuso'r sector addysg ôl-uwchradd a chyflwyno adroddiad ar ganlyniadau'r asesiad hwnnw. Mae colegau a phrifysgolion yn gweithredu o fewn cylch gwaith cytundebau mandad strategol ac yn ôl dangosyddion perfformiad penodol.<sup>99</sup> Y bwriad yw gosod perfformiad Ontario yng nghyd-destun cymysgedd o ddangosyddion rhyngwladol a dangosyddion Canada mewn pedwar maes: ansawdd, mynediad, cynhyrchiant ac effaith gymdeithasol. Y bwriad yw symud y drafodaeth yng Nghanada o "how much money is spent on higher education" i "how the money is spent and what outcomes are being achieved."<sup>100</sup>

O brofiad awdurdodaethau sy'n defnyddio cyllido ar sail perfformiad neu gytundebau perfformiad, rydym yn dysgu'r canlynol:

- Mae'r defnydd eang o gyllido ar sail perfformiad neu gytundebau perfformiad yn gysylltiedig â'r gydnabyddiaeth gynyddol bod angen sicrhau bod y system addysg yn darparu'r hyn sydd ei angen ar ddysgwyr a chymdeithas a'r hyn y maent yn ei ddisgwyl;
- Yr hyn sy'n fanteisiol ynglŷn â'r broses yw ei bod yn ei gwneud yn ofynnol i'r llywodraeth amlinellu ei hamcanion polisi i'r system yn y tymor canolig, ac yn cynnig y dulliau o lunio'r system mewn ffyrdd sy'n cyflawni'r amcanion hynny;
- Yr hyn sy'n fanteisiol ynglŷn â chytundebau perfformiad yw eu bod yn cynnwys y llywodraeth neu ei hasiantaeth mewn deialog â sefydliadau ynglŷn â thargedau sy'n gyson ag amcanion cenedlaethol a chenhadaeth sefydliadol;
- Yr hyn sy'n fanteisiol ynglŷn â phroffilio sefydliadol yw ei fod yn cynnig ffordd o wahaniaethu rhwng cenadaethau sefydliadol er budd y llywodraeth, sefydliadau, myfyrwyr a rhanddeiliaid, a dathlu'r amrywiaeth hon;
- Mae'r broses o lunio cytundebau perfformiad yn annog ac yn cefnogi gallu ac adnodau arweinyddiaeth strategol ymhlith y sefydliadau.

## 4.5 Crynodeb

Gyda'i gilydd, mae'r profiadau a'r gwersi hyn yn arwain at ystyried y cyfeiriadau diwygio canlynol:

- Mabwysiadu safbwynt system ôl-orfodol a all sicrhau dull strategol a chydlynol o ddarparu addysg i bob dysgwr a chymdeithas;
- Sefydlu corff cyfryngol ôl-orfodol newydd gyda'r awdurdod deddfwriaethol i ymgymryd â swyddogaethau cynllunio a chydgysylltu system a'u gweithredu;
- Mwy o gysondeb rhwng blaenoriaethau polisi cenedlaethol, cyllido a chenhadaeth sefydliadol, a pherfformiad a chynhyrchiant tra'n parhau ymreolaeth sefydliadol.

## 5. Casgliadau

### 5.1 Yr achos dros ddiwygio

Yn ystod y degawd diwethaf gwelwyd cryn dipyn o ddiwygio deddfwriaethol ym maes addysg ôl-orfodol Cymru.<sup>101</sup> Yn fwy diweddar gofynnwyd i, John McCormick a'i gydweithwyr "gynnal adolygiad o drefniadau llywodraethu addysg uwch (AU) yng Nghymru", gan gyhoeddi eu hadroddiad yn 2011. Nododd fod addysg uwch yn wynebu rhai heriau mawr:

- Yr angen i sicrhau'r incwm a'r effeithiolrwydd ariannol mwyaf posibl yn wyneb pwysau cyllidebol cynyddol;
- Yr angen i gynnal rhagoriaeth academiaidd ac ymchwil mewn amgylchedd o newid demograffig, galw ymhlith myfyrwyr a disgygliadau uwch;
- Yr angen i fynd i'r afael â materion maint a gallu sefydliadol, yn enwedig yn wyneb cystadleuaeth gynyddol dros y byd ac yn y DU;
- Yr angen i fuddsoddi ym mhrofiad myfyrwyr a'i wella'n barhaus, a chyfleoedd cyflogaeth i ddysgwyr;
- Yr angen i feithrin diwylliant o arloesedd, dynamiaeth a gwelliant parhaus os bydd y sector am sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl ganddo i dwf economaidd a gwelliant cymdeithasol.<sup>102</sup>

Nodir yr heriau hyn hefyd yn yr adroddiad hwn. At hynny, mae materion eraill o bryder difrifol – megis cysylltedd gwael rhwng/ar draws gwahanol sectorau'r system addysg ôl-orfodol, diffyg sylw i ddeilliannau dysgu a llwybrau dysgwyr drwy gydol eu bywyd gwaith, atebolrwydd annigonol, a chysoni gwael rhwng addysg a nodau eraill cymdeithas – oll wedi cael eu crybwyll mewn adroddiadau eraill i Lywodraeth Cymru.<sup>103</sup>

Ond mae heriau eraill hefyd yn amlwg, gan adlewyrchu newidiadau yn y ffordd y mae amcanion cenedlaethol cymdeithas bellach yn ei gwneud yn ofynnol i AU gael ei hystyried yn rhan o ecosystem ôl-uwchradd ehangach. Bydd newidiadau arfaethedig i bensaernïaeth trefniadau llywodraethu, a materion cysylltiedig, yn Lloegr, yn creu amgylchedd mwy heriol i addysg ôl-orfodol Cymru, lle y gall dull y farchnad, mwy laissez-faire ei naws sy'n cael ei fabwysiadu yn Lloegr fod yn broblematic iawn i brifysgolion Cymru.

Mae'r datblygiadau hyn yn rhoi cyfle i Gymru adolygu pensaernïaeth ei system ei hun, a gwneud penderfyniadau ac arfer awdurdod o dan ddatganoli, a allai adlewyrchu ei sefyllfa ei hun, ei gwerthoedd cymdeithasol, a'i gofynion yn y dyfodol yn well. Fodd bynnag, wrth wneud hynny, mae'n rhaid bod yn ymwybodol, nid yn unig o'r hyn a etifeddwyd yn sgil diwygiadau hyd yn hyn, gan gynnwys yr adolygiad cyflenwol o drefniadau cyllido AU a chyllid yng Nghymru, ond yr elfennau niferus sy'n gorgyffwrdd,

yn enwedig ym maes addysg uwch (e.e. fframwaith cymwysterau ac ansawdd cyffredin, derbyniadau myfyrwyr, ac ymchwil ac asesu ymchwil), sy'n clymu'r systemau datganoledig at ei gilydd.

Gan gadw hyn mewn cof, mae'n werth nodi'r heriau sylweddol a'r dewisiadau a wyneba Cymru:

- Yr angen i ddatblygu fframwaith cenedlaethol sy'n nodi uchelgeisiau, nodau a blaenoriaethau ar gyfer y system ôl-orfodol yn y dyfodol, gan edrych ymlaen tuag at 2030, gan fod yn ymwybodol o'r ffaith y bydd angen i "siâp" y system barhau i ddatblygu mewn ymateb i anghenion a heriau newydd;
- Yr angen i greu mwy o gydlyniant drwy'r system addysg gyfan, ac yn enwedig y sector ôl-orfodol, gan gynnwys addysg 6<sup>ed</sup> dosbarth, addysg bellach, prifysgolion, dysgu seiliedig ar waith ac addysg oedolion a chymunedol;
- Yr angen i gysoni'r system ôl-orfodol ag anghenion cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru yn well, gan gynnwys ymgysylltu agosach â rhanddeiliaid allweddol;
- Yr angen i gysylltu cyllid yn well er mwyn atgyfnerthu proffiliau a chenadaethau sefydliadol o fewn system ôl-orfodol gwahaniaethol ac amrywiol, mewn modd sy'n sicrhau ei bod yn parhau i ddiwallu anghenion y genedl;
- Yr angen i ddatblygu llwybrau a chyfleoedd dysgu a gyrfa mwy cydlynol, ar gyfer pob oedran, rhyw a thalent, gan annog a hwyluso mwy o symudedd a hyblygrwydd ar draws a thrwy wahanol leoliadau addysgol, o'r ysgol uwchradd a'r 6<sup>ed</sup> dosbarth drwy AB ac AU, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion;
- Yr angen i atgyfnerthu cydweithrediad a chreu màs critigol ym maes addysg ac ymchwil er mwyn ategu a hybu cydlyniaeth a màs critigol, ansawdd a chystadleurwydd;
- Yr angen i annog entrepreneuriaeth a menter, a denu a chadw cyfalaf a thalent yng Nghymru;
- Yr angen i adolygu oedran gadael yr ysgol yng ngoleuni'r ffaith bod cyfleoedd cyflogaeth yn yr 21<sup>ain</sup> ganrif yn ei gwneud yn ofynnol i bobl feddu ar sgiliau a chymwyseddau.
- Yr angen i barchu a chefnogi ymreolaeth sefydliadol drwy allu ac adnoddau arweinyddiaeth strategol cadarnach;
- Yr angen i sefydlu strwythurau llywodraethu priodol, gydag arbenigedd eang, a all arwain, cefnogi, monitro a gwerthuso camau gweithredu a deilliannau ôl-uwchradd yn erbyn amcanion.

Mae'r ffactorau hyn yn gwneud yr achos dros ddiwygio yn un cymhellol os yw Cymru am ddatblygu system addysg ôl-orfodol gynaliadwy o'r radd flaenaf sy'n diwallu anghenion dysgwyr o bob oedran a thalent, ac anghenion cymdeithas ac economi sy'n

bodoli mewn amgylchedd cynyddol gystadleuol yn y DU, Ewrop a ledled y byd – sefyllfa sydd ynddi'i hun yn dod â chyfleoedd a heriau yn ei sgil. Mae angen gweld yr argymhellion a gynigir yn yr adroddiad hwn o safbwynt tymor hwy, er mwyn edrych ymlaen a rhagweld yr hyn sy'n ofynnol dros y 10-15 mlynedd nesaf, a gosod y sylfeini angenrheidiol. Felly, mae'r adroddiad hwn yn awgrymu fframwaith tuag at 2030 ar gyfer datblygu system addysg ôl-uwchradd o'r radd Flaenaf i Gymru.

## 5.2 Egwyddorion arweiniol

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried profiad yr awdurdodaethau cyfeirio a enwir yn yr adroddiad hwn a'r gwersi a ddysgwyd ganddynt, a'r llenyddiaeth ryngwladol newydd ynglŷn â pholisi addysg/addysg uwch, gan gyfeirio'n benodol at systemau llywodraethu addysg yn disodli dull y farchnad rydd sy'n tueddu i orbwysleisio budd y sefydliadau eu hunain. Yn unol â hynny, mae'r egwyddorion allweddol sy'n sail i'r ymagwedd a fabwysiadir yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- Safbwynt system – creu ecosystem addysg gydlynol i Gymru sy'n diwallu anghenion cymdeithas ac economi Cymru, yn awr ac yn y dyfodol;
- Dysgu am Oes – yn seiliedig ar y ffaith bod pobl yn byw bywydau hirach ac iachach, a bod cymdeithas ddemocrataidd yn dibynnu ar ddinasyddion gweithredol, ymgysylltiol a chyfrifol.
- Cyfraniad Cymdeithas – mae addysg yn cyfrannu at gymdeithas a'r economi drwy ei graddedigion, gwybodaeth newydd ac arloesedd, y mae pob un ohonynt yn hollbwysig i lwyddiant personol a chymdeithasol a chynaliadwyedd;
- Cystadleuaeth ac Amrywiaeth – sefydliadau cadarn, cystadleuol ac amrywiol, sy'n gweithio mewn ffordd gydweithredol a chyfrifol, er mwyn sicrhau mwy o ragoriaeth, atgyfnerthu cystadleurwydd a datblygu màs critigol mewn amgylchedd byd-eang;
- Canolbwyntio ar Ddysgwyr – rhoi anghenion dysgwyr o bob oedran, rhyw a thalent, drwy gydol eu bywydau gwaith, wrth wraidd y system addysg, gan alluogi a hwyluso cyfleoedd ac amgylchiadau bywyd sy'n newid dros amser;
- Ymreolaeth Sefydliadol – parch tuag at ymreolaeth sefydliadol o fewn fframwaith cyffredinol o ddull system o ddarparu addysg a chyflawni, a threfniadau llywodraethu, cyfrifoldeb ac atebolrwydd sefydliadol cryfach.

## 6. Argymhellion a materion eraill

### 6.1 Argymhellion

Cyflwynir yr argymhellion canlynol er mwyn gosod y sylfeini angenrheidiol ar gyfer system addysg ôl-orfodol gynaliadwy, gydlynol a chystadleuol i Gymru.

Bydd angen deddfwriaeth newydd. Dylid ymgymryd â hyn mor gyflym ac effeithlon â phosibl er mwyn osgoi unrhyw oedi diangen, cyfyngau polisi, ac aflonyddu a gwrthdymnu sylw yn y system ôl-orfodol.

1. Datblygu gweledigaeth gyffredin ar gyfer y system addysg ôl-orfodol i Gymru sy'n seiliedig ar gysylltiadau cryfach rhwng polisi addysg, darparwyr a darpariaeth, a nodau cymdeithasol ac economaidd er mwyn sicrhau y caiff anghenion Cymru eu diogelu at y dyfodol hyd y gellir. Er mwyn cyflawni hyn:
  - Datblygu prif gynllun ar gyfer datblygu system ôl-orfodol gydlynol sydd wedi'i chyd-drefnu'n strategol ym maes addysg, ymchwil, ysgoloriaeth ac ymgysylltu.
  - Nodi nifer gyfyngedig o nodau strategol lefel uchel er mwyn llywio'r system a sefydliadau unigol, ac sy'n gynaliadwy dros y tymor hwy;
  - Hyrwyddo mwy o arbenigo a phroffilio sefydliadol mewn ffordd sy'n gogwyddo SABau a phrifysgolion fel "sefydliadau angori" yn eu rhanbarthau a thrwy hynny atgyfnerthu cystadleurwydd cymdeithasol ac economaidd a chynaliadwyedd amgylcheddol Cymru;
  - Atgyfnerthu cydweithrediad â phartneriaethau – rhwng prifysgolion, SABau a phrifysgolion, a rhwng pob sefydliad ôl-orfodol a chynghorau lleol/rhanbarthol ac ati – ym mhob rhan o addysgu ac ymchwil er mwyn atgyfnerthu gallu ac adnoddau a chreu màs critigol;
  - Atgyfnerthu a chefnogi sefydliadau addysgol i ddenu a chadw talent, gan gynnwys graddedigion o brifysgolion Cymru.
2. Sefydlu un awdurdod newydd – a gaiff ei alw'n *Awdurdod Addysg Drydyddol* – fel un awdurdod rheoleiddio, goruchwylio a chydgysylltu i'r sector ôl-orfodol.<sup>††</sup> Er mwyn cyflawni hyn:
  - Sefydlu awdurdod integredig newydd (yn lle CCAUC) gyda'r gallu, adnoddau a strwythur sefydliadol i lywio, goruchwylio a monitro newid

---

<sup>††</sup> Cyflwynir manylion am yr Awdurdod Addysg Drydyddol yn Atodiad B.



systemig a gwelliant parhaus drwy'r sector ôl-orfodol cyfan (caiff argymhellion manwl eu rhoi ar wahân);

- Bydd yr Awdurdod Addysg Drydyddol yn gweithio gyda sefydliadau addysg bellach a phrifysgolion i gyflawni ac ymateb i amcanion a blaenoriaethau cenedlaethol, ac arddel safbwynt cyfannol, gan sicrhau y caiff system addysg integredig a chydlynol ei chreu;
  - Bydd yr Awdurdod Addysg Drydyddol yn cadw awdurdod ac ymreolaeth i wobrwyo ymchwil, yn enwedig ymchwil sy'n cyfrannu at economi Cymru;
  - Bydd yr Awdurdod Addysg Drydyddol yn gyfrifol am fonitro arfer llywodraethu drwy'r system gyfan, prif gyfrifoldebau SABau a phrifysgolion a'r ffyrdd o sicrhau arfer llywodraethu da ac atebolrwydd llawn am y cyllid cyhoeddus a ddyrennir i'r sector;
  - Bydd yr Awdurdod Addysg Drydyddol yn gyfrifol am sicrhau ansawdd drwy'r system ôl-orfodol gyfan.
- Sefydlu Bwrdd Llywodraethu i'r Awdurdod Addysg Drydyddol sy'n cynnwys 12 o bobl ar y mwyaf, sy'n meddu ar y cydbwysedd priodol o sgiliau, profiad ac annibyniaeth i'w alluogi i gyflawni ei briod ddyletswyddau a chyfrifoldebau'n effeithiol;
    - Dylai dau unigolyn o leiaf fod yn arbenigwyr rhyngwladol a/neu feddu ar brofiad rhyngwladol sylweddol y tu hwnt i'r DU;
    - Dylai cynrychiolaeth gynnwys byd busnes a chymdeithas sifil.
  - Pennu rolau a swyddogaethau clir a phenodol i Fwrdd Gweithredol a Bwrdd yr Awdurdod Addysg Drydyddol, rhwng yr Awdurdod Addysg Drydyddol a Llywodraeth Cymru, a rhwng yr Awdurdod Addysg Drydyddol a'r sefydliadau;
    - Sefydlu cytundeb lefel gwasanaeth (CLG) rhwng Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Addysg Drydyddol gan nodi cyfrifoldebau clir i'r Awdurdod Addysg Drydyddol o ran rhaglen waith gytûn a deilliannau disgwylidig;
  - Penodi Prif Swyddog Gweithredol sydd â phrofiad lefel uwch, yn rhyngwladol os oes modd, i arwain a rheoli'r Awdurdod Addysg Drydyddol;
3. Rhoi anghenion dysgwyr wrth wraidd y system addysg, drwy sefydlu llwybrau dysgu a gyrfa clir a hyblyg. Er mwyn cyflawni hyn:
- Mabwysiadu ymagwedd gyfan tuag at addysg ôl-orfodol, o 16 oed ymlaen, sy'n gwerthfawrogi ac yn gwobrwyo "parch cydradd" rhwng llwybrau

galwedigaethol ac academaidd, boed hynny'n llawn amser neu'n rhan amser, ar gampws neu oddi ar gampws;

- Sicrhau bod ansawdd a rhagoriaeth wrth wraidd y broses o gynllunio a chyflawni'r rhaglen;
  - Sicrhau mwy o gyfranogiad a mynediad ymhlith pob oedran, rhyw a thalent, ac yn barhaus drwy gydol oes;
  - Gwella cysylltiadau rhwng cymwysterau a'r farchnad lafur drwy ganolbwyntio ar ffrydiau a llwybrau galwedigaethol a gyrfa a'u hatgyfnerthu o fewn ac ar draws darparwyr addysgol gwahanol, a chyda a rhwng rhannau gwahanol o'r farchnad lafur;
    - Dylid rhoi pwyslais ar gyflogadwyedd a llwyddiant gyrfaol yn y tymor hwy yn hytrach na chyflogaeth cyrchfan cyntaf.
  - Parhau i ehangu mynediad a chyfranogiad, gan gyflwyno mesurau i oresgyn rhagfarn gudd o ran rhyw, ethnigrwydd, hil a statws economaidd-gymdeithasol, ac ar adegau pontio yn y cylch addysg, e.e. dysgwyr 16-18 oed, dysgwyr dros 25 oed, dysgwyr/gweithwyr aeddfed hŷn, a merched ar ôl rhoi genedigaeth/gofal plant;
  - Rhoi'r systemau cymorth a'r llwybrau gyrfa angenrheidiol ar waith i sicrhau llif ddi-dor o dalent ymchwil, ar lefel meistr a doethuriaeth, sydd ei hangen i ddenu a chadw talent yng Nghymru, ac ysgogi arloesedd;
  - Gwella ansawdd y wybodaeth a'r cyngor sydd ar gael yn gyhoeddus ynglŷn â'r holl lwybrau dysgu a gyrfa, galwedigaethol ac academaidd, a'r holl sefydliadau, o oedran cynnar, er mwyn ategu dewis hyddysg i fyfyrwyr.
4. Dylai ymgysylltu dinesig fod yn rhan ganolog o genhadaeth greiddiol a dod yn ymrwymiad sefydliad cyfan **ym mhob** sefydliad ôl-orfodol. Er mwyn cyflawni hyn:
- Dylai pob sefydliad fynd i'r afael â'i holl gyfrifoldebau tuag at gymdeithas, gan gynnwys cymunedau lleol, busnes a menter a'r trydydd sector, ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol, fel y bo'n briodol yn unol â'u rolau a'u proffiliau gwahaniaethol;
  - Sicrhau bod hyrwyddo addysg sy'n gystadleuol yn fyd-eang a rhagoriaeth ymchwil wedi'i gydbwyso â chyfrifoldebau cymdeithasol ac economaidd am dwf ranbarthol cynaliadwy.
5. Sicrhau gwell cydbwysedd rhwng darpariaeth addysg ac ymchwil a arweinir gan gyflenwad a darpariaeth addysg ac ymchwil a arweinir gan y galw gan symud i ffwrdd oddi wrth system a ysgogir gan alw yn y farchnad i gyfuniad o reoleiddio a chyllid sy'n seiliedig ar gystadleuaeth. Er mwyn cyflawni hyn:
- Sefydlu fframwaith perfformiad sy'n cydnabod holl rychwant cyfraniad addysg ym mhob disgyblaeth/maes astudio sy'n gysylltiedig ag amcanion cymdeithasol ac economaidd cenedlaethol;

- Ystyried addasu cyllid yn seiliedig ar ffactorau megis lefel addysgol, disgyblaeth, ymchwil, cyfraniad rhanbarthol, cydweithrediad, llwybrau cymalu ar draws sefydliadau, ac ati;
    - Atgyfnerthu a dathlu amrywiaeth sefydliadol drwy broffilio sefydliadol gwell;
  - Atgyfnerthu atebolrwydd sefydliadol drwy gysylltu cyllid â pherfformiad a deilliannau dysgu, drwy ddefnyddio cytundebau a chompectau perfformiad;
  - Parhau i atgyfnerthu llywodraethu ac arweinyddiaeth sefydliadol tra'n parchu ymreolaeth sefydliadol.
6. Creu'r polisiau, y prosesau a'r arferion priodol i annog syniadaeth hirdymor a chydgyssylltiedig well ynglŷn ag anghenion a gofynion addysgol Cymru, yn awr ac yn y dyfodol. Er mwyn cyflawni hyn:
- Atgyfnerthu'r gallu a'r adnoddau sydd eu hangen i lunio polisi'n strategol, a hynny ar sail tystiolaeth, er mwyn cynnig dadansoddiad a chynngor gwrthrychol i Lywodraeth Cymru, sefydliadau addysgol, busnes a chyflogwyr, grwpiau cymdeithasol ehangach, ac ati.
    - Gwella'r broses o gasglu a dadansoddi data er mwyn ategu prosesau gwneud penderfyniadau, atebolrwydd, a dealltwriaeth y cyhoedd o gyfraniad addysg tuag at gymdeithas a'r economi;
  - Sefydlu'r ffordd o feincnodi arferion addysg a pherfformiad y system yn barhaus â chymheiriaid cenedlaethol a sefydliadol priodol ar gyfer y sector ôl-orfodol er mwyn gwella deilliannau i unigolion a chymdeithas yn barhaus;
  - Hyrwyddo secondiadau rhwng ac ar draws y sector – rhwng y weinyddiaeth, yr Awdurdod Addysg Drydyddol a sefydliadau – er mwyn gwella prosesau rhannu gwybodaeth ac arbenigedd;
  - Sefydlu Fforwm Addysgol, gan ddwyn ynghyd chwaraewyr allweddol o bob lefel o ddarpariaeth addysgol, o ddarpariaeth cyn ysgol i addysgu oedolion a dysgu gydol oes, ynghyd â rhanddeiliaid allweddol mewn cymdeithas, er mwyn datblygu polisi "addysg gyfan" a ffordd o gynllunio addysg er mwyn sicrhau canlyniadau cymdeithasol cynaliadwy a llwyddiannus.

## 6.2 Gweithredu materion y mae angen eu hystyried ymhellach

Wrth lunio'r argymhellion hyn, dylid ystyried y materion canlynol ymhellach:

- *Y drefn orau i'r Awdurdod Addysg Drydyddol newydd:* Bydd angen rhoi sylw pellach i'r ffordd y gellir symud o'r trefniadau llywodraethu presennol i system lle mae'r sector AB a'r sector AU wedi'u hintegreiddio'n un sefydliad cyfryngol rheoleiddio o ran y drefn orau a'r broses o sicrhau y gall hyn ddigwydd. Bydd

hyn yn gofyn am roi sylw i'r ffordd y mae'r cyfrifoldebau presennol am faterion gan gynnwys datblygu strategol, ansawdd monitro ariannol, apeliadau myfyrwyr, cyflog ac amodau, ymchwil ac arloesedd, ymgysylltu â'r cyhoedd, datblygu arweinyddiaeth ac ati, yn cael eu trin yn wahanol ar gyfer pob sector, yn cael eu trin o dan y trefniadau newydd.

- *Cynnwys y 6<sup>ed</sup> Dosbarth*: Dylid ystyried a ddylai addysg 6<sup>ed</sup> dosbarth, sydd ar hyn o bryd o fewn cylch gwaith addysg ôl-uwchradd, gael ei chynnwys yn yr Awdurdod Addysg Drydyddol neu'r Adran Addysg a Sgiliau fel rhan o'r agenda ysgolion. Dylai hyn gael ei gynnwys fel rhan o adolygiad ehangach o oedran gadael yr ysgol er mwyn cydnabod bod llwyddiant personol a chymdeithasol yn yr 21<sup>ain</sup> ganrif yn gofyn am lefel uwch o sgiliau a chymwyseddu;
- *Adolygiad Strategol o Ymchwil*: Nid yw trefniadau llywodraethu ymchwil wedi'u cynnwys yn argymhellion yr adroddiad hwn, er ei bod yn amlwg o'r cyfweiliadau, adroddiadau a materion sy'n codi yng ngweddill y DU ac yn rhyngwladol, fod hwn yn fater y mae angen rhoi sylw iddo ar unwaith.<sup>104</sup> Mae llawer o'r materion a godwyd o ran diffyg cydlyniaeth, cydweithrediad, màs critigol, a phwysau cystadleuol o ran cyllid a meincnodi rhyngwladol – sy'n berthnasol i ddarpariaeth addysgol – yn berthnasol i ymchwil. Mae addysg uwch yn chwarae rhan fawr mewn cymdeithas ac yn yr economi drwy ansawdd ei graddedigion a chynhyrchu gwybodaeth newydd. Ond, nid lefel y buddsoddiad yn unig sy'n bwysig; mae ansawdd, ym mhob ffordd y mae'n ymddangos, yn ffactor sylweddol. O ystyried pwysigrwydd strategol ymchwil, mae angen am werthusiad wedi'i dargedu o allu ac adnoddau ymchwil nag y bu'n bosibl yn yr adolygiad hwn;
- *Y gydberthynas rhwng y Llywodraeth a'r Sefydliad Cyfryngol*: Y sianel gyfathrebu draddodiadol rhwng y llywodraeth a CCAUC yw'r llythyr grantiau blynyddol sy'n nodi gofynion polisi ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a chyllid cysylltiedig. Yn y dyfodol, er mwyn crisialu'r materion cymhleth a chydbwysedd cyfrifoldebau yn llawn, dylid sefydlu Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) rhwng Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Addysg Drydyddol. Byddai hyn yn rhoi'r fframwaith ffurfiol ar gyfer y berthynas rhwng y llywodraeth a'r asiantaeth gyfryngol, a nodi cyfrifoldebau'r Awdurdod Addysg Drydyddol o ran rhaglen waith gytûn a deilliannau disgwylidiedig, ac atebolrwydd i'r Gweinidog.

## 7. Atodiad A: Cylch gorchwyl

Adolygiad o drefniadau goruchwylio addysg ôl-orfodol yng Nghymru, gan gyfeirio'n benodol at rôl a swyddogaeth Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn y dyfodol

A. Adolygu, dadansoddi a dogfennu'r trefniadau presennol ar gyfer goruchwylio addysg ôl-orfodol yng Nghymru, gan gynnwys:

- cyllid
- llywodraethu
- sicrhau ansawdd / safonau addysg a hyfforddiant,
- rheoli risg.

B. Cyngori ar effeithiolrwydd y trefniadau presennol ar gyfer goruchwylio addysg ôl-orfodol yng Nghymru drwy gyfeirio at wledydd eraill y DU, cymharwyr rhyngwladol perthnasol a thystiolaeth ymchwil.

C. Gwneud argymhellion ar gyfer goruchwylio addysg ôl-orfodol yng Nghymru yn y dyfodol, gan gyfeirio'n benodol at rôl Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'i ryngwyneb ag Estyn.

Ch. Nodi a oes angen deddfu neu drefniadau sefydliadol newydd neu ddiwygiedig o bosibl er mwyn datblygu'r trefniadau a gynigir yn y dyfodol yng ngoleuni'r gwerthusiad hwn.

## 8. Atodiad B: Awdurdod Addysg Drydyddol

### 8.1 Rôl a chyfrifoldebau'r Awdurdod Addysg Drydyddol

Dylid sefydlu'r Awdurdod Addysg Drydyddol fel un awdurdod rheoleiddio, goruchwyllo a chydlynu integredig ar gyfer y system ôl-orfodol gyfan yng Nghymru. Ei rôl yw rhoi arweiniad strategol a llywio'r system yn rhagweithiol er mwyn sicrhau system ôl-orfodol fwy integredig a chydlynol, gyda darparwyr amrywiol a chyflenwol, sy'n cydbwysu ymatebolrwydd i amcanion cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd cenedlaethol ag egwyddorion ymreolaeth sefydliadol a rhyddid academiaidd.

Dylai'r Awdurdod Addysg Drydyddol ddisodli CCAUC, a dylai fod ganddo'r gallu, yr adnoddau a'r strwythur sefydliadol i lywio, goruchwyllo a monitro newid systemig drwy'r sector ôl-addysgol gyfan, gwella a hyrwyddo ansawdd o ran addysgu ac ymchwil i bob dysgwr a chymdeithas, a chyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru i gymdeithas ac economi Cymru.

Bydd yr Awdurdod Addysg Drydyddol yn awdurdod unedig sy'n dwyn ynghyd addysg ôl-orfodol yn un sefydliad; ni ddylai fod yn sefydliad mantell ag is-asiantaethau cyfochrog.

Dylai fod gan yr Awdurdod Addysg Drydyddol y swyddogaethau canlynol ym maes addysgu a dysgu; ymchwil ac arloesedd; ymgysylltu dinesig a rhanbarthol:

- dyrannu adnoddau;
- sicrhau ac asesu ansawdd;
- monitro, gwerthuso a rheoli perfformiad a risg;
- rheoleiddio'r system ac achredu sefydliadau (cyhoeddus a phreifat);
- cynllunio, cydlynu a llywio strategol;
- cyngor polisi strategol.

Drwy fabwysiadu cyfrifoldebau o'r fath bydd yr Awdurdod Addysg Drydyddol yn gallu datblygu a chynnal rôl a safbwynt ar lefel facro drwy'r system ôl-uwchradd gyfan, gan sicrhau y gall gyflawni'n gyfannol dros Gymru, tra'n diogelu ymreolaeth sefydliadol. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am AB ac AU, dysgu seiliedig ar waith, ac addysg oedolion a chymunedol. Dylid ystyried ymhellach a ddylai addysg 6<sup>ed</sup> dosbarth fod yn rhan o gyfrifoldeb yr Awdurdod Addysg Drydyddol neu barhau i fod yn un o gyfrifoldebau'r Adran Addysg a Sgiliau fel rhan o'r agenda ysgolion.

Er bod gan yr Awdurdod Addysg Drydyddol gyfrifoldeb cyffredinol am y system ôl-orfodol, sefydliadau unigol sy'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn cael y canlyniadau angenrheidiol a'r effeithiau sy'n ofynnol gan gymdeithas.

Dylai'r Awdurdod Addysg Drydyddol fod yn gyfrifol am ddyrannu adnoddau, o fewn terfynau polisi y cytunir arnynt, ac am negodi proffiliau a chyfrifoldebau sefydliadol, a phennu pa weithgareddau y dylid eu cyllido. Dylai hefyd fod yn gyfrifol am sicrhau ansawdd ym maes addysgi, ymchwil ac ymgysylltu, ac am sicrhau bod gweithdrefnau

ar waith i sicrhau arfer llywodraethu da ac atebolrwydd llawn am y cyllid cyhoeddus a ddyrennir i'r sector. Er mai cyfrifoldeb y sefydliad, ar lefel sefydliadol, yw rheoli risg, mae gan yr Awdurdod Addysg Drydyddol gyfrifoldeb am sicrhau bod systemau o'r fath yn cael eu rhoi ar waith a'u bod y gweithredu'n effeithiol, yn unol â'i gyfrifoldeb am gynnal cofrestr risg i'r sector ar ran Llywodraeth Cymru.

Dylai'r Awdurdod Addysg Drydyddol weithio gydag asiantaethau eraill sydd â chyfrifoldebau uniongyrchol ac anuniongyrchol am addysg ôl-orfodol, a sicrhau eglurder ynglŷn â'r priod gyfrifoldebau a bod cydweithrediad effeithiol rhyngddynt o ran cyflawni amcanion cenedlaethol ar gyfer addysg ôl-orfodol ac ymchwil. Mae hyn yn cynnwys cydgysylltu ag asiantaethau a chydweithwyr yn system y DU, fel y bo'n briodol, a sicrhau bod system Cymru yn gymaradwy o ran ansawdd, perfformiad a chynhyrchiant ledled y DU ac yn rhyngwladol.

Dylai'r Awdurdod Addysg Drydyddol chwarae rôl allweddol o ran annog a hwyluso mwy o gydweithredu rhwng sefydliadau mewn rhannau gwahanol o'r system ôl-orfodol, yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol y tu hwnt i'r system addysg. Dylai hefyd chwarae rôl allweddol o ran datblygu a hwyluso safbwynt "addysg gyfan".

Mae gan yr Awdurdod Addysg Drydyddol gyfrifoldeb am safbwynt strategol a chydlynol yn y tymor hwy ynglŷn ag addysg ôl-orfodol, a rhagweld datblygiadau ym maes addysg ac ymchwil, a'u goblygiadau i gymdeithas ac economi Cymru. Felly, dylai gadw ymwybyddiaeth soffistigedig o dueddiadau rhyngwladol a'r gallu i gasglu, rheoli a dadansoddi data ansoddol a meintiol o'r system a sefydliadau unigol, yn ogystal â meincnodi perfformiad yn rhyngwladol.

Dylai'r Awdurdod Addysg Drydyddol fod yn atebol i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau am gyflawni ei swyddogaethau ar sail cytundeb lefel gwasanaeth (CLG) rhwng yr Awdurdod Addysg Drydyddol a Llywodraeth Cymru. Mae gan yr Awdurdod Addysg Drydyddol gyfrifoldeb am sicrhau bod y systemau priodol ar waith ac yn gweithredu'n effeithiol er mwyn galluogi'r system i gyflawni amcanion cenedlaethol. Er y bydd yr Awdurdod Addysg Drydyddol yn gweithredu polisi'r llywodraeth, a rhoi cyngor ffurfiol a chyfrinachol i'r llywodraeth, mae'n rhaid iddo hefyd weithredu ag annibyniaeth briodol.

## **8.2 Strwythur a threfniadaeth yr Awdurdod Addysg Drydyddol**

Dylid sefydlu'r *Awdurdod Addysg Drydyddol* fel corff newydd a noddir gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn gofyn am ddiwygio deddfwriaeth er mwyn sicrhau bod gan yr Awdurdod Addysg Drydyddol bwerau a dyletswyddau priodol i gyflawni ei holl swyddogaethau i'r safonau llywodraethu uchaf.

### **8.2.1 Bwrdd llywodraethu'r Awdurdod Addysg Drydyddol**

Dylai fod gan yr Awdurdod Addysg Drydyddol Fwrdd Llywodraethu a Bwrdd Gweithredol, gyda rhaniad clir rhwng pwerau a chyfrifoldebau, gyda'r cyntaf yn

cyflawni swyddogaeth strategol a'r olaf yn gyfrifol am redeg yr Awdurdod Addysg Drydyddol o ddydd i ddydd.

Yn yr un modd dylid rolau a chyfrifoldebau gael eu nodi'n glir rhwng yr Awdurdod Addysg Drydyddol a Llywodraeth Cymru. Dylid sefydlu cytundeb lefel gwasanaeth (CLG) rhwng Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Addysg Drydyddol sy'n nodi cyfrifoldebau clir i'r Awdurdod Addysg Drydyddol o ran rhaglen waith gytûn a deilliannau disgwylidig; rhoi eglurder ynglŷn ag agweddau strategol a gweithredol ar berthynas y sefydliadau; fframwaith ar gyfer darparu gwasanaethau; a threfniadau strwythuredig ar gyfer cyfathrebu (gan gynnwys cyfathrebu'n gyhoeddus), cyflwyno adroddiadau a chydgylltu.

Rôl Bwrdd Llywodraethu'r Awdurdod Addysg Drydyddol fydd rhoi arweiniad strategol i'r Awdurdod Addysg Drydyddol o fewn fframwaith o amcanion cenedlaethol ac adolygu perfformiad rheoli. Dylai pob aelod o'r bwrdd weithredu mewn ffordd foesegol ac er budd pennaf y bwrdd, a dylent osgoi achosion o wrthdaro buddiannau.

Dylai Bwrdd Llywodraethu'r Awdurdod Addysg Drydyddol gynnwys 12 o bobl ar y mwyaf, sy'n meddu ar y cydbwysedd priodol o sgiliau, profiad ac annibyniaeth i'w alluogi i gyflawni ei briod ddyletswyddau a chyfrifoldebau'n effeithiol. O ystyried hyd a lled y system ôl-orfodol a'r amrywiaeth o gyfrifoldebau, mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i aelodaeth y bwrdd.

Dylai fod gan o leiaf ddau aelod o'r bwrdd brofiad rhyngwladol a/neu ddod o'r tu allan i'r DU er mwyn cynnig profiadau ehangach. Byddai arbenigedd ym maes cyllid, risg a pholisi cyhoeddus yn fuddiol; gall academyddion rhyngwladol sy'n aelodau o'r Bwrdd Cyngori Academaidd gael eu hystyried fel aelodau o brif Fwrdd Llywodraethu'r Awdurdod Addysg Drydyddol.

Dylai Prif Swyddog Gweithredol yr Awdurdod Addysg Drydyddol fod yn aelod o'r Bwrdd yn rhinwedd ei swydd.

### **8.2.2 Bwrdd Cyngori Academaidd yr Awdurdod Addysg Drydyddol**

Ni ddylai unigolion a gyflogir yn uniongyrchol gan y sefydliadau a gyllidir fod yn aelodau o'r Bwrdd er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod yr adnodd gwerthfawr hwn o wybodaeth a phrofiad sefydliadol ar gael i Fwrdd Llywodraethu'r Awdurdod Addysg Drydyddol, dylid sefydlu Bwrdd Cyngori Academaidd.

Dylai'r Bwrdd Cyngori gynnwys 12 o academyddion a gweinyddwyr ar y mwyaf, gyda'r cydbwysedd priodol o sgiliau, profiad a gwybodaeth o bob disgyblaeth a maes astudio. Dylai fod o leiaf ddau aelod rhyngwladol o'r tu hwnt i'r DU.



### **8.2.3 Bwrdd Gweithredol yr Awdurdod Addysg Drydyddol**

O ystyried hyd a lled y system ôl-orfodol a'r amrywiaeth o gyfrifoldebau (ym maes addysgu a dysgu; ymchwil ac arloesedd; ymgysylltu dinesig a rhanbarthol), dylai strwythur, trefniadaeth a gweithrediadau'r Awdurdod Addysg Drydyddol adlewyrchu'r arbenigedd eang hwn a dealltwriaeth o rolau ac anghenion penodol y rhannau gwahanol o'r system.

Dylid penodi Prif Swyddog Gweithredol sydd â phrofiad lefel uwch, yn rhyngwladol os oes modd, i arwain a rheoli'r Awdurdod Addysg Drydyddol. Yn unol â hynny, mae angen ystyried y broses o benodi'r Prif Swyddog Gweithredol yn ofalus, ac yna benodi ei dîm/thîm, er mwyn sicrhau'r cydbwysedd priodol o sgiliau, profiad a gwybodaeth i gyflawni'r holl amrywiaeth eang o swyddogaethau.

Dylid ystyried hyd y penodiad.

## 9. Atodiad C. Profiadau rhyngwladol o awdurdodaethau cyfeirio

### 9.1 Y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon

#### 9.1.1 Lloegr

Mae addysg uwch yn Lloegr yn system unedol o brifysgol, y mae'r mwyafrif ohonynt yn sefydliadau cyhoeddus. Cafodd cyfrifoldeb gweinyddol am AU ei drosglwyddo yn 1992, gyda Chymru, Lloegr a'r Alban yn cael ei chyngor cyllido ei hun. O dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 terfynwyd y rhaniad deul rhwng prifysgolion a cholegau polytechnig, a chrëwyd strwythur unedol drwy droi 35 o sefydliadau polytechnig yn brifysgolion. Mae AB yn Lloegr yn cynnwys unrhyw astudiaeth ar ôl addysg uwchradd nad yw'n rhan o AU, megis prentisiaethau, addysg 14-19, a hyfforddiant am waith. Mae AB yn cynnwys elfen academiaidd (Safonau Uwch, y Fagloriaeth Ryngwladol), galwedigaethol a thechnegol, a gall hefyd fod yn llwybr i AU. Mae'n cynnwys tri math o gymwysterau technegol a chymhwysol i ddysgwyr 16-19 oed, o gyrsiau llythrennedd a rhifedd sylfaenol i ddiplomâu cenedlaethol uwch (cymwysterau HND).

Sefydlodd Deddf 1992 Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE) hefyd, fel corff cyhoeddus anadrannol a oedd yn atebol i'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau. Yn debyg i HEFCW a SFC, mae HEFCE yn ddarostyngedig i delerau ac amodau a bennir gan y Llywodraeth yn ei Llythyr Cylch Gwaith blynyddol. Mae'n llywio, yn datblygu ac yn gweithredu polisi'r Llywodraeth. "There is no overall control of the system, and indeed the system is split both horizontally (between different government departments) and vertically (between different layers which have different funding responsibilities)."<sup>105</sup>

Bu HEFCE yn olynydd i Gyngor Cyllido'r Prifysgolion. O ran AB, o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, symudwyd colegau o reolaeth Llywodraeth Leol, a sefydlwyd Cyngor Cyllido Addysg Bellach Lloegr (FEFCE), a ddisodlwyd yn ddiweddarach gan y Cyngor Dysgu a Sgiliau yn 2000, a gafodd ei ddiddymu yn ei dro yn 2010. Yna daeth AB yn Lloegr o dan adain Asiantaeth Dysgu Pobl Ifanc Lloegr (YPLA) a ddiddymwyd yn ddiweddarach yn 2012. Yr Asiantaeth Cyllido Addysg, (EFA), sy'n gyfrifol am AB bellach, sef un o asiantaethau gweithredol yr Adran Addysg ac mae'n cyllido addysg a hyfforddiant dysgwyr 16-18 oed yn y chweched dosbarth ac mewn colegau AB (sy'n cynnwys colegau chweched dosbarth).<sup>106</sup> Mae'r Asiantaeth Cyllido Sgiliau (SFA) yn un o asiantaethau gweithredol yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau ac mae'n cyllido addysg a hyfforddiant pobl ifanc ac oedolion (19 a hŷn) mewn colegau AB (sy'n cynnwys colegau chweched dosbarth), sefydliadau hyfforddiant preifat ac ymhlith cyflogwyr (gan gynnwys prentisiaethau). Mae'n cyllido nifer fach o gymwysterau lefel uwch.

Yn 2012 cyflwynodd y Llywodraeth newidiadau i'r ffordd roedd AU yn cael ei chyllido. Cyllidir y mwyafrif o brifysgolion yn Lloegr gan y Llywodraeth (ond ceir sector preifat bach), ac fe'u cyllidir yn uniongyrchol hefyd gan ffioedd myfyrwyr. Ers 2015-16 mae cyfanswm cyllid y Lywodraeth ar gyfer AU yn Lloegr yn dod drwy dri llwybr<sup>107</sup>: (i) benthyciadau ffioedd dysgu a grantiau cynhaliaeth a benthyciadau i fyfyrwyr, (ii) grantiau i brifysgolion a cholegau gan HEFCE, a (iii) grantiau i SAUau a myfyrwyr gan gyrrff cyhoeddus eraill. Yn sgil cyflwyno'r system ffioedd dysgu a benthyciadau, drwy'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, newidiwyd rôl HEFCE o fod yn gyllidwr uniongyrchol SAUau i fod yn brif reoleiddiwr yn Lloegr.

Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am fonitro a chynghori ar safonau ac ansawdd ym maes AU y DU. Caiff safonau academaidd mewn AU eu pennu a'u cynnal gan SAUau eu hunain drwy ddefnyddio nifer o ddulliau a strwythurau sicrhau ansawdd. Mae QAA yn disgrifio'r rhestr o gymwysterau a ddyfernir gan SAUau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch, sydd hefyd yn cydweddu â'r Fframwaith Cymwysterau ar gyfer yr Ardal Addysg Uwch Ewropeaidd (QF-EHEA), yn unol â phroses Bologna.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd newidiadau sylweddol ym maes AU yn Lloegr. Mae papur gwyrdd diweddar y Llywodraeth, *Fulfilling our Potential: Teaching Excellence, Social Mobility and Student Choice* (2015),<sup>108</sup> yn cynnig trosglwyddo swyddogaethau HEFCE i gyrrff eraill, gan gynnwys corff cyhoeddus hyd braich o'r enw y Swyddfa i Fyfyrwyr (OfS) a fydd yn gyfrifol am y canlynol: "i) operating the entry gateway; ii) assuring baseline quality; iii) running the TEF [Teaching Excellence Framework]; iv) collecting and providing information; v) widening access and success for disadvantaged students; vi) allocating grant funding (depending on which of the two options described in paras 16 and 17 is adopted); vii) ensuring student protection; viii) promoting the student interest; ix) ensuring value for money for students and the taxpayer; x) assuring financial sustainability, management and good governance."<sup>109</sup> Gallai'r cyfrifoldeb am gyllid ymchwil ar sail ansawdd (QR) gael ei drosglwyddo i uwch gyngor ymchwil newydd, fel y'i cynigir yn *Ensuring a Successful UK Research Endeavour*.<sup>110</sup>

### 9.1.2 Gogledd Iwerddon

Yr Adran Cyflogaeth a Dysgu<sup>111</sup> (DEL, a elwid gynt yn yr Adran Addysg Uwch ac Addysg Bellach, Hyfforddiant a Chyflogaeth (DHFETE) tan 2001), sef un o gyrrff Gweinyddiaeth Gogledd Iwerddon, sy'n gyfrifol am AB ac AU. Mae DEL yn darparu cyllid i'r tair prifysgol (y Brifysgol Agored, Prifysgol y Frenhines, Belfast, a Phrifysgol Ulster) a'r colegau a'r campysau sy'n rhan ohonynt. Mae DEL hefyd yn cyllido'r chwe choleg AB rhanbarthol. Mewn gwrthgyferbyniad â gwledydd eraill y Deyrnas Unedig, mae'r adran yn cyllido prifysgolion yn uniongyrchol, ac nid oes unrhyw sefydliad clustogi rhwng SAUau a SABau ar y naill law, a'r Llywodraeth ar y llall. Mae DEL yn

cyflawni rôl y cyngor cyllido ac adran Llywodraeth. Mae'r colegau AB yn gyrrff cyhoeddus anadrannol, sydd â chyfrifoldeb rheoli yn nwylo corff llywodraethu pob coleg unigol. Mewn gwrthgyferbyniad, mae DEL yn gofalu am ddysgwyr 16-19 oed ac eithrio'r myfyrwyr hynny yn y 6<sup>ed</sup> dosbarth, y gofelir amdanynt gan yr Adran Addysg. Gofelir gan y cohort hwn o fyfyrwyr gan y ddwy adran i bob diben.

Fel cangen weinyddol Cynulliad Gogledd Iwerddon, dim ond dau o gyfrifoldebau datganoledig y Weithrediaeth yw AB ac AU. Ar ôl yr Adolygiad Annibynnol o Bolisi Economaidd yn 2009,<sup>112</sup> awgrymwyd y byddai DEL yn cael ei diddymu, ac y byddai ei gweithgareddau a'i chyfrifoldebau yn cael eu rhannu rhwng yr Adran Addysg (DE) a'r Adran Menter, Masnach a Buddsoddi (DETI). Cymeradwywyd hyn yn 2012,<sup>113</sup> ond ym mis Rhagfyr 2015, roedd DEL yn dal i fod yn weithredol. Mae DEL yn atebol yn uniongyrchol i'r Gweinidog Cyflogaeth a Dysgu

Sefydliadau ymreolaethol yw SAUau, sy'n gyfrifol am y ffordd y maent yn defnyddio cyllid, ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r dyraniadau hyn wedi cael eu gwneud yng nghyd-destun nodau penodol, megis: gwella ymchwil, cefnogi cynaliadwyedd hirdymor, cynyddu cyfranogiad ac ehangu mynediad, bod yn fwy ymatebol i fyd busnes a'r economi, ac ati. Yn ogystal â chyllido SAUau, mae DEL yn gyfrifol am gyllid i fyfyrwyr (benthyciadau, grantiau, dyfarndaliadau i ôl-raddedigion, a lwfansau cynhaliaeth).

Mae gan DEL gyfrifoldeb statudol am asesu ansawdd y SAUau y mae'n eu cyllido drwy ymgysylltu a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA). Yn debyg i weithgareddau QAA yng ngweddill y Deyrnas Unedig, mae'n gyfrifol am adolygu ansawdd pob SAU a SAB a ariennir drwy arian cyhoeddus. Mae DEL yn ariannu QAA i adolygu darpariaeth AU yng Ngogledd Iwerddon drwy ddefnyddio dull yr Adolygiad o Addysg Uwch (HER).<sup>114</sup> Ar hyn o bryd mae DEL yn gweithio ar fframwaith Sicrhau Ansawdd unigol ar gyfer pob sefydliad sy'n darparu cyrsiau AU erbyn 2016. Arolygiaeth addysg a hyfforddiant DE sy'n gyfrifol am asesu ansawdd colegau AB islaw lefelau cymwysterau AU mewn perthynas ag addysgu a dysgu, yn hytrach na DEL.

Drwy ei changen polisi AU mae DEL yn datblygu, yn cyfleu ac yn gwerthuso polisi AU ar gyfer Gogledd Iwerddon, mewn ymgynghoriad a SAUau eraill yn ogystal â rhanbarthau a chyrrff eraill yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon.<sup>115</sup> Mae meysydd polisi y mae'n ymdrin â hwy yn cynnwys addysgu a dysgu, cymorth i fyfyrwyr a darparwyr amgen, cyllid addysgu, niferoedd myfyrwyr, a gwybodaeth arall ynglŷn ag AU. Mae DEL hefyd yn casglu ac yn lledaenu ystadegau a data eraill sy'n ymwneud ag AU, er mwyn sicrhau bod data i ddarparu fyfyrwyr a rhanddeiliaid eraill o ran SAUau a chysiau o safon uchel, yn amserol ac yn gywir. Ym mis Gorffennaf 2015, lansiodd DEL ddogfen ymgynghori ar gyfer datblygu strategaeth AB i Ogledd Iwerddon.<sup>116</sup>

### 9.1.3 Yr Alban

Mae gan yr Alban 19 o SAUau, y mae 14 ohonynt yn brifysgolion â champysau, a phum SAU arall sydd â phwerau dyfarnu graddau (un brifysgol dysgu o bell, sefydliad partneriaeth addysgol yn Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban, un ysgol gelf, un conservatoire a choleg amaethyddol). Yn sgil Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, cafodd yr Alban awdurdod dros ei system addysg ei hun, a ariennir gan Lywodraeth yr Alban. Mae gan yr Alban 25 o golegau AB hefyd, y mae llawer ohonynt yn golegau sydd wedi uno â cholegau AB eraill. Yn ogystal â hyn, daeth 13 o golegau AB yn rhai cyswllt yn 2001, ac wedyn cawsant eu ffedereiddio'n golegau cyfansoddiadol Prifysgol Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban pan gafodd statws prifysgol yn 2011.<sup>117</sup>

Daw addysg drydyddol o dan awdurdod Cyngor Cyllido'r Alban (SPC), sef un o gyrff cyhoeddus anadrannol Llywodraeth yr Alban, a sefydlwyd drwy Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (yr Alban) 2005.<sup>118</sup> O dan y Ddeddf hon unwyd cynghorau cyllido a fu ar wahân yn flaenorol, Cyngor Cyllido Addysg Bellach yr Alban a Chyngor Cyllido Addysg Uwch yr Alban. Bu uno cynghorau cyllido yn rhan o nod ehangach cyd-drefnu a chydlynu ym maes addysg lefel drydyddol fel system gyfan, gan roi AB ac AU o dan un corff. Bwriadwyd i'r uno hefyd gyflwyno parch cydradd rhwng y ddau sector.

Prif rôl yr SFC yw dosbarthu cyllid i golegau a phrifysgol, gan ddsbarthu cyllid i sefydliadau unigol ar gyfer addysgu, ymchwil a gweithgareddau cysylltiedig. Mae'n rhoi cyngor i weinidogion yr Alban ynglŷn ag anghenion AU ac AB o ran polisi a chyllid. Mae'r SFC hefyd yn gweithredu polisiau'r Llywodraeth, ac yn sgil cyflwyno "cytundebau deilliannau" â cholegau a phrifysgolion yn 2012-2013, bu ffocws ar sicrhau gwell deilliannau yn unol â strategaeth economaidd Llywodraeth yr Alban.<sup>119</sup>

Cyllidir prifysgolion yr Alban yn uniongyrchol gan Lywodraeth yr Alban drwy'r SFC. Mae gan brifysgolion ymreolaeth lawn ynglŷn â sut y maent yn dyrannu'r arian hwn yn fewnol. Ar ddechrau 2008, cyflwynodd yr SFC y Grant Rhagoriaeth Ymchwil yn lle'r Prif Grant Ansawdd Ymchwil a Datblygu Ymchwil (REG) 2009-10, drwy ddefnyddio canlyniadau RAE. O dan system gymorth ddeuol, mae cynghorau ymchwil y DU yn rhoi grantiau am brosiectau a rhaglenni penodol, tra bod yr SFC yn darparu arian grant bloc i brifysgolion er mwyn cynnal ymchwil o'u dewis eu hunain.<sup>120</sup>

Ni chodir ffioedd myfyrwyr ar fyfyrwyr sy'n hanu o'r Alban neu'r rhai sy'n byw fel arfer yn yr Undeb Ewropeaidd ac sy'n astudio ar gyfer eu gradd israddedig gyntaf. Codir ffioedd dysgu ar fyfyrwyr o wledydd eraill y DU. Telir ffioedd myfyrwyr i fyfyrwyr o'r Alban a'r UE yn uniongyrchol i golegau a phrifysgolion gan Asiantaeth Dyfarndaliadau Myfyrwyr yr Alban (SAAS).<sup>121</sup> Mae SAAS hefyd yn darparu data i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC), sef sefydliad nid er elw o dan berchenogaeth y llywodraeth a sefydlwyd yn 1989 er mwyn rhoi benthyciadau a grantiau i fyfyrwyr mewn prifysgolion a cholegau yn y DU. Mae Llywodraeth yr Alban yn talu ffioedd dysgu ar gyfer pob math o AB ac AU, p'un a yw'r cwrs yn un llawn amser, un rhan-amser neu'n un dysgu o bell.

Fel yn achos Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae QAA yr Alban (sy'n rhan o QAA ac sydd â chyfrifoldeb datganoledig am Sicrhau Ansawdd yn yr Alban) yn disgrifio'r rhestr o gymwysterau a ddyfernir gan SAUau yn y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch (FHEQ), sydd hefyd yn cydweddu â'r Fframwaith Cymwysterau ar gyfer yr Ardal Addysg Uwch Ewropeaidd (QF-EHEA), yn unol â phroses Bologna.<sup>122</sup> Mae dull gweithredu QAA yr Alban wedi cael ei ddatblygu gyda Gweithgor Ansawdd y Prifysgolion (UQWG), cyrff cenedlaethol eraill, megis Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban ac Education Scotland. Mae gan QAA yr Alban yr un cyfrifoldebau ag QAA ond gyda nodwedd ychwanegol o'r hyn a elwir yn "themâu ychwanegu", a ddatblygwyd yn 2003 ac sy'n cael eu cydlynu gan UQWG a sefydliadau eraill sy'n rhanddeiliad gan gynnwys QAA yr Alban<sup>123</sup>. Bwriad y themâu ychwanegu yw gwella profiadau dysgu myfyrwyr, yn hytrach na mynd i'r afael â materion cydymffurfiaeth i SAUau yn unig. Y thema ychwanegu fwyaf diweddar yw "cyfnodau pontio myfyrwyr" a fydd yn para am dair blwyddyn academiaidd.

Mae'r cyfrifoldeb am bolisi AU yn yr Alban wedi'i rannu rhwng sefydliadau yn yr Alban ei hun a rhai y tu allan i'r Alban. Y maes lle y ceir y gorgyffwrdd polisi amlycaf yw ymchwil, gyda'r Alban yn rhan o'r RAE a REF. Mae datganoli wedi rhoi pŵer sylweddol i Lywodraeth yr Alban wneud ei phenderfyniadau polisi ei hun. Un datblygiad diweddar sylweddol yn hyn o beth yw'r Bil Llywodraethu Addysg Uwch (yr Alban), a gyflwynwyd ym mis Mehefin 2015. Mae hwn yn cynnig newid trefniadau llywodraethu prifysgolion y wlad, gan gynnwys trefniadau ar gyfer penodi rheithoriaid a chyfansoddiad byrddau llywodraethu ac academiaidd.

#### **9.1.4 Gweriniaeth Iwerddon**

Mae system AU gyhoeddus Gweriniaeth Iwerddon yn cynnwys saith prifysgol, 14 o sefydliadau technoleg a saith coleg addysg – mae'r olaf wrthi'n cael eu huno â'r prifysgolion ar hyn o bryd fel rhan o ymarfer ailstrwythuro ehangach yn y sector addysg uwch.<sup>124</sup> Yr Adran Addysg a Sgiliau (DES) yw adran y Llywodraeth sy'n gyfrifol am bob agwedd ar addysg a hyfforddiant yn Iwerddon.<sup>125</sup> Mae asiantaethau eraill, megis Science Foundation Ireland, Enterprise Ireland, a'r Awdurdod Datblygu Diwydiannol yn chwarae rôl o ran ymchwil o dan yr Adran Menter, Swyddi ac Arloesedd. Mae DES yn cydlynu AU drwy'r Awdurdod Addysg Uwch (HEA).<sup>126</sup>

Sefydlwyd yr HEA yn 1968 fel sefydliad cyfryngol rhwng prifysgolion a'r wladwriaeth, ac mae'n gorff cynllunio a datblygu statudol ar gyfer AU ac ymchwil. Er nad oedd yn goruchwyllo'r sefydliadau technoleg yn wreiddiol, ymgwymerodd â'r swyddogaeth hon oddi wrth y DES yn 2004. Mae'r HEA yn atebol i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, ac mae'n arfer goruchwyliaeth ganolog o'r system AU. Mae gan yr HEA swyddogaeth datblygu polisi, a swyddogaeth dadansoddi data a rheoli gwybodaeth, y mae'n arfer y naill a'r llall mewn perthynas â chynghori'r llywodraeth.

Mae AB yn Iwerddon yn digwydd ar ôl cwblhau addysg ail lefel, fel arfer yn 18 oed, ac nid ystyriwyd ei bod ar wahân i'r system AU. Fel y cyfryw, nid yw wedi'i dynodi i'r HEA,

ond, yn hytrach, fe'i gweinyddir yn uniongyrchol gan 16 o fyrddau addysg a hyfforddiant a SOLAS, sef yr awdurdod AB a hyfforddiant. Sefydlwyd y byrddau addysg a hyfforddiant drwy Ddeddf Byrddau Addysg a Hyfforddiant (2013), a ddisodlodd y 33 o bwyllgorau addysg alwedigaethol blaenorol. Sefydlwyd SOLAS yn 2013 fel corff rheoli drwy'r Ddeddf Addysg Bellach a Hyfforddiant, gan ddisodli FAS a oedd yn ddarparwr gwasanaethau. Bwriedir i SOLAS arwain proses rheoli newid integreiddio SABau â rhaglenni, yn ogystal â chydlynu a rheoli cyllid a pherfformiad y rhaglenni hyn, ac arwain y broses o foderneiddio rhaglenni o'r fath, gan gynnwys ehangu prentisiaethau, yn unol ag anghenion y farchnad lafur, gweithredu llafur, a dysgu gydol oes.<sup>127</sup>

Darperir cyllid trysorlys ar gyfer AU drwy fodel arian grant rheolaidd (RGAM), a ddyrennir drwy'r HEA, sydd â thair prif elfen: grant rheolaidd blynyddol a ddyrennir i bob SAU cyhoeddus drwy fformiwlâu penodol yn seiliedig ar niferoedd myfyrwyr a'u pynciau; swm bach o gyllid ar sail perfformiad (wedi'i gyflwyno'n raddol ers 2014); a chyllid wedi'i dargedu/strategol sy'n cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol ac y gellir ei ddyrannu i SAUau ar sail gystadleuol. Mae myfyrwyr hefyd yn talu tâl cyfraniad myfyrwyr. Yn y dyfodol, caiff targedau eu cyd-drafod a'u pennu drwy broses y Deialog Strategol ar gyfer pob sefydliad yn unol â'i genhadaeth. Mae gweithgor a benodwyd gan y llywodraeth wrthi'n ystyried gofynion cyllido hirdymor y sector AU yn lwerddon.<sup>128</sup> Mae'n debygol y caiff cynllun benthyciadau ar sail incwm ei argymhell, ochr yn ochr â rhaglen grantiau estynedig.

Asiantaeth allanol yw Quality and Qualifications Ireland (QQI), y mae ei bwrdd wedi'i benodi gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, ac mae'n gyfrifol am sicrhau effeithiolrwydd trefniadau sicrhau ansawdd mewnol SAUau lwerddon drwy waith monitro ac adolygiadau allanol.<sup>129</sup> Mae QQI yn gweinyddu'r fframwaith cymwysterau cenedlaethol (NFQ). Mae QQI hefyd yn gyfrifol am sicrhau ansawdd ym maes AB ac AU, ac mae'n cyhoeddi canlyniadau'r adolygiadau allanol o'r ddau sector hyn y mae'n eu cynnal.

Yn 2011, cyhoeddwyd y *National Strategy for Higher Education to 2030*<sup>130</sup> fel ffordd ymlaen ar gyfer dyfodol y sector: system fwy hyblyg, gyda mwy o ddewis o ddarpariaethau a dulliau dysgu ar gyfer cohort cynyddol amrywiol o fyfyrwyr; gwelliannau yn ansawdd profiad myfyrwyr, ansawdd addysgu a dysgu a pherthnasedd deilliannau dysgu; sicrhau bod AU yn cysylltu'n fwy effeithiol ag anghenion cymdeithasol, economaidd a menter ehangach drwy ei staff, ansawdd ei graddedigion, perthnasedd ei rhaglenni, ansawdd ei hymchwil a'i gallu i droi hynny yn swyddi gwerth uchel ac yn fuddiannau gwirioneddol i gymdeithas. Rhoddwyd pwyslais ar ailalinio'r sector â blaenoriaethau cenedlaethol, ffurfio clystyrau rhanbarthol, cyflwyno compactau perfformiad a deialog strategol, a chynigion ar gyfer prifysgolion technolegol. Cafodd yr HEA y cyfrifoldeb o arwain y broses o ad-drefnu'r system AU yn sgil yr argymhellion a wnaed yn y Strategaeth Genedlaethol.

Yn 2014 cyhoeddwyd *Further Education and Training Strategy 2014-2019*, ar ôl sefydlu'r byrddau a'r sefydliad ar gyfer AB yn 2013. Yn yr un modd, gwnaeth yr adroddiad hwn gysoni'r system AB â'r agenda ddiwygio ym maes AU, gan weld AB fel

elfen ganolog o ddarparu sgiliau ar gyfer twf economaidd a chyflogaeth, yn ogystal â swyddogaethau eraill megis ysgogi cynhwysiant cymdeithasol a lleihau'r perygl o ddiweithdra.

## 9.2 Awdurdodaethau eraill

### 9.2.1 Alberta, Canada

Yng Nghanaada, mae'r cyfrifoldeb am addysg bellach ac uwch ar lefel talaith a thiriogaeth. Mae gan ddeddfwrfa Alberta yr awdurdod dros ei sector, sy'n cynnwys 26 o sefydliadau ôl-uwchradd a ariennir drwy arian cyhoeddus, a sector preifat.<sup>131</sup> Mae'r sector cyhoeddus wedi'i gategoreiddio gan lywodraeth Alberta yn chwe math o sefydliad, sef: sefydliadau academaidd ac ymchwil cyfun, sefydliadau bagloriaeth ac astudiaethau cymhwysol, sefydliadau polytechnig, sefydliadau cymunedol cyfun, sefydliadau academaidd annibynnol, a sefydliadau celfyddydau a diwylliant arbenigol.<sup>132</sup> Mae gan y chwe math hyn o sefydliad (y gellid eu categoreiddio'n fwy cyffredinol yn brifysgolion, yn golegau ac yn sefydliadau technegol mewn gwledydd eraill) fandadau clir<sup>133</sup> ynglŷn â'u priodolau, o ran cyfeiriad rhaglenni, rhanbarth a grŵp cleient a wasanaethir yn unol â'r *Roles and Mandates Policy Framework*, a amlinellwyd yn 2007.<sup>134</sup> Mae'r sefydliadau yn cynnig ystod o 17 o gymwysterau o dystysgrif i astudiaethau doethuriaeth, yn unol â'u mandad.<sup>135</sup> Ceir nifer o ddarparwyr hyfforddiant hefyd sy'n darparu prentisiaethau a hyfforddiant galwedigaethol, sy'n cyfuno hyfforddiant mewn swydd â hyfforddiant mewn sefydliad.<sup>136</sup>

Mae'r llywodraeth daleithiol, drwy'r Weinyddiaeth Efyddiau Uwch (MOAE) yn gyfrifol am addysg ôl-uwchradd, drwy Ddeddf Dysgu Ôl-uwchradd (PSLA) 2004, a wnaeth gyfuno a diweddarau pedwar darn ar wahân o ddeddfwriaeth a arferai lywodraethu sefydliadau Alberta a ariennir drwy arian cyhoeddus.<sup>137</sup> Rôl y weinyddiaeth yw darparu goruchwyliaeth ac arweinyddiaeth, hwyluso partneriaethau, a gweithio gyda rhanddeiliaid ôl-uwchradd.

Mae AU wedi'i llywodraethu drwy gysyniad Campus Alberta, a grëwyd yn 2002 (ac a hyrwyddwyd yn ffurfiol yn 2004 gyda'r PSLA) gan y llywodraeth daleithiol i ffurfioli ac annog cydweithrediad rhwng y 26 o sefydliadau a ariennir drwy arian cyhoeddus yn Alberta. Mae'r bartneriaeth hon yn amlinellu nifer o drefniadau, megis: proses drosglwyddo hyblyg rhwng sefydliadau (a weinyddir drwy TransferAlberta), colegau a sefydliadau cymunedol yn cydweithio i asesu a diwallu anghenion dysgu lleol, dysgu ar-lein a gynigir gan y 26 o sefydliadau a ariennir drwy arian cyhoeddus drwy eCampusAlberta, cwricwlwm taleithiol cyffredin a ddatblygwyd gan ddiwydiant sy'n galluogi prentisiaid i ymgymryd ag unrhyw gyfnod o hyfforddiant ôl-uwchradd yn unrhyw un o sefydliadau ôl-uwchradd Alberta, a cheisiadau wedi'u cydgysylltu i unrhyw un o sefydliadau ôl-uwchradd cyhoeddus Alberta a throsglwyddo trawsgrifiadau academaidd yn electronig (y cyfan drwy ApplyAlberta).<sup>138</sup> At hynny, ceir Bwrdd Prentisiaethau a Hyfforddiant Diwydiant Alberta, sy'n goruchwyllo'r system



prentisiaethau a hyfforddiant diwydiant drwy roi cyngor ac argymhellion i'r Gweinidog ar bob mater sy'n ymwneud â hyfforddiant ac ardystio unigolion yn y gwahanol grefftau a galwedigaethau dynodedig, yn ogystal ag ystyried anghenion marchnad lafur Alberta.

Cyllidir system ôl-uwchradd Alberta drwy'r MOAE o dan y PSLA. Gellir dyrannu mathau gwahanol o gyllid i'r 26 o sefydliadau a ariennir drwy arian cyhoeddus yn y dalaith, yn unol â'u mandad, a hefyd eu statws fel sefydliadau cyhoeddus neu annibynnol. Y mathau hyn o gyllid yw: Cronfa Mynediad i'r Dyfodol, prosiectau cyfalaf, grantiau gweithredu, cymorth ymchwil, ac adnoddau ar gyfer sefydliadau partner. Gall sefydliadau hefyd gynhyrchu refeniw iddynt hwy eu hunain drwy ffioedd dysgu a ffioedd eraill a godir ar fyfyrwyr, a ffrydiau eraill megis arian ymchwil nawdd gan asiantaethau taleithiol a ffederal a diwydiant preifat, dyngarwch ac ati.<sup>139</sup> Mae ffioedd dysgu yn rhan o egwyddor rhannu cost Alberta, sy'n cynnwys cymorth ariannol drwy fenthyciadau ad-daladwy ac anad-daladwy. Er y gall sefydliadau Alberta gynhyrchu refeniw o ffioedd dysgu myfyrwyr, caiff hyn ei reoleiddio drwy reoleiddio ffioedd dysgu PSLA sy'n pennu'r lefel y gellir codi ffioedd o'r fath.

Mae Cyngor Ansawdd Campus Alberta (CAQC),<sup>140</sup> a sefydlwyd yn 2004 drwy'r PSLA, yn asiantaeth sicrhau ansawdd hyd braich sy'n gwneud argymhellion i'r Gweinidog ynglŷn â cheisiadau gan sefydliadau sydd am gynnig rhaglenni gradd newydd yn Alberta o dan delerau'r PSLA a'i threfniadau rheoleiddio Rhaglenni Astudio. Ac eithrio graddau mewn Diwinyddiaeth, mae'n rhaid i bob gradd a gynigir yn Alberta gael ei chymeradwyo gan y Gweinidog.

### 9.2.2 Awstralia

Mae sector AU Australia yn cynnwys 172 o ddarparwyr cofrestredig.<sup>141</sup> O'r rhain, mae 37 o brifysgolion Awstraliaidd cyhoeddus, tair prifysgol Awstraliaidd breifat, un brifysgol breifat arbenigol, a dwy brifysgol dramor, y mae pob un ohonynt yn awdurdodau hunanachredu (SAA). Mae'r 129 o sefydliadau eraill yn sefydliadau preifat nad ydynt yn hunanachredu (a elwir hefyd yn ddarparwyr AU nad ydynt yn brifysgolion neu NUHEP<sup>142</sup>).

Mae AB wedi'i grwpio o dan y pennawd AHG, a ddarperir gan sefydliadau Technegol ac Addysg Bellach (TAFE) o eiddo'r llywodraeth a cholegau preifat, ond gall rhai prifysgolion hefyd gynnig cyrsiau AHG. Mae AHG yn cwmpasu cyrsiau o dystysgrifau a diplomâu amrywiol i gyrsiau iaith Saesneg. Gall cyrsiau AHG yn aml arwain at gyrsiau AU megis gradd baglor, am fod cyrsiau AHG ar lefel tystysgrifau IV, diploma a diploma uwch gynnig llwybr i'r sector AU i fyfyrwyr. Yn ogystal â hyn, gall cyrsiau AHG hefyd roi credyd tuag at rai cyrsiau AU, fel y gall myfyrwyr sy'n graddio gyda diploma gael hyd at ddau neu dri semester o gredyd tuag at radd baglor gysylltiedig.

Mae'r gwaith o lywodraethu AU yn Awstralia wedi'i rannu rhwng Llywodraeth Awstralia, y Llywodraethau Taleithiol a Thiriogaethol, a'r sefydliadau eu hunain. Mae

gan sefydliadau berthynas hefyd â'r Asiantaeth Ansawdd a Safonau Addysg Drydyddol (TEQSA), a gofynion adrodd i Archwilwyr Cyffredinol yn eu hawdurdodaethau. At hynny, mae sefydliadau yn atebol i ddwy brif weinyddiaeth ffederal ac mae ganddynt berthynas uniongyrchol â'r Adran Iechyd a Heneiddio yn ogystal â rhyngweithio â sawl gweinyddiaeth arall. Darperir AHG drwy rwydwaith o wyth llywodraeth daleithiol a thiriogaethol a Llywodraeth Awstralia, ynghyd â darparwyr hyfforddiant diwydiant, cyhoeddus a phreifat.<sup>143</sup>

Mae AHG yn system a reoleir gan y taleithiau, gyda COAG, cyfarfod y gweinidogion taleithiol a thiriogaethol, sydd â goruchwyliaeth gyffredinol ond heb unrhyw bwerau gwneud penderfyniadau felly mae gan daleithiau bob rhyddid i ddilyn penderfyniadau a wneir yno ai peidio; nid yw Victoria na Gorllewin Awstralia wedi ymrwymo i'r trefniadau rheoleiddio presennol, er enghraifft. Hynny yw, caiff ei reoli a'i ariannu ar lefel y dalaith neu'r diriogaeth ac mae'r llywodraeth ffederal yn darparu rhywfaint o gyllid amodol, sy'n cael ei dargedu'n aml, ar sail cytundebau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daleithiau weithredu mewn ffyrdd penodol.

Llywodraeth Awstralia sy'n cyllido'r rhan fwyaf o AU, drwy daliadau grant a benthyciadau i fyfyrwyr. Ers 2012, mae prifysgolion cyhoeddus yn gallu cynnig lleoedd i niferoedd digyfngiad o fyfyrwyr mewn gradd baglor a gefnogir gan y Gymanwlad (CSPs), ac eithrio ar gyfer meddygaeth, drwy gynllun benthyciadau ar sail incwm.

TEQSA yw'r corff cenedlaethol ar gyfer rheoleidio a sicrhau ansawdd AU, ar gyfer prifysgolion cyhoeddus a phreifat, canghennau Awstraliaidd o brifysgolion dramor, a darparwyr AU eraill sy'n SAA ac nad ydynt yn SAA,<sup>144</sup> gan ddisodli Asiantaeth Ansawdd Prifysgolion Awstralia yn 2011.<sup>145</sup> Mae'n cofrestru ac yn gwerthuso perfformiad darparwyr AU yn erbyn y Fframwaith Safonau Addysg Uwch "Safonau Trothwy".<sup>146</sup> Fframwaith Cymwysterau Awstralia (AQF), a gyflwynwyd yn 1995, yw'r polisi cenedlaethol ar gyfer cymwysterau a reoleiddir yn system addysg a hyfforddiant Awstralia. Un o amcanion allweddol yr AQF yw hwyluso llwybrau i a thrwy gymwysterau ffurfiol, mewn ysgolion, AHG ac AU.<sup>147</sup> Goruchwylir gweithgarwch sicrhau ansawdd AHG gan Asiantaeth Sgiliau ac Ansawdd Awstralia (ASQA), sef y rheoleiddiwr cenedlaethol.<sup>148</sup> Mae ASQA yn defnyddio dull yn seiliedig ar risg o reoleiddio, sy'n golygu bod camau rheoleiddio wedi'u targedu at berfformwyr gwael a'r darparwyr hynny sy'n achosi'r risg fwyaf i ansawdd sector AHG Awstralia.<sup>149</sup>

Cyn 1988, roedd gan Awstralia Gomisiwn Addysg Drydyddol Cymanwlad (CTEC), a ddatblygodd o Gomisiwn Prifysgolion Awstralia, ac oedd yn cynnwys prifysgolion a TAFE o fewn ei gylch gwaith. Diddymwyd CTEC yn 1988 gan y Gweinidog Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant ar y pryd, John Dawkins, ac fe'i disodlwyd gan fwrdd cynghori a oedd yn uniongyrchol atebol i'r Gweinidog. Roedd gan CTEC bwerau cynllunio a chyllido o fewn cyllideb a ddarparwyd gan y Llywodraeth, a gallai gynnal asesiadau neu adolygiadau o'r system, neu agweddau arni (Peirianeg, Meddygaeth, y Gyfraith), i weld a oeddent yn diwallu anghenion presennol ac anghenion a ragwelwyd. Gallai sicrhau bod adroddiadau yn arwain at newidiadau mewn lleoedd lle y bo angen.

### 9.2.3 Y Ffindir

Un o nodweddion system y Ffindir yw hanes hir o ddysgu gydol oes ac amrywiaeth eang o gyfleoedd addysg mewn addysg a hyfforddiant i oedolion, yn ogystal â'r brifysgol agored a'r sector addysg barhaus. Tan y 1990au, roedd system brifysgolion y Ffindir yn ddethol ac roedd yn anodd cael mynediad iddi. Yn ystod ail hanner yr 20<sup>fed</sup> ganrif, datblygodd addysg alwedigaethol yn gyflym. Ar ddechrau 1990au lanswyd datblygiad sector AU nad oedd yn brifysgolion wedi'i anelu at godi lefel addysg ac uwchraddio addysg ôl-uwchradd alwedigaethol yn raddau AU. Yn 1992, sefydlwyd y sefydliadau polytechnig cyntaf (*ammattikorkeakoulu* – sefydliadau AU alwedigaethol) drwy gyfuno sefydliadau addysgol, a oedd wedi darparu addysg ôl-uwchradd alwedigaethol gynt, a thrwy uwchraddio eu haddysg i gyrraedd safon AU.

O dan Ddeddf Cymwysterau Galwedigaethol 1994 crëwyd system newydd o gymwysterau seiliedig ar gymhwysedd, lle y gall pobl ennill cymwysterau galwedigaethol drwy ddangos eu sgiliau galwedigaethol mewn arholiadau seiliedig ar gymhwysedd ni waeth sut roeddent wedi dysgu eu sgiliau. Gall addysg a hyfforddiant i oedolion gael eu darparu gan amrywiaeth eang o sefydliadau, gan gynnwys ysgolion, ysgolion a chanolfannau addysg oedolion cyffredinol a galwedigaethol, ysgolion uwchradd gwerin, prifysgolion a cholegau polytechnig, prifysgolion haf neu yn y gweithle fel hyfforddiant mewn swydd. Mae nifer gymharol fawr o sefydliadau addysg oedolion o gymharu â'r boblogaeth.

Disgrifir y system AU fel system ddeuol o brifysgolion a cholegau polytechnig. Ceir 14 o brifysgolion (rhai amlddisgyblaethol ac arbenigol)<sup>150</sup> a 24 o brifysgolion o wyddorau cymhwysol neu golegau polytechnig.<sup>151</sup> Cenhadaeth y prifysgolion yw cynnal ymchwil wyddonol a hyfforddi a rhoi addysg ôl-raddedig yn seiliedig ar hyn ac mae colegau polytechnig yn rhoi hyfforddiant mewn ymateb i anghenion y farchnad lafur; mae'r olaf hefyd yn cynnal gwaith ymchwil a datblygu sy'n cefnogi addysg, ac yn hyrwyddo datblygu rhanbarthol yn benodol. Mae gan y Ffindir system AHG hefyd, sydd â'r nod o wella sgiliau yn y gweithlu, ymateb i anghenion am sgiliau yn y farchnad lafur, a chefnogi dysgu gydol oes. Mae'r sector addysg alwedigaethol hon yn cynnwys hyfforddiant galwedigaethol cychwynol a hefyd hyfforddiant pellach a pharhaus. Mae'r cymwystr galwedigaethol wedi cael ei ddylunio i ymateb i anghenion y farchnad lafur.<sup>152</sup>

Nid oes unrhyw sefydliad cyfryngol ar gyfer AU nac AB, gan fod y ddau sector yn cael eu goruchwylio'n uniongyrchol gan y wladwriaeth. Er bod pob prifysgol naill ai'n gorfforaeth annibynnol o dan gyfraith gyhoeddus neu'n sefydliad o dan y Ddeddf Sefydliadau, mae'r Weinyddiaeth Addysg a Diwylliant (MoEC) yn goruchwylio materion sydd o fewn cylch gwaith y Llywodraeth. Yn yr un modd, mae colegau polytechnig yn sefydliadau trefol neu breifat, a awdurdodir gan y Llywodraeth. Mae'r Llywodraeth ac awdurdodau lleol yn rhannu cost colegau polytechnig. MoEC sy'n gyfrifol am AHG, ond caiff ei ariannu gan awdurdodau lleol.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae cyfres o ddiwygiadau deddfwriaethol newydd ar gyfer y prifysgolion (2010) ac ar gyfer prifysgolion gwyddorau cymhwysol (2015) wedi cael ei chyflwyno gyda'r bwriad o lywio'r system tuag at fwy o effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.<sup>153</sup> Cymerwyd camau eraill i atgyfnerthu system ymchwil ac arloesedd y Ffindir drwy fwy o gydweithredu rhwng prifysgolion a sefydliadau ymchwil, datblygu consortia ymchwil, a sefydlu'r Cyngor Ymchwil Strategol fel offeryn cyllido buddsoddiad. Mae ymwneud y Llywodraeth â threfniadau llywodraethu AU ar ffurf cynlluniau datblygu ar gyfer addysg ac ar gyfer ymchwil academiaidd ac ymchwil a datblygu, y cytunir arnynt bob pedair blynedd. Mae prifysgolion, yn eu tro, yn cael eu llywodraethu drwy gytundebau perfformiad sy'n deillio o gyd-drafodaethau rhwng pob prifysgol a'r MoEC, sy'n pennu targedau gweithredol ac ansoddol a'r adnoddau sydd eu hangen.<sup>154</sup> Mae'r cytundeb hefyd yn darparu ar gyfer monitro a gwerthuso'r broses o gyrraedd targedau a datblygu gweithgareddau.<sup>155</sup>

Sefydlwyd FINEEC, sef Canolfan Gwerthuso Addysg y Ffindir, ar 1 Mai 2014 drwy uno FINHEEC (Cyngor Gwerthuso Addysg Uwch y Ffindir) â Chyngor Gwerthuso Addysg y Ffindir a'r gwerthusiad o addysg a wnaed gan Y Weinyddiaeth Addysg a Diwylliant. Canolfan Gwerthuso Addysg y Ffindir (FINEEC) yw'r asiantaeth sicrhau ansawdd genedlaethol sy'n gyfrifol am werthuso AU yn y Ffindir, ac mae'n aelod llawn o Gymdeithas Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch Ewrop (ENQA) ac mae wedi'i chynnwys yng Nghofrestr Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch Ewrop (EQAR). Un o brif egwyddorion archwiliadau FINEEC yw ymreolaeth SAUau, fel y'i nodwyd yn Neddf Prifysgolion y Ffindir a Deddf Colegau Polytechnig y Ffindir; yr SAUau sy'n gyfrifol am ansawdd eu haddysg a gweithrediadau eraill a'u datbygliad parhaus.<sup>156</sup> Ym maes AHG, mae sicrhau ansawdd ar ffurf llywio drwy wybodaeth, cymorth a chyllid.

Dros y blynyddoedd diwethaf, ac o ganlyniad i fwy o bwyslais ar gynllunio strategol a chydlynu system, bu cydweithrediad amlwg rhwng SAUau. Yn fwyaf nodedig, mae'r prifysgolion yn dechrau cydweithio i gytuno ar grynodiadau mewn cyfres fach o feysydd astudiaeth a all olygu na fydd rhai meysydd astudiaeth ond ar gael mewn tair prifysgol yn hytrach nag ym mhob man. Ceir sawl enghraifft hefyd o gydweithredu rhwng prifysgolion a phrifysgolion gwyddorau cymhwysol (er enghraifft, yn rhanbarthau Lappeenranta, Rovaniemi a Tampere). Mae cydweithredu o'r fath – sydd wedi digwydd yn wirfoddol – yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr ddilyn cyrsiau addysgol gan y ddau sefydliad, er mwyn atgyfnerthu arbenigedd ymchwil a datblygu mentrau cydweithredol newydd, a chael effaith ranbarthol gryfach.

#### **9.2.4 Rhanbarth Gweinyddol Arbennig Hong Kong**

Mae addysg uwch yn Rhanbarth Gweinyddol Arbennig Hong Kong yn cynwys pob math o addysg ôl-uwchradd, ac yn cwmpasu 20 o SAUau sy'n dyfarnu graddau, gan gynnwys wyth sefydliad cyhoeddus a ariennir drwy'r Pwyllgor Grantiau Prifysgolion (UGC), ac 11 o sefydliadau "hunangyllidol". Ceir hefyd Academi Celfyddydau Perfformio Hong Kong a ariennir drwy arian cyhoeddus a Sefydliad Addysg Wirfoddol

